



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
(Y Cofnod Swyddogol)

The National Assembly for Wales
(The Official Record)

Dydd Mercher 15 Medi 1999
Wednesday 15 September 1999

Cynnwys Contents

- | | |
|----|---|
| 3 | Datganiadau gan y Llywydd
<i>Statements by the Presiding Officer</i> |
| 4 | Ethol i'r Pwyllgor Busnes
<i>Election to the Business Committee</i> |
| 4 | Cwestiynau i Ysgrifennydd yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol
<i>Questions to the Secretary for the Environment and Local Government</i> |
| 12 | Cynnig o Gerydd
<i>Censure Motion</i> |
| 20 | Datganiad ar Benderfyniad y Dirprwy Lywydd ar Orchymyn Deddf Llywodraeth Leol 1999 (Dechrau) (Cymru) 1999
<i>Statement on the Deputy Presiding Officer's Determination on the Local Government Act (Commencement) (Wales) Order 1999</i> |
| 20 | Strategaeth Plant i Gymru
<i>Children's Strategy for Wales</i> |
| 41 | Dadl Plaid Leiafrifol (Plaid Cymru): Y Diwydiant Amaethyddol
<i>Minority Party Debate (Plaid Cymru): The Farming Industry</i> |
| 70 | Dadl Plaid Leiafrifol (y Blaid Geidwadol): Ariannu'r NHS yng Nghymru
<i>Minority Party Debate (the Conservative Party): NHS Funding in Wales</i> |

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

Datganiadau gan y Llywydd Statements by the Presiding Officer

The Presiding Officer: Before we begin the session I give my, and the Assembly's, thanks to the Deputy Clerk, Bryan Mitchell. Bryan was responsible for establishing my office, the Office of the Presiding Officer, which is known affectionately as OPO. He began that task in September as soon as the Government of Wales Bill was passed.

I am grateful for the way in which the office was established and for Bryan's mission to protect the integrity and interests of all Members and the unity of the Assembly as a corporate body. I am also grateful for his excellent advice. I place my thanks to him, and those of the Assembly, on record.

Cyflwynir materion newydd o drefn imi yn rheolaidd. Bydd y broses y byddaf yn ei defnyddio i benderfynu sut y dylid delio â materion o fewn y Siambr yn dilyn yr un camau bob amser. Byddaf yn cael fy arwain yn gyntaf gan y Rheolau Sefydlog ac unrhyw ddogfennau a gymeradwyir gan y Cynulliad. Wedyn, byddaf yn ystyried unrhyw gynsail neu benderfyniad blaenorol. Yn olaf, byddaf yn cael fy arwain gan yr ysbryd o fod yn agored, yn gynhwysol ac o wasanaethu buddiannau pob Aelod.

O ran y busnes ar gyfer heddiw, gofynnwyd imi benderfynu a ddylid gosod cynnig o gerydd ym mhapur y drefn. Er nad yw Rheolau Sefydlog Rhifau 6.4 a 6.11 yn nodi ym mha le yn union y dylid ei osod, mae Rheol Sefydlog Rhif 6.4 er hynny yn mynnu y dylid trefnu amser ar ei gyfer cyn gynted ag y bo modd, a chyn pen pum niwrnod gwaith ar ôl cyflwyno'r cynnig.

Er mwyn bodloni'r gofyniad hwnnw, gan gofio mai ddydd Iau yn unig y byddwn yn cyfarfod yr wythnos nesaf, penderfynais y dylid gosod y cynnig ym mhapur y drefn ar gyfer heddiw. Yr wyf wedi dod i'r casgliad y dylid dilyn arweiniad yr egwyddor o 'cyn

Y Llywydd: Cyn inni ddechrau'r cyfarfod hoffwn ddiolch yn bersonol, ac ar ran y Cynulliad i'r Dirprwy Glere, Bryan Mitchell. Bryan fu'n gyfrifol am sefydlu fy swyddfa i, sef Swyddfa'r Llywydd. Dechreuodd ar y dasg honno ym mis Medi cyn gynted ag y pasiwyd Mesur Llywodraeth Cymru.

Yr wyf yn ddiolchgar am y modd y sefydlwyd y swyddfa ac am genhadaeth Bryan i warchod gonestrwydd a buddiannau yr Aelodau ac undod y Cynulliad fel corff corfforaethol. Yr wyf hefyd yn ddiolchgar am ei gyngor gwych. Hoffwn gofnodi fy niolch i, a diolchiadau'r Cynulliad iddo.

New matters of procedure are presented to me regularly. The process by which I will decide how matters will be handled in the Chamber will always follow the same steps. I will first be guided by the Standing Orders and any of the documents approved by the Assembly. I will then look to any precedent or earlier decision. Finally, I will be guided by a spirit of openness, inclusivity and of serving the interests of all Members.

In regard to today's business, I was asked to decide whether a censure motion should be placed on the order paper. Although Standing Orders Nos. 6.4 and 6.11 do not specify where such a motion should be placed, Standing Order No. 6.4 nevertheless requires that time should be made available as soon as possible, and within five working days of the motion being tabled.

To meet that requirement, given that the Assembly is meeting on Thursday only next week, I decided that the motion should be placed on today's order paper. I have concluded that the principle of 'as soon as possible' should guide where such a motion

gynted ag y bo modd' wrth benderfynu ym mha le y dylid gosod cynnig o'r fath ar bapur y drefn. Dylai'r Cynulliad ystyried cynigion o'r fath yn rhan o fusnes pwysicaf y Cynulliad. Felly, o hyn ymlaen, yr wyf wedi penderfynu y dylid gosod pob cynnig o ddiffyg hyder neu gerydd ar ddechrau prif waith y Cynulliad, yn dilyn cwestiynau i Ysgrifenyddion y Cynulliad. O ran cynseiliau, byddai hyn yn cyd-fynd â'm penderfyniadau ynghylch gosod cynigion o bwys cyhoeddus brys. Yr wyf o'r farn y bydd sicrwydd ynghylch gosod materion o'r fath ar bapur y drefn yn cael ei ystyried yn gydnaws â'r ysbryd o fod yn agored ac o wasanaethu buddiannau'r holl Aelodau.

is placed on the order paper. The Assembly should regard such motions as among its most important business. Therefore, I have decided that from now on all motions of no confidence and censure should be placed at the start of the Assembly's main business, following questions to the Assembly Secretaries. In terms of precedents, this is consistent with my decisions on the placement of motions on matters of urgent public importance. I believe that certainty over the placing of such motions on the order paper will be regarded as fully within a spirit of openness and serving the interests of all Members.

Ethol i'r Pwyllgor Busnes Election to the Business Committee

The Business Secretary (Andrew Davies): I propose that

the Assembly, acting under Standing Orders Nos. 8.3 and 13.2, elects William Graham to its Business Committee in place of David Davies.

*A vote was held by show of hands.
Motion adopted.*

Y Trefnydd (Andrew Davies): Cynigaf fod

y Cynulliad, gan weithredu o dan Reolau Sefydlog Rhifau 8.3 a 13.2 yn ethol William Graham i'w Bwyllgor Busnes yn lle David Davies.

*Cyhaliodd pleidlais drwy ddangos dwylo.
Derbyniwyd y cynnig.*

Cwestiynau i Ysgrifennydd yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol Questions to the Secretary for the Environment and Local Government

Cysylltiadau Ffordd Rhwng Gogledd a De Cymru Road Links Between North and South Wales

C1 Owen John Thomas: I gydnabod yr angen brys i wella cysylltiadau ffordd rhwng de a gogledd Cymru, a wnaiff Ysgrifennydd yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol gefnogi cynigion i ddelio â hyn trwy roi arian ychwanegol i'r diben hwn yng nghyllideb y flwyddyn nesaf? (OAQ840JS)

The Secretary for the Environment and Local Government (Peter Law): I announced on 9 September that we have commissioned a study to consider how the Assembly can best improve transport links between north and south Wales. The study's recommendations, which will be available early next year, will assist us in deciding on

Q1 Owen John Thomas: In recognition of the urgent need to improve the road links between north and south Wales, will the Secretary for the Environment and Local Government support moves to expedite this aim by including additional funds for this purpose in next year's budget? (OAQ840JS)

Ysgrifennydd yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol (Peter Law): Cyhoeddais ar 9 Medi ein bod wedi comisiynu astudiaeth i ystyried y ffordd orau i'r Cynulliad wella cysylltiadau trafniadaeth rhwng y gogledd a'r de. Bydd argymhellion yr astudiaeth, a fydd ar gael yn fuan y flwyddyn nesaf, o gymorth inni benderfynu

the scale of and priorities for future investment. Improving transport links between north and south Wales is a main priority for the Assembly and for myself.

Owen John Thomas: Sylwaf fod yr arian sydd yn cael ei wario ar heolydd yng Nghymru wedi ei haneru ers 1993. Ar yr un pryd, mae geiriau gwyrdd y Ceidwadwyr a'r Llywodraeth Lafur wedi cynyddu. Rhaid i chi fy esgusodi am fod yn sinigaidd ond teimlaf fod yr arolwg hwn yn gynllun arall i osgoi gwario ar heolydd yng Nghymru. Mae gennyf adroddiad gan y Sefydliad Materion Cymreig ac ynddo maent yn clustnodi dwsinau o leoedd ar yr heol rhwng y de a'r gogledd lle mae eisiau gwneud gwaith. Nid oes angen ichi aros am yr arolwg i sicrhau bod peth o'r gwaith hwn yn cael ei wneud o dan y gyllideb nesaf.

Peter Law: We are at the start of a new era. This is a new institution and we need to consider every opportunity to improve the north-south Wales transport link. We should consider not only cars and buses but also the trains and the air service. I commissioned this study. It is right and it is in the interests of the people of Wales as a whole, if we are serious about 'uniting the nation'—to use the title of the Institute of Welsh Affairs document—and bringing our communities closer together.

You refer to the previous administration of 1993 and how much money was spent. Of course I would like more money in the trunk road budget. I assure you that I will speak to the Finance Secretary about that, but there are budgetary constraints, which we all appreciate, with the comprehensive spending review. However, one must recognise that over £80 million has been spent on the A470 in the last five years. The Nant Crew improvement scheme at £1.6 million is in progress and in early 2000 work will be done on the Tŷ Nant to Maentwrog scheme at another £3 million. Subject to finance, over the next two years work will begin on the A470 with the Lledr Valley phase 2 scheme (you will have seen the successful Lledr Valley phase 1 scheme) from Dolwyddelan to Pont yr Afanc at £16.6 million. Work will

faint y byddwn yn ei fuddsoddi yn y dyfodol a'r blaenoriaethau. Mae gwella cysylltiadau trafnidiaeth rhwng y gogledd a'r de yn brif flaenoriaeth i'r Cynulliad ac i minnau.

Owen John Thomas: I notice that the money spent on roads in Wales has been halved since 1993. At the same time, the Conservatives' and the Labour Government's reference to green issues has increased. You must excuse me for being cynical but I feel that this study is another scheme to avoid spending on roads in Wales. I have a report by the Institute of Welsh Affairs in which they earmark dozens of places on the road between the south and north where work needs to be done. You need not wait for this study to ensure that some of this work is carried out under the next budget.

Peter Law: Yr ydym ar ddechrau oes newydd. Sefydliad newydd yw hwn ac y mae'n rhaid inni ystyried pob cyfle i wella'r cyswllt trafnidiaeth gogledd-de Cymru. Fe ddylem ystyried nid yn unig geir a bysiau ond hefyd drenau a'r gwasanaeth awyrennau. Comisiynais yr astudiaeth hon. Mae'n iawn ac mae o fudd i bobl Cymru gyfan, os ydym o ddifrif ynghylch 'uno'r genedl'—i ddefnyddio teitl dogfen y Sefydliad Materion Cymreig—a dod â'n cymunedau yn agosach at ei gilydd.

Yr ydych yn cyfeirio at weinyddiaeth flaenorol 1993 a faint o arian a wariwyd. Wrth gwrs hoffwn gael mwy o arian yng nghyllideb y cefnffyrdd. Fe allaf eich sicrhau y byddaf yn siarad â'r Ysgrifennydd Cyllid ynghylch hynny, ond y mae yna gyfyngiadau cyllidebol, fe sylweddolwn hynny i gyd, gyda'r arolwg gwariant cynhwysfawr. Fodd bynnag, mae'n rhaid cydnabod bod dros £80 miliwn wedi ei wario ar yr A470 dros y pum mlynedd diwethaf. Mae cynllun gwella Nant Crew gwerth £1.6 miliwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ac yn fuan yn 2000 bydd gwaith yn cael ei wneud ar y cynllun rhwng Ty Nant a Maentwrog sydd werth £3 miliwn arall. Yn dibynnu ar gyllid, dros y ddwy flynedd nesaf bydd gwaith yn dechrau ar yr A470 gyda cham 2 cynllun Dyffryn Lledr (byddwch wedi gweld cam 1 llwyddiannus

also begin on a small scheme south of Builth, at Christmas Pitch at a cost of £1.5 million. To help with the north-south link, there is the early 2000 scheme from Llanwnda to Llanllyfni at £11 million. I inspected it recently and it is needed. There is much work being done and we are moving forward positively with a restricted budget to try to unite north and south Wales.

Dafydd Wigley: Y tro nesaf y byddwch i fyny yn y gogledd, rhowch wybod imi ac fe fyddaf yn falch iawn o'ch croesawu i'r etholaeth. Carwn ategu'r alwad a wnaethpwyd gan Owen John Thomas, fel un sydd yn gorfod teithio o'r gogledd i'r de ac yn ôl bob wythnos. Nid ydym yn pwyso i gael ffyrdd deuol bob milltir o'r ffordd ond fe ellid, trwy wario'n ddarbodus a chael lonydd ychwanegol lle mae trafndiaeth drom, gyflymu'r siwrnai am gost resymol. A gawn ni sicrwydd y bydd arian yn cael ei wario fel rhan o raglen benodol ar gyfer gwella'r cysylltiadau de-gogledd Cymru yn ystod y flwyddyn nesaf? A gawn ni sicrwydd hefyd, gan ichi gyfeirio at bwysigrwydd trenau, y bydd y cynllun a ddatblygwyd gan Peter Hain yn mynd rhagddo yn ystod y flwyddyn nesaf ac y byddwn yn cael dau neu dri o drenau uniongyrchol o Gaerdydd i Gaerdydd ac o Gaerdydd i Gaerdydd bob dydd?

Peter Law: As I have stated, improving transport links between north and south Wales is a priority of the Assembly and my priority. I mentioned some of the improvements that are taking place and will take place. Some are subject to finance, but they should happen with the Assembly's support. We must balance the economy with the environment. I mentioned the Institute of Welsh Affairs report 'Uniting the Nation' but I am certain that the Assembly will also want to consider the Friends of the Earth report. We have a precious environment and we must look after it and make sure that it is taken into account. In the future we can make positive moves forward regarding transport,

cynllun Dyffryn Lledr) o Ddolwyddelan at Bont yr Afanc sydd werth £16.6 miliwn. Bydd gwaith yn dechrau hefyd ar gynllun bychan i'r de o Lanelwedd yn Christmas Pitch sydd yn costio £1.5 miliwn. I ategu'r cyswllt gogledd-de mae cynllun ar y gweill ar gyfer dechrau 2000 o Lanwnda i Lanllyfni gwerth £11 miliwn. Archwiliais ef yn ddiweddar ac mae angen amdano. Mae llawer o waith yn cael ei wneud ac yr ydym yn camu ymlaen yn gadarnhaol gyda chyllideb gyfyngedig i geisio uno gogledd a de Cymru.

Dafydd Wigley: Next time you are up in the north, let me know and I will welcome you to the constituency. I endorse the call made by Owen John Thomas, as one who has to travel from north to south and back each week. We are not pressing for dual carriageways each step of the way, but by spending wisely and building extra lanes where there is heavy traffic, the journey time could be reduced at a reasonable cost. Can you assure us that money will be spent as part of a specific programme for improving north-south Wales links in the next year? Can you assure us, as you referred to the importance of trains, that the scheme developed by Peter Hain will move forward during the next year and that we will have two or three direct trains from Holyhead to Cardiff and from Cardiff to Holyhead every day?

Peter Law: Fel y dywedais, mae gwella cysylltiadau trafndiaeth rhwng gogledd a de Cymru yn flaenoriaeth i'r Cynulliad ac i minnau. Crybwyllais rai o'r gwelliannau sydd eisoes yn mynd rhagddynt a'r rhai sydd i ddod, rhai yn ddibynnol ar gyllid, ond fe ddylent ddigwydd gyda chefnogaeth y Cynulliad. Mae'n rhaid inni gydbwysu'r economi a'r amgylchedd. Cyfeiriais at adroddiad y Sefydliad Materion Cymreig 'Uno'r Genedl' ond yr wyf yn siwr y bydd y Cynulliad eisiau ystyried adroddiad Cyfeillion y Ddaear hefyd. Mae gennym amgylchedd gwerthfawr ac mae'n rhaid inni ofalu amdano gan wneud yn siwr ei fod yn cael ei ystyried. Yn y dyfodol gallwn gymryd

especially the road network.

camau cadarnhaol ymlaen ym maes trafniadaeth, yn enwedig y rhwydwaith ffyrdd.

2:09 p.m.

I am committed to an improved rail service. We must ensure that we get the right value for money scheme and we have looked at this in detail. I was disappointed by recent events and hope that we can go back and discuss it with train operating companies. I have written to Wales and West and hope that we can talk further about those developments. There have been other expressions of interest and I have pursued those although there is nothing concrete yet on which to report. I aim to discuss positive arrangements and implement an improvement in north-south Wales train links in the next year or two. I want your support on that because improving north-south rail links is an important plank of the transport lobby.

Yr wyf wedi ymrwymo i wella'r gwasanaeth trenau. Mae'n rhaid inni sicrhau ein bod yn cael y cynllun gwerth-am-arian cywir ac yr ydym wedi edrych ar hyn yn fanwl. Cefais fy siomi a gobeithiaf y gallwn ddychwelyd i drafod hyn gyda'r cwmnïau trenau. Yr wyf wedi ysgrifennu at Wales and West a gobeithiaf y gallwn siarad ymhellach ynghylch y datblygiadau hynny. Mae eraill wedi mynegi diddordeb ac yr wyf wedi dilyn trywydd y rheini er nad oes dim byd cadarn i'w adrodd yn ôl eto. Bwriadaf drafod trefniadau pendant a rhoi gwelliant ar waith yng nghysylltiadau trenau gogledd-de Cymru yn ystod y flwyddyn neu ddwy nesaf. Mae eisiau eich cefnogaeth arnaf ar hynny oherwydd bod gwella cysylltiadau trenau gogledd-de yn elfen bwysig yn nadleuon y lobi trafniadaeth.

Glyn Davies: While I support a programme of strategic investments in the north-south road links, we should not lose sight of the importance of east-west Wales links. I would like an assurance from Peter Law that decisions about investment in the transport infrastructure in Wales will be guided by the need for economic growth and prosperity in Wales in the future.

Glyn Davies: Tra fy mod yn cefnogi rhaglen o fuddsoddiadau strategol yn y cysylltiadau ffyrdd gogledd-de ni ddylem golli golwg ar bwysigrwydd cysylltiadau dwyrain-gorllewin Cymru. Hoffwn gael sicrwydd gan Peter Law mai'r ffaith fod angen cynnydd economaidd a ffyniant yng Nghymru yn y dyfodol fydd yn llywio penderfyniadau ynghylch buddsoddiad yn yr isadeiledd trafniadaeth yng Nghymru.

Peter Law: You are correct to mention that but I always consider these things through the trunk road network. It is important that we also concentrate on the east-west Wales network and a number of road schemes come to mind. I assure you that I shall carefully consider these bearing in mind economic development throughout Wales.

Peter Law: Yr ydych yn gywir i grybwyll hynny ond yr wyf yn ystyried y pethau hyn drwy'r rhwydwaith cefnffyrdd o hyd. Mae'n bwysig ein bod hefyd yn canolbwyntio ar rwydwaith dwyrain-gorllewin Cymru ac y mae nifer o gynlluniau ffyrdd yn dod i fy meddwl. Yr wyf yn eich sicrhau y byddaf yn ystyried y rhain yn ofalus gan gadw datblygiad economaidd drwy Gymru mewn cof.

Peter Black: I am disappointed with Plaid Cymru's obsession with spending £60 million on the A470 in light of the sustainable development debate yesterday. I am also disappointed with spending £50,000

Peter Black: Yr wyf yn siomedig gydag obsesiwn Plaid Cymru am wario £60 miliwn ar yr A470 yng ngoleuni'r ddadl ddoe ar ddatblygu cynaliadwy. Yr wyf hefyd yn siomedig ein bod yn gwario £50,000 ar

on a consultants' report when we already have many reports that the Assembly inherited from the Welsh Transport Advisory Group. Will Peter Law pursue more talks with the railway companies as a matter of urgency before we receive the consultants' report? Hopefully, we can then have some north-south Wales improved rail service before the end of this financial year.

Peter Law: I have read your comments on this study. I do not want to second guess these consultants whom I am paying to advise us. We shall get the benefit of their expertise and we shall consider that here next spring. I have not ended any discussions or consultations with rail companies: they are ongoing. I want to take advantage of the consultants' input to make sure that we do the right thing and that I am able to advise you appropriately before the final decision is made. The door is open for discussions with rail companies.

adroddiad ymgynghorwyr o ystyried bod gennym nifer o adroddiadau a etifeddodd y Cynulliad gan Grwp Ymgynghorol Trafnidiaeth Cymru. A wnaiff Peter Law fynd ar drywydd mwy o drafodaethau gyda'r cwmnïau trenau fel mater o frys cyn inni dderbyn adroddiad yr ymgynghorwyr? Gobeithio wedyn y gwelwn rywfaint o wella ar wasanaeth trenau gogledd-de Cymru cyn diwedd y flwyddyn ariannol hon.

Peter Law: Yr wyf wedi darllen eich sylwadau ar yr astudiaeth hon. Nid wyf eisiau dyfalu beth fydd casgliadau'r ymgynghorwyr hyn yr wyf yn eu talu i'n cynghori ni. Byddwn yn manteisio ar eu harbenigedd a byddwn yn ystyried hynny yma wanwyn nesaf. Nid wyf wedi gorffen unrhyw drafodaethau nac ymgynghoriadau gyda chwmnïau trenau: maent yn parhau. Yr wyf eisiau manteisio ar gyfraniad yr ymgynghorwyr i sicrhau ein bod yn gwneud y peth iawn ac fy mod yn rhoi'r cyngor priodol ichi cyn gwneud y penderfyniad terfynol. Mae'r drws ar agor ar gyfer trafodaethau gyda chwmnïau trenau.

Safleoedd Tirlenwi Landfill Sites

Q2 Pauline Jarman: Will you make a statement on the adequacy of present legislation on the statutory nuisance regulations as they apply to landfill sites? (QA852VB) [R]

Peter Law: Current legislation strikes an appropriate balance that is flexible enough to enable local authorities to deal with widely diverse situations and to judge each case of possible nuisance in the light of local circumstances.

Pauline Jarman: This is your opportunity to talk rubbish because that is part of your job description. Will you ensure that local authorities who put their waste disposal arrangements in the care of arm's length local authority waste disposal companies be provided for in future legislation according to the principles of Best Value, offering them the opportunity to manage directly their landfill sites?

C2 Pauline Jarman: A yw Peter Law am wneud datganiad ar addasrwydd y ddeddfwriaeth gyfredol ar reoliadau niwsans statudol mewn perthynas â safleoedd tirlenwi? (QA852VB) [R]

Peter Law: Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn taro cydbwysedd addas sydd yn ddigon hyblyg i alluogi awdurdodau lleol i ddelio gydag amrywiaeth eang o sefyllfaoedd ac i farnu pob achos o niwsans posibl yng ngoleuni amgylchiadau lleol.

Pauline Jarman: Dyma eich cyfle i siarad sbwriel oherwydd bod hynny yn rhan o'ch disgrifiad swydd. Gyda golwg ar awdurdodau lleol sydd yn rhoi eu trefniadau gwaredu sbwriel yng ngofal cwmnïau gwaredu gwastraff hyd-braich awdurdodau lleol, a wnewch chi sicrhau bod darpariaeth mewn deddfwriaeth yn y dyfodol yn cael ei seilio ar egwyddorion Gwerth Gorau, gan gynnig cyfle iddynt reoli eu safleoedd

tirlenwi yn uniongyrchol.

Peter Law: I hope that there will be opportunities for local authorities to consider taking over the responsibility for landfill sites when we have the best value legislation. That will be debated in the future. It is scheduled to go before the Environment and Local Government Committee, and I am sure that Committee members will make a meaningful input. We can discuss this opportunity with the Welsh Local Government Association. I know that it will not miss the chance to make me aware of its feelings.

Kirsty Williams: What action can the Assembly Secretary take should a local authority be found to have been disposing illegally of material in landfill sites?

Peter Law: I do not suppose a local authority could prosecute itself. Therefore, the matter would be referred to the Environment Agency, which is the guardian of the environment. I rely on it very much for its good work. It would be the controlling body that would ensure that the landfill site was used appropriately with regard to the licence that was granted. If the local authority was in default of that licence arrangement, I expect that the Environment Agency would take appropriate action.

Geraint Davies: In accordance with Best Value principles, do you agree that an independent public inquiry is the most cost-effective way of getting at the truth about the Nant-y-gwyddon landfill site compared with the costs already incurred on separate reports commissioned by C. L. Associates, Entec, the Welsh Combined Centres for Public Health, Casella London Limited, Health Information Collection Clinics and Euro Hazcon? Do you further agree that a public inquiry is the only way to start to give justice to the people of the Rhondda who have suffered long enough?

Peter Law: As you know, I met residents of that area of the Rhondda this morning. They

Peter Law: Gobeithiaf y bydd cyfleoedd i awdurdodau lleol ystyried derbyn cyfrifoldeb dros safleoedd tirlenwi pan fydd y ddeddfwriaeth gwerth gorau gennym ni. Bydd dadl yn cael ei chynnal ynghylch hyn yn y dyfodol. Trefnwyd iddo fynd o flaen y Pwyllgor Amgylchedd a Llywodraeth Leol, ac yr wyf yn siwr y bydd aelodau'r Pwyllgor yn gwneud cyfraniad ystyrllon. Gallwn drafod y cyfle hwn gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Gwn na fydd yn methu ar ei chyfle i gyfleu ei theimladau i mi.

Kirsty Williams: Beth all yr Ysgrifennydd Cynulliad ei wneud os canfyddir bod awdurdod lleol wedi bod yn gwaredu deunyddiau yn anghyfreithlon mewn safleoedd tirlenwi?

Peter Law: Tybiaf na all awdurdod lleol erlyn ei hun. Felly, byddai'r mater yn cael ei gyfeirio at Asiantaeth yr Amgylchedd, sef gwarchodwr yr amgylchedd. Yr wyf yn dibynnu llawer iawn arni am ei gwaith da. Hwn fyddai'r corff rheoli a fyddai'n sicrhau bod y safle tirlenwi yn cael ei ddefnyddio'n briodol mewn perthynas â'r drwydded a roddwyd iddo. Pe bai'r awdurdod lleol yn torri amodau'r drwydded honno, fe dybiaf y byddai Asiantaeth yr Amgylchedd yn gweithredu'n briodol.

Geraint Davies: Yn unol ag egwyddorion Gwerth Gorau, ydych chi'n meddwl mai ymchwiliad cyhoeddus annibynnol yw'r ffordd fwyaf cost-effeithiol o gael y gwirionedd ynghylch safle tirlenwi Nant-y-gwyddon o'i gymharu â'r costau a fu yn barod ar adroddiadau unigol a gomisiynwyd gan C. L. Associates, Entec, y Canolfannau Cyfun Cymru er Iechyd y Cyhoedd, Casella London Limited, Clinigau Casglu Gwybodaeth Iechyd ac Euro Hazcon? Ydych chi'n cytuno ymhellach mai ymchwiliad cyhoeddus yw'r unig ffordd o ddechrau sicrhau cyfiawnder i bobl y Rhondda sydd wedi dioddef yn hen ddigon hir?

Peter Law: Fel y gwyddoch, cyfarfûm â thrigolion o'r ardal honno o'r Rhondda y

represented people who oppose activities at the Nant-y-gwyddon tip. I fully understand and appreciate their concerns about this development. However, it is a historic fact that it is there and the Assembly has inherited the matter.

With regard to a public inquiry for which you have asked in the past, I do not feel that it would produce any scientific or health benefits for the residents of that area. I do not believe that it is appropriate to use finances in this way, bearing in mind budget constraints and other possible requests for inquiries for various reasons. I do not agree with a public inquiry. However, I understand that the First Secretary has written to the leader of Rhondda Cynon Taff County Borough Council, saying that he was considering an independent review of the evidence and actions taken by main parties to see if any issues have been missed. We have not had a response yet but we are always eager to do something to consider this difficulty, bearing in mind that the controlling authority, as far as regulation is concerned, is the Environment Agency. I would not want to interfere with that.

bore yma. Yr oeddent yn cynrychioli pobl sydd yn gwrthwynebu gweithgareddau yn nhomen Nant-y-gwyddon. Yr wyf yn llawn ddeall a gwerthfawrogi eu pryderon ynghylch y datblygiad hwn. Fodd bynnag, mae yn ffaith hanesyddol ei fod yno ac mae'r Cynulliad wedi etifeddu'r mater.

Yr ydych wedi gofyn imi gynnal ymchwiliad cyhoeddus yn y gorffennol, ond nid wyf yn teimlo y byddai'n esgor ar unrhyw fuddiannau i drigolion yr ardal honno o ran gwyddoniaeth nac iechyd. Nid wyf yn credu ei bod yn briodol defnyddio cyllid yn y modd hwn, ag ystyried cyfyngiadau'r gyllideb a cheisiadau posibl eraill am ymchwiliadau am resymau amrywiol. Nid wyf yn cytuno ag ymchwiliad cyhoeddus. Fodd bynnag, yr wyf yn deall bod y Prif Ysgrifennydd wedi ysgrifennu at bennaeth Cyngor Bwrdeistref Rhondda Cynon Taf, gan ddweud ei fod yn ystyried arolwg annibynnol o'r dystiolaeth a'r camau a gymerwyd gan y prif bleidiau i weld a fethwyd unrhyw fater. Nid ydym wedi cael ymateb eto ond yr ydym bob amser yn awyddus i wneud rhywbeth i ystyried y broblem hon, gan gadw mewn cof mai'r awdurdod rheoli, cyn belled ag yr ystyrir rheoliadau, yw Asiantaeth yr Amgylchedd. Ni fyddwn eisiau ymyrryd â hynny.

Adolygiad Cynllun Rheoli Gwastraff y DU Review of the UK Waste Management Plan

Q3 Lynne Neagle: Will Peter Law give an update on the review of the UK waste management plan on the import and export of waste? (OAQ846VB)

Peter Law: Lead responsibility for reviewing the existing UK plan rests with the Department of the Environment, Transport and the Regions. It plans to publish a consultation document towards the end of 1999 or early in 2000. Assembly officials are liaising with the DETR on its preparation.

Lynne Neagle: You are well aware of concerns in my constituency about the continued import of toxic waste to Pontypool. The review of the plan presents a

C3 Lynne Neagle: A wnaiff Peter Law roi'r newyddion diweddaraf ar adolygiad cynllun rheoli gwastraff y DU ar fewnforio ac allforio gwastraff? (OAQ846VB)

Peter Law: Mae'r prif gyfrifoldeb ar gyfer adolygu cynllun cyfredol y DU yn disgyn ar Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau. Mae'n bwriadu cyhoeddi dogfen ymgynghorol tua diwedd 1999 neu'n gynnar yn 2000. Mae swyddogion y Cynulliad mewn cysylltiad ag Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau wrth ei baratoi.

Lynne Neagle: Yr ydych yn ymwybodol o'r pryderon yn fy etholaeth ynghylch y ffaith fod y gwastraff gwenwynig yn dal i gael ei fewnforio i Bont-y-pwl. Mae'r adolygiad o'r

major opportunity to address those concerns. Can you detail the Assembly's input into that review?

Peter Law: I appreciate your concern about a particular plant in your constituency and the way in which you have ably represented your constituents' interests since you were elected. The Assembly's precise role in the review cannot be determined until discussions about the transfer of appropriate powers have been completed. Discussions with the DETR about the transfer of those powers to devolved administrations are ongoing. However, the Assembly will participate in this review. I am sure that the Environment and Local Government Committee will wish to discuss the consultation at an appropriate time.

Michael German: Peter, do you think that the recycling targets set for Welsh local authorities are stringent enough, and are they being met? What assistance is the Assembly providing to help local authorities to increase, rather than decrease, their recycling targets?

2:19 p.m.

Peter Law: I was pleased that the First Secretary, on 10 September, launched the initiative on getting local authorities to do more to increase waste recycling. He said:

'Developing and improving partnerships between statutory and community sectors will be an important element in developing the conditions for sustainable waste in Wales.'

With that co-operation and partnership, we will be on our way to reaching those targets and we will be able to reach them given the type of partnership to which reference has been made.

Brian Hancock: Do you plan to issue guidelines for local authorities, referring to the implementation of the Waste

cynllun yn cynnig cyfle gwych i fynd i'r afael â'r pryderon hyn. A allwch chi fanylu ar gyfraniad y Cynulliad i'r arolwg hwnnw?

Peter Law: Yr wyf yn gwerthfawrogi eich pryder ynghylch safle gwaith penodol yn eich etholaeth a'r ffordd yr ydych wedi cynrychioli buddiannau eich etholwyr gystal ers i chi gael eich ethol. Ni ellir pennu union rôl y Cynulliad yn yr arolwg nes y bydd trafodaethau ynghylch trosglwyddo'r grymoedd priodol wedi eu cwblhau. Mae trafodaethau gydag Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau ynghylch trosglwyddo'r grymoedd hynny i weinyddiaethau datganoledig yn parhau. Fodd bynnag, bydd y Cynulliad yn cymryd rhan yn yr arolwg hwn. Yr wyf yn sicr y bydd Pwyllgor yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol yn dymuno trafod yr ymgynghoriad ar adeg briodol.

Michael German: Peter, ydych chi'n meddwl bod y targedau ailgylchu a osodwyd ar gyfer awdurdodau lleol Cymru yn ddigon caeth, ac a ydynt yn cael eu cyrraedd? Pa gymorth mae'r Cynulliad yn ei roi i awdurdodau lleol i gynyddu, yn hytrach na lleihau, eu targedau ailgylchu?

Peter Law: Yr oeddwn yn falch bod y Prif Ysgrifennydd, ar 10 Medi, wedi lansio'r cynllun i gael awdurdodau lleol i wneud mwy i gynyddu ailgylchu gwastraff. Fe ddywedodd:

'Bydd datblygu a gwella partneriaethau rhwng sectorau statudol a chymuned yn elfen bwysig o ran datblygu'r amodau ar gyfer gwastraff cynaliadwy yng Nghymru.'

Gyda'r cydweithredu a'r bartneriaeth, byddwn ar ein ffordd i gyrraedd y targedau hynny a byddwn yn gallu eu cyrraedd ystyried y math o bartneriaeth y cyfeirwyd ati.

Brian Hancock: A ydych chi'n bwriadu cyhoeddi canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol, gan gyfeirio at weithredu Deddf

Minimisation Act 1998?

Peter Law: Yes. It is something that we need to consider very carefully in the department and I will be having discussions with my officials. But in this case it would be prudent to issue guidelines and I will be coming back to talk to you about that, Brian.

Lleihau Gwastraff 1998?

Peter Law: Ydw. Mae'n rhywbeth y bydd rhaid inni ei ystyried yn ofalus iawn yn yr adran a byddaf yn cael trafodaethau gyda'm swyddogion. Ond yn yr achos hwn fe fyddai'n ddoeth cyhoeddi canllawiau a byddaf yn siarad â chi ynghylch hynny eto, Brian.

Cynnig o Gerydd Censure Motion

Y Llywydd: Byddai Aelodau o'r Cynulliad yn dymuno bod yn ymwybodol fy mod i o'r farn fod yn rhaid ystyried bod cynnig o gerydd yn fater hynod bwysig. Yr wyf yn sicr y bydd Aelodau hefyd yn dymuno nodi'r canllawiau ar y fewnwyd yn ymwneud â chynigion o gerydd. Dywed y canllawiau y byddai cynnig o gerydd yn cael ei gyflwyno fel arfer pan deimlir bod Ysgrifennydd Cynulliad wedi gweithredu neu ymddwyn mewn ffordd amhriodol gan danseilio'r swydd honno neu ymddwyn mewn ffordd sydd yn dwyn anfri ar y Cynulliad. Cyngor anffurfiol yw'r arweiniad hwn ond y mae'n gyngor doeth.

Mae digon o gyfleoedd o fewn gweithdrefnau'r Cynulliad i'r Aelodau archwilio, cwestiynu a herio polisi. Gobeithiaf y bydd yr Aelodau sydd yn siarad yn y ddadl gerydd fer hon yn cadw'r sylwadau hynny mewn cof wrth drafod y cynnig. Fe alwaf Peter Rogers i siarad o blaid y cynnig. Caiff un cynrychiolydd o'r pleidiau eraill gyfle i siarad ar y cynnig cyn imi alw'r Trefnydd a rhoi cyfle i'r rhai a ddaeth â'r cynnig gerbron i ateb.

Peter Rogers: I propose

that the Conservative Party deplores the failure of the Secretary for Agriculture and Rural Development to bring forward measures to address the worst crisis in farming this century and calls upon the First Secretary to dismiss her.

It is right that I stand here this afternoon to propose this motion. I do not have to tell any

The Presiding Officer: Assembly Members would wish to be aware that I am of the opinion that censure motions have to be regarded as extremely important business. I am sure that Members also wish to note the guidance on the intranet with regard to censure motions. The guidance states that censure motions would normally be proposed when it is felt that an Assembly Secretary has indulged in inappropriate action or behaviour, undermining that office or bringing the Assembly into disrepute. This is informal but sound advice.

There are plenty of opportunities within Assembly procedure for Members to scrutinise, question and challenge policy. I trust that Members who speak in this short censure debate will bear these remarks in mind when addressing the motion. I will call Peter Rogers to speak for the motion. One representative from the other parties will then be allowed to speak on the motion before I call the Business Secretary and give an opportunity for a reply from those who proposed the motion.

Peter Rogers: Cynigiaf fod

y Blaid Geidwadol yn gresynu bod yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig wedi methu â chyflwyno mesurau i ddelio â'r argyfwng gwaethaf mewn amaethyddiaeth y ganrif hon ac yn galw ar y Prif Ysgrifennydd i'w diswyddo.

Mae yn iawn fy mod i'n sefyll yma y prynhawn yma ac yn cynnig y cynnig hwn.

of you about the crisis in rural Wales because you have visited the agricultural shows and been lobbied and briefed by the unions and all parties involved. The Welsh farmers wanted action and not discussion or sympathy. This is why the Assembly has failed them. Farming is different from other businesses. You cannot switch the machine off and stop production. The ewe trade is of particular significance in this. Our huge stockpile of worthless ewes has ruined the ewe breeding trade and deprived farmers of millions of pounds. We could have prevented this by implementing the cull ewe scheme on the grounds of a welfare environmental package. However, the Secretary for Agriculture and Rural Development got mixed up in her comments on the compensation scheme that the Irish farmers had and which is now classed as illegal.

There is deep concern that this would be unworkable because of border controls. The Assembly has to remember that this is a particular problem with Welsh mountain ewes. Few ewes would be liable to be brought in from England as they are the large, valuable ewes. The Welsh farmers are asking for the small Welsh ewes to be taken off the market. They have been giving them away, which has further depressed the prices and caused chaos. The reason for our cross border controls is that we have a sheep premium scheme that means that we must keep sheep flock records. We must account for each sheep we sell and each sheep that dies, so there is good control in the sheep premium scheme.

We must remember that the Welsh sheep industry has suffered because of the legislation brought in by Dr Jack Cunningham, which cost us the export trade to France. That is what really finished it. There is a demand for the ewes but we have lost the chance to export them as we have to

Nid oes rhaid imi ddweud wrth yr un ohonoch am yr argyfwng yng nghefn gwlad Cymru gan eich bod wedi ymweld â sioeau amaethyddol ac wedi cael eich lobïo a'ch briffio gan yr undebau a phawb sydd yn ymwneud â'r mater. Nid cynnal trafodaethau a chael cydymdeimlad oedd dymuniad y ffermwyr. Yn hytrach, yr oeddent am i rywun weithredu. Dyma pam mae'r Cynulliad wedi eu siomi. Mae ffermio yn wahanol i fusnesau eraill. Ni allwch ddiffodd y peiriant ac atal y cynhyrchu. Mae'r fasnach mamogiaid o arwyddocâd arbennig yn hyn o beth. Mae ein stôr anferth o famogiaid diwerth wedi difetha masnach magu mamogiaid ac wedi amddifadu ffermwyr o filiynau o bunnoedd. Gallwn fod wedi atal hyn drwy weithredu'r cynllun difa mamogiaid ar sail pecyn amgylcheddol a lles. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig wedi drysu wrth wneud sylwadau ar y cynllun iawndal a fu gan ffermwyr Iwerddon sydd bellach yn cael ei ystyried yn anghyfreithlon.

Mae cryn bryder na fyddai modd gweithredu hyn oherwydd rheolau croesi ffiniau. Rhaid i'r Cynulliad gofio bod hyn yn broblem benodol gyda mamogiaid mynydd Cymru. Ychydig o famogiaid a fyddai'n debygol o ddod i mewn o Loegr gan eu bod yn famogiaid mawr, gwerthfawr. Mae ffermwyr Cymru yn gofyn am dynnu'r mamogiaid bach Cymreig oddi ar y farchnad. Maent wedi bod yn eu gwerthu am y nesaf peth i ddim, sydd wedi dirwasgu prisiau ymhellach ac achosi anhrefn. Y rheswm am ein rheolau croesi ffiniau yw fod gennym gynllun premiwm defaid sydd yn golygu bod rhaid inni gadw cofnod o breiddiau. Rhaid inni gadw cyfrif o bob dafad yr ydym yn ei gwerthu a phob dafad sydd yn marw, felly mae rheolaeth dda yn y cynllun premiwm defaid.

Rhaid inni gofio bod diwydiant defaid Cymru wedi dioddef oherwydd y ddeddfwriaeth a gyflwynwyd gan Dr Jack Cunningham, a barodd inni golli'r fasnach allforio i Ffrainc. Hynny a roddodd ddiwedd arni. Mae galw am y mamogiaid ond yr ydym wedi colli'r cyfle i'w hallforio gan fod

take out the spinal cords. France wants whole carcasses and we cannot supply what the French want. They have now gone to other areas throughout Europe to get their supply. This has been caused by bureaucracy and rules. The farmers were not asking for money themselves, but for a way to get rid of these ewes to ensure that we have sensible sheep flocks next year. Then we could start to get this industry working again.

The calf processing aid scheme is the other problem we have. The Assembly is able—

Jocelyn Davies: We are having a debate about agriculture in general. I would like to hear your comments about Christine Gwyther.

Peter Rogers: Yes, I know that—

The Presiding Officer: Order. I am grateful to the assistant Deputy Presiding Officer for providing me with that advice. [*Laughter.*] I indicated at the beginning that this is a censure motion and I indicated its parameters. I have not yet heard the proposer address himself to the relevant parameters of a censure motion.

Peter Rogers: I was trying to explain that we had means within the Assembly to deal with the agriculture crisis but that we failed to take any action to do so. We are looking for immediate action, not tomorrow but today or yesterday, to relieve the situation. I was trying to paint a picture of agriculture as being different from other industries due to its seasonal nature. It is important for you to understand the problems of agriculture.

The Presiding Officer: I understand the problems of agriculture extremely well as I live in Snowdonia. Will you please address your remarks to the topic under discussion?

Peter Rogers: The Assembly failed to address problems in an area where it could have done so, and caused the agriculture industry tremendous financial loss. Christine

rhaidd inni dynnu llinynnau y cefn allan. Mae Ffrainc eisiau ysgerbydau cyfan ac ni allwn gyflenwi'r hyn sydd ar y Ffrancwyr ei eisiau. Maent yn awr wedi mynd i ardaloedd eraill drwy Ewrop i gael eu cyflenwadau. Biwrocratiaeth a rheolau sydd wedi achosi hyn. Nid oedd y ffermwyr yn gofyn am arian eu hunain, ond am ffordd o gael gwared â'r mamogiaid hyn i sicrhau bod gennym breiddiau call o ddefaid y flwyddyn nesaf. Wedyn gallem gael y diwydiant hwn i weithio eto.

Y cynllun cymorth prosesu lloï yw'r broblem arall sydd gennym. Mae'r Cynulliad yn gallu—

Jocelyn Davies: Yr ydym yn cael trafodaeth ar amaethyddiaeth yn gyffredinol. Hoffwn glywed eich sylwadau ar Christine Gwyther.

Peter Rogers: Ie, gwn i hynny—

Y Llywydd: Trefn. Yr wyf yn ddiolchgar i'r Dirprwy Lywydd cynorthwyol am gynnig y cyngor hwnnw imi. [*Chwerthin.*] Nodais ar y dechrau mai dadl gerydd oedd hon a nodais beth fyddai ei ffiniau. Nid wyf eto wedi clywed y cynigydd yn ymdrin â'i destun o fewn ffiniau perthnasol dadl gerydd.

Peter Rogers: Yr oeddwn yn ceisio egluro fod gan y Cynulliad y gallu i fynd i'r afael â'r argyfwng amaethyddol ond ein bod wedi methu â gweithredu i wneud hynny. Yr ydym am weld gweithredu yn syth, nid yfory ond heddiw neu ddoe, i liniaru'r sefyllfa. Yr oeddwn yn ceisio darlunio amaethyddiaeth yn wahanol i ddiwydiannau eraill oherwydd ei natur dymhorol. Mae'n bwysig eich bod yn deall problemau amaethyddiaeth.

Y Llywydd: Yr wyf yn deall problemau amaethyddiaeth yn eithriadol o dda gan fy mod yn byw yn Eryri. A wnewch chi gadw eich sylwadau i'r testun sydd dan sylw?

Peter Rogers: Methodd y Cynulliad fynd i'r afael â phroblemau mewn maes lle y gallai fod wedi gwneud hynny, gan achosi colled ariannol aruthrol i'r diwydiant amaethyddol.

Gwyther has promised the earth. She went to London several times hoping for more money, knowing full well that there would not be any. This is just another PR stunt to prolong her time as the Secretary for Agriculture and Rural Development while toying with farmers' feelings.

Joint decisions are being made behind closed doors where the nationalists are so closely linked with Labour that it is difficult to determine who the Government is. They are promising everything and delivering nothing. Plaid Cymru are very good with their promises—

The Presiding Officer: Order. You have not got much time as your five minutes are up.

Peter Rogers: Why are you cutting me off?

The Presiding Officer: I am cutting you off as I indicated the subject, the rules and the time allocated at the beginning of the debate. Do you wish to conclude succinctly?

Peter Rogers: The Assembly has let farmers down. We had enough powers to listen and to give support to rural Wales. Now we have shown the common sense to assist an industry being smashed by rules and bureaucracy. Due to a complete inability to understand the needs of the rural life and her complete inaction, we are left with no alternative but to call for Christine Gwyther's resignation.

2:29 p.m.

Ieuan Wyn Jones: Ni fyddaf yn cadw'r Cynulliad yn hir yn ymateb i'r cais am gerydd i Christine Gwyther. Mae'r cynnig hwn yn gynamserol ac anghyfrifol oherwydd, yn y man, byddwn yn trafod cynlluniau pendant ynglyn â rhoi cymorth ymarferol i'r diwydiant, y math o gymorth y cyfeiriodd Peter Rogers ato. Y cyfan sydd yn rhaid iddo ef a'i blaid ei wneud yw cefnogi cynnig Plaid Cymru ymhen yr awr a bydd y cynlluniau y galwodd ef amdanynt yn bolisi i'r Cynulliad. Defnyddiaf y term cynamserol oherwydd,

Mae Christine Gwyther wedi addo llawer. Aeth i Lundain sawl gwaith gan obeithio am fwy o arian, gan wybod yn iawn na fyddai dim i'w gael. Dim ond stýnt cysylltiadau cyhoeddus arall yw hwn i ymestyn ei chyfnod fel Ysgrifenydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig tra'n chwarae â theimladau ffermwyr.

Mae'r penderfyniadau'n cael eu gwneud ar y cyd tu ôl i ddrysau cae'dig lle mae cysylltiadau mor glos rhwng y cenedlaetholwyr a Llafur fel ei bod yn anodd gwybod pwy yw'r Llywodraeth. Maent yn addo popeth ond yn cyflawni dim. Mae Plaid Cymru yn dda iawn am addo—

Y Llywydd: Trefn. Nid oes gennych lawer o amser gan fod eich pum munud ar ben.

Peter Rogers: Pam yr ydych chi'n gorchymyn imi dewi?

Y Llywydd: Yr wyf yn gorchymyn ichi dewi oherwydd imi nodi'r testun, y rheolau a'r amser a ganiateir ar ddechrau'r ddadl. A ydych chi eisiau cloi yn gryno?

Peter Rogers: Mae'r Cynulliad wedi siomi ffermwyr. Yr oedd gennym ddigon o rym i wrando a chynnig cefnogaeth i gefn gwlad Cymru. Yn awr yr ydym wedi dangos y synnwyr cyffredin i roi cymorth i ddiwydiant sydd yn cael ei chwalo gan reolau a biwrocratiaeth. Oherwydd ei anallu llwyr i ddeall anghenion bywyd cefn gwlad a'i diffyg gweithredu nid oes dewis gennym ond galw am ymddiswyddiad Christine Gwyther.

Ieuan Wyn Jones: I will not keep the Assembly long in responding to the motion of censure on Christine Gwyther. The motion is premature and irresponsible because, in a while, we will discuss definite plans to give practical assistance to the industry, the kind of assistance to which Peter Rogers referred. All he and his party need do is support Plaid Cymru's motion in an hour's time and the schemes that he called for will be Assembly policy. I call it premature because, once we have adopted this motion with the support of

unwaith y byddwn wedi mabwysiadu'r cynnig gyda chefnogaeth pob plaid, bydd yn rhaid i'r Cynulliad ei weithredu a chyflawni ei addewid. Yr unig amser y gallwch ystyried y math o gynnig—

Nick Bourne: When Ieuan says that this motion is premature I accept that that is his opinion. However, that is not the opinion of his agriculture spokesman as he was the first person to call publicly for Christine Gwyther's resignation at the Royal Welsh Show. I wonder if he associates himself with the comments that Rhodri Glyn Thomas made on that occasion.

Ieuan Wyn Jones: Today, we are debating issues that members of all parties have been calling for throughout the summer. However, the only party that has tabled specific proposals to help the industry is Plaid Cymru. All you need to do today is withdraw this premature motion, support the motion that we present and the Assembly will show a united front in support of the farming industry. This censure motion is nothing but a distraction. We understand that Nick Bourne has to establish himself as the new leader of the Conservative Party in Wales.

Y cyfan a ddywedaf wrth y Blaid Geidwadol yw, peidiwch â chwarae gwleidyddiaeth gyda dyfodol amaethwyr Cymru.

David Davies: Is it not the case that you have been suggesting motions of censure yourself, that you have wanted our support whenever you addressed this issue and that we have been happy to do so? Now we have taken the initiative in tabling this censure motion ourselves, you are not interested because you do not want to offer opposition and help farmers. Your only interest is getting as much political ammunition out of this as possible. You are not fit to be called an opposition.

The Presiding Officer: Order. I take that as a further Conservative speech in the debate.

all parties, the Assembly will have to act and deliver its promise. The only time you can consider the kind of motion—

Nick Bourne: Pan ddywed Ieuan fod y cynnig yn gynamserol derbynïaf mai ei farn ef yw hynny. Fodd bynnag, nid dyna farn ei lefarydd ar amaethyddiaeth gan mai ef oedd y person cyntaf i alw'n gyhoeddus am ymddiswyddiad Christine Gwyther yn Sioe Frenhinol Cymru. Tybed a yw'n cysylltu ei hun gyda'r sylwadau a wnaeth Rhodri Glyn Thomas bryd hynny?

Ieuan Wyn Jones: Heddiw, yr ydym yn dadlau ynghylch materion y mae aelodau o bob plaid wedi bod yn galw amdanynt drwy gydol yr haf. Fodd bynnag, yr unig blaid i gyflwyno cynigion penodol i fod o gymorth i'r diwydiant yw Plaid Cymru. Y cyfan sydd yn rhaid ichi ei wneud heddiw yw tynnu'r cynnig cynamserol hwn yn ei ôl, cefnogi'r cynnig y byddwn ni'n ei gyflwyno a bydd y Cynulliad yn dangos ei fod yn unedig yn ei gefnogaeth i'r diwydiant ffermio. Nid yw'r cynnig o gerydd hwn yn ddim ond gwrthdynciad. Yr ydym yn deall bod Nick Bourne eisiau ei sefydlu ei hun fel arweinydd newydd y Blaid Geidwadol yng Nghymru.

All I say to the Conservative Party is, do not play politics with the future of Welsh farmers.

David Davies: Onid yw hi'n wir eich bod chi wedi bod yn awgrymu cynigion o gerydd eich hunain, a bod eisiau ein cefnogaeth arnoch bryd bynnag yr oeddech yn mynd i'r afael â'r mater hwn a'n bod ni'n fodlon gwneud hynny? Yn awr yr ydym wedi achub y blaen gan wneud y cynnig o gerydd ein hunain, nid oes gennych ddiddordeb gan nad ydych eisiau cynnig gwrthwynebiad a bod o gymorth i ffermwyr. Eich unig amcan yw ennill cymaint o arfau gwleidyddol ag y gallwch chi o hyn. Nid ydych yn gymwys i gael eich galw yn wrthblaid.

Y Llywydd: Trefn. Cymeraf hynny fel araith Geidwadol arall yn y ddadl.

Ieuan Wyn Jones: I will not respond to that in detail. All I say is that yesterday David Davies was congratulated on making a positive contribution.

Mick Bates: I do not wish to keep you long on this matter as there are more important debates to follow. This matter is playing with farmers' lives. We understand the depth of the crisis and the need for action to provide practical and constructive assistance to the industry of which I am part. There may be an occasion when a censure motion will be necessary. However, that should only happen when we have seen logic, rational evidence to judge the actions of the Assembly Secretary. I have written, pressurised and worked to produce the debate needed. We cannot judge the Assembly Secretary's actions now when, in a few minutes, we will have a debate and an amendment, which we will all be voting for, to assist the Welsh farmer.

I hope this Assembly's future will be judged on logical, rational debate that provides leadership. I do not sit comfortably with the action of calling for resignation. I need action to judge a person's performance. That is where I and the Liberal Democrats stand and I cannot at this stage recommend the censure motion.

Andrew Davies: We do not need to waste time on what I and most Assembly Members believe is a cheap publicity stunt by the Tory Party, which despite—or maybe I should say because of—a change of leadership clearly has little, if any, interest in making a serious contribution to this Assembly's hard work. As two previous speakers have said, it is not a serious attempt to deal with the complex situation facing Welsh farmers today.

In preparing for this afternoon's debate, I noticed that this motion had only been signed by seven members of the Conservative group.

Ieuan Wyn Jones: Ni ymatebaf i hynny yn fanwl. Y cyfan a ddywedaf yw bod David Davies wedi cael ei longyfarch ddoe ar wneud cyfraniad cadarnhaol.

Mike Bates: Ni ddymunaf gadw'r Cynulliad yn hir ar y mater hwn gan fod yna ddadleuon pwysicach i ddilyn. Mae'r mater hwn yn chwarae â bywydau ffermwyr. Yr ydym yn deall dyfnder yr argyfwng a'r angen am weithredu i gynnig cymorth ymarferol ac adeiladol i'r diwydiant yr ydwyf i yn rhan ohono. Efallai y bydd adeg pan fydd cynnig o gerydd yn angenrheidiol. Fodd bynnag, ni ddylai hynny ddigwydd tan inni weld tystiolaeth synhwyrol a rhesymegol i farnu gweithrediadau'r Ysgrifennydd Cynulliad. Yr wyf wedi ysgrifennu, wedi pwyso ac wedi gweithio i greu'r ddadl sydd ei hangen. Ni allwn farnu gweithrediadau'r Ysgrifennydd Cynulliad yn awr, gan y byddwn, mewn ychydig o funudau, yn cynnal dadl ac yn trafod gwelliant y byddwn ni i gyd yn pleidleisio o'i blaid, er mwyn cynorthwyo ffermwyr Cymru.

Gobeithiaf y bydd dyfodol y Cynulliad hwn yn cael ei farnu ar sail dadlau rhesymegol, synhwyrol sydd yn cynnig arweiniad. Nid wyf yn gyfforddus gyda'r weithred o alw am ymddiswyddiad. Yr wyf eisiau gweld gweithredu cyn beirniadu perfformiad person. Dyna lle yr wyf fi a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn sefyll ac ni allaf ar hyn o bryd argymhell y cynnig o gerydd.

Andrew Davies: Nid oes angen inni wastraffu amser gyda'r hyn a gredaf i a'r rhan fwyaf o Aelodau'r Cynulliad sydd yn stýnt cyhoeddusrwydd rhad gan y Blaid Doriaidd, nad oes ganddynt, er gwaethaf—neu efallai y dylwn i ddweud oherwydd—newid arweinydd, fawr o ddiddordeb neu ddim diddordeb o gwbl mewn gwneud cyfraniad difrifol at waith caled y Cynulliad. Fel y dywedodd dau siaradwr blaenorol, nid yw'n ymgais ddifrifol i ddelio â'r sefyllfa gymhleth sydd yn wynebu ffermwyr Cymru heddiw.

Wrth baratoi ar gyfer y ddadl y prynhawn yma, fe sylwais mai dim ond gan saith aelod o'r grwp Ceidwadol y llofnodwyd y cynnig

At first I thought this was yet another example of the well-known divisions within the Tory Party. On closer examination I saw that the two Tory Members who had not signed were Alun Cairns and Rod Richards. It indicates either lack of support for their new leader or that they were otherwise engaged, presumably on visits to north Wales or indulging in a spot of telephone canvassing.

Previously the Tory Members scrapped over the leadership. Now they are fighting each other to get the chance to be defeated at the next general election. I will give way.

Nick Bourne: I recognise the Business Secretary's need to protect his Secretary for Agriculture and Rural Development as she is unable to do so herself. Would he accept from me that eight Conservative Members signed the measure and the ninth was not present at the meeting in question? Would he withdraw the suggestion he made earlier because it is factually inaccurate?

Andrew Davies: I was merely going on intranet information. The Labour Party believes in collective responsibility. Clearly, the Conservatives do not. The emergency debate yesterday and the Plaid Cymru motion later this afternoon will show that Christine Gwyther has been working incredibly hard throughout the summer. She has been examining what practical steps can be taken to alleviate the severe immediate problems facing Welsh agriculture. She has been talking and working with the farming unions and other interest groups, with the UK Government and Scottish ministers, acknowledging that it is an UK and European issue and not specifically or solely the responsibility of the Welsh Assembly. She has also worked with responsible politicians here in Wales from across the spectrum of the political parties.

She will be outlining our position on some of these steps this afternoon, in particular a calf

hwn. Ar y dechrau meddyliais fod hyn unwaith eto yn enghraifft o'r rhaniadau adnabyddus oddi fewn i'r Blaid Doriaidd. Wrth edrych yn fanylach gwelais mai'r ddau Aelod Ceidwadol nad oedd wedi llofnodi oedd Alun Cairns a Rod Richards. Mae hyn yn dangos un ai diffyg cefnogaeth i'w harweinydd newydd neu eu bod yn brysur yn gwneud rhywbeth arall, ymweliad â gogledd Cymru efallai neu'n gwneud ychydig o ganfasio dros y ffôn.

Yr oedd yr Aelodau Ceidwadol yn arfer brwydro dros yr arweinyddiaeth. Yn awr maent yn ymladd ei gilydd am y cyfle i gael eu curo yn yr etholiad cyffredinol nesaf. Yr wyf yn barod i ildio.

Nick Bourne: Yr wyf yn cydnabod bod rhaid i'r Trefnydd amddiffyn ei Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig gan nad yw hi'n gallu gwneud hynny ei hun. A wnaiff ef dderbyn gennyf fi fod wyth Aelod Ceidwadol wedi llofnodi'r mesur ac nad oedd y nawfed yn bresennol yn y cyfarfod dan sylw? A wnaiff ef dynnu yn ôl yr awgrym a wnaeth yn gynharach gan ei fod yn ffeithiol anghywir?

Andrew Davies: Dim ond nodi gwybodaeth a welais ar y fewnwyd yr oeddwn. Mae'r Blaid Lafur yn credu mewn cydgyfrifoldeb. Mae'n amlwg nad ydyw'r Ceidwadwyr o'r un farn. Yr oedd y ddadl frys ddoe a chynnig Plaid Cymru yn ddiweddarach y prynhawn yma yn dangos bod Christine Gwyther wedi bod yn gweithio yn eithriadol o galed drwy gydol yr haf. Mae hi wedi bod yn archwilio pa gamau ymarferol y gellir eu cymryd i liniaru'r problemau llym sydd yn wynebu amaethyddiaeth Cymru heddiw. Mae hi wedi bod yn siarad ac yn gweithio gydag undebau'r ffermwyr a grwpiau eraill sydd â diddordeb, gyda Llywodraeth y DU a gweinidogion yr Alban, gan gydnabod ei fod yn fater i'r DU ac Ewrop ac nid yn benodol nac yn unig i Gynulliad Cymru. Mae hi hefyd wedi gweithio gyda gwleidyddion cyfrifol yma yng Nghymru ar draws y sbectrwm o bleidiau gwleidyddol.

Bydd hi'n amlinellu ein safiad ar rai o'r camau hyn y prynhawn yma, yn enwedig

processing aid scheme. She has refused to lose sight of the need to address the longer-term perspective facing Welsh agriculture, a perspective that has been sadly lacking in many commentators. Christine has the wholehearted support and backing of Alun Michael as First Secretary and of the Cabinet as a whole. Alun would be here this afternoon were it not for the fact that he is attending a close relative's funeral. I need to make it clear that our Labour Government is an united team, unlike the Conservatives. We totally accept collective responsibility. The Tory group finds this a difficult concept, given its display of disunity over the summer. We will not tolerate any attempt to pick off members of our team one by one. Let us return to serious, mature politics where those of us who are interested in working together can get on with the job and find real solutions for real problems. I urge Assembly Members to reject this motion.

2:39 p.m.

Glyn Davies: It is the Government's responsibility to deal with the crises that come its way during its reign in office. It is not always the case that everything leading up to the crisis is the responsibility of that Government, or indeed of the ones who have specific responsibility within it. The agricultural industry has reached a financial crisis during the last three or four months. There is an element of chance in politics. When there is a problem such as this, it is absolutely vital that the Government is held responsible. When a situation such as this arises in the Assembly, the Labour minority Government must be held responsible for the way in which it has dealt with it. The Government led by the First Secretary and the Secretary for Agriculture and Rural Development who is a key member of that Government with specific responsibility, has behaved with hopeless inadequacy. It has simply prevaricated and delayed, and the discussions that we are having today could have been held three months ago. As a result of the absence of urgency and political leadership, any responsible opposition that

cynllun cymorth prosesu lloi. Mae hi wedi mynnu cadw golwg ar y persbectif hirdymor sydd yn wynebu amaethyddiaeth Cymru, persbectif sydd gwaetha'r modd heb fod gan nifer o sylwebyddion. Mae gan Christine gefnogaeth lawn Alun Michael fel Prif Ysgrifennydd a'r Cabinet cyfan. Byddai Alun yma'r prynhawn yma oni bai am y ffaith ei fod yn mynychu angladd perthynas agos iddo. Rhaid imi ei gwneud yn eglur bod ein Llywodraeth Lafur yn dîm cytûn, yn wahanol i'r Ceidwadwyr. Yr ydym yn derbyn cydgyfrifoldeb yn llawn. O ystyried y diffyg undod dros yr haf ymhlith y grwp Toriaidd, mae'n amlwg fod hyn yn syniad anodd iddynt. Ni fyddwn yn goddef unrhyw ymgais i gael gwared ar aelodau ein tîm fesul un. Gadewch inni ddychwelyd at wleidyddiaeth ddifrifol ac aeddfed lle mae'r rheini ohonom sydd â diddordeb mewn cydweithio yn gallu bwrw ymlaen â'r gwaith a dod o hyd i atebion gwirioneddol ar gyfer problemau gwirioneddol. Yr wyf yn annog Aelodau'r Cynulliad i wrthod y cynnig hwn.

Glyn Davies: Cyfrifoldeb Llywodraeth yw delio â'r argyfyngau sydd yn dod i'w rhan yn ystod ei chyfnod mewn grym. Nid cyfrifoldeb y Llywodraeth nac ychwaith y rheini sydd â chyfrifoldebau oddi mewn iddi, yw pob dim sydd yn arwain at yr argyfwng hwnnw, bob tro. Mae'r diwydiant amaethyddol wedi cyrraedd argyfwng ariannol yn ystod y tri neu bedwar mis diwethaf. Mae yna elfen o siawns mewn gwleidyddiaeth. Pan fo problem fel hon, mae'n hanfodol bod Llywodraeth yn cael ei dal yn gyfrifol. Pan fo problem fel hon yn codi yn y Cynulliad mae'n rhaid dal y Llywodraeth Lafur leiafrifol yn gyfrifol am y ffordd y mae wedi delio â'r sefyllfa. Mae'r Llywodraeth a arweinir gan y Prif Ysgrifennydd a'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig sydd yn aelod allweddol o'r Llywodraeth honno gyda chyfrifoldeb penodol, wedi ymddwyn yn anobeithiol o annigonol. Yn syml mae wedi osgoi ateb ac wedi oedi, a gallai'r trafodaethau yr ydym yn eu cael heddiw fod wedi eu cynnal dri mis yn ôl. Oherwydd diffyg ymdeimlad o frys ac arweiniad

takes its opposition seriously is left with no alternative but to propose a motion of censure on the Secretary for Agriculture and Rural Development. I hope Assembly Members will support it.

The Presiding Officer: We will now vote on the motion.

*A vote was held by show of hands.
Motion rejected.*

gwleidyddol, nid oes gan unrhyw wrthblaid gyfrifol sydd yn cymryd ei gwrthwynebiad o ddifrif unrhyw ddewis ond gwneud cynnig o gerydd yn erbyn yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig. Gobeithiaf y bydd Aelodau'r Cynulliad yn ei gefnogi.

Y Llywydd: Byddwn yn awr yn pleidleisio ar y cynnig.

*Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.
Gwrthodwyd y cynnig.*

Datganiad ar Benderfyniad y Dirprwy Lywydd ar Orchymyn Deddf Llywodraeth Leol 1999 (Dechrau) (Cymru) 1999

Statement on the Deputy Presiding Officer's Determination on the Local Government Act (Commencement) (Wales) Order 1999

Andrew Davies: In accordance with Standing Orders Nos. 5.6, 5.7 and 22.5 I wish to inform you of the Deputy Presiding Officer's determination on whether the Local Government Act 1999 (Commencement) (Wales) Order 1999 should be considered by a Subject Committee. The Deputy Presiding Officer's determination made on 21 July was that that was not necessary. The Order was laid in the Table Office on 3 September and considered by the Legislation Committee yesterday. That Committee will report on it shortly.

Andrew Davies: Yn unol â Rheolau Sefydlog Rhifau 5.6, 5.7 a 22.5 hoffwn eich hysbysu ynghylch penderfyniad y Dirprwy Lywydd ar y cwestiwn a ddylai Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dechrau) (Cymru) 1999 gael ei ystyried gan Bwyllgor Pwnc. Penderfyniad y Dirprwy Lywydd a wnaed ar 21 Gorffennaf oedd nad oedd hynny'n angenrheidiol. Gosodwyd y Gorchymyn yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Medi ac fe'i hystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth ddoe. Bydd y Pwyllgor hwnnw yn rhoi adroddiad arno cyn bo hir.

Strategaeth Plant i Gymru Children's Strategy for Wales

The Presiding Officer: I have selected the amendment standing in the name of Jenny Randerson.

Y Llywydd: Yr wyf wedi dewis y gwelliant sydd yn enw Jenny Randerson.

The Secretary for Under-16 Education (Rosemary Butler): I propose that

Yr Ysgrifennydd Addysg Cyn-16 (Rosemary Butler): Cynigiaf fod

the Assembly takes note of the document 'Children and Youth: A Framework for Partnership', laid in the Table Office on Friday 10 September, and agrees that this should form the basis of extensive consultations to inform the development of a Children's Strategy for Wales.

y Cynulliad yn nodi'r ddogfen 'Plant ac Ieuencid: Fframwaith ar gyfer Partneriaeth', a gyflwynwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ddydd Gwener 10 Medi, ac yn cytuno y dylai fod yn sylfaen ar gyfer ymgynghori eang i fwydo datblygiad Strategaeth Plant i Gymru.

I am extremely pleased that we have found

Yr wyf yn hynod o falch ein bod wedi canfod

time so early in our new session to address one of the most important areas of the Assembly's responsibilities. As children across Wales settle in to the new school term, it seems timely for us to look hard at those responsibilities. We must look at our aspirations for children across Wales. We must also look at the role which the Assembly can play in achieving better outcomes for all children, especially for the significant number of children who are suffering from disadvantage or social exclusion. The motion before us asks the Assembly to take note of a discussion document, 'Children and Youth: A Framework for Partnership', as a starting point for developing a comprehensive children's strategy for Wales. I want to talk about my role in this strategy, about the issues that the strategy will need to address and about the consultative process that we want to adopt to get the strategy right.

As the Assembly Secretary with responsibility for children, I am committed to making this happen. My job is to look at the range of children's services to ensure that there is joined-up thinking and accessible, appropriate and effective services that will meet children's needs across Wales.

There must be services and systems in place throughout Wales, particularly in the most deprived communities. These include services to look after children's health, provide stimulating and quality educational opportunities, to protect and support them and encourage their development as Wales's future citizens.

Our manifesto commitment was clear; to develop a strategy to safeguard the interests of all children in Wales and in particular, children in care. We should extend that commitment to develop a strategy that not only safeguards children's interests but actively promotes their development, helps them reach their potential and gives them the best possible start in life. Children must be high on everybody's agenda. There are nearly 700,000 children aged up to 17 years

amser mor fuan yn ein sesiwn newydd i drafod un o feysydd cyfrifoldeb pwysicaf y Cynulliad. Wrth i blant ledled Cymru ymgynffwrdd â'r tymor ysgol newydd, mae'n amserol inni edrych yn fanwl ar y cyfrifoldebau hyn. Rhaid inni edrych ar ein dyheadau ar gyfer plant Cymru. Rhaid inni edrych hefyd ar y rôl y gall y Cynulliad ei chwarae er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i bob plentyn, yn enwedig i'r nifer sylweddol o blant sydd yn dioddef o anfantais neu ddieithrwch cymdeithasol. Mae'r cynnig sydd ger ein bron yn gofyn i'r Cynulliad nodi dogfen drafod, 'Plant ac Ieuenctid: Fframwaith ar gyfer Partneriaeth', fel man cychwyn ar gyfer datblygu strategaeth gynhwysfawr ar gyfer plant yng Nghymru. Hoffwn i sôn am fy rôl i yn y strategaeth hon, am y cwestiynau y bydd angen i'r strategaeth fynd i'r afael â nhw ac am y broses ymgynghori y bydd angen inni ei mabwysiadu er mwyn sicrhau bod y strategaeth yn iawn.

Fel yr Ysgrifennydd Cynulliad â chyfrifoldeb dros blant, rwyf wedi ymrwymo i sicrhau fod hyn yn digwydd. Fy ngwaith i yw edrych ar yr amrediad o wasanaethau plant er mwyn sicrhau fod yna feddylfryd cydlynol a gwasanaethau hygyrch, priodol ac effeithiol a fydd yn ateb anghenion plant drwy Gymru gyfan.

Rhaid cael gwasanaethau a systemau yn eu lle ledled Cymru, yn enwedig yn y cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau i ofalu am iechyd plant, i gynnig cyfleoedd addysgol cyffrous a safonol, i'w gwarchod a'u cefnogi ac i annog eu datblygiad fel dinasyddion Cymru'r dyfodol.

Roedd ein hymrwymiad yn glir yn ein maniffesto, sef datblygu strategaeth i ddiogelu buddiannau holl blant Cymru ac, yn enwedig, blant mewn gofal. Dylem ymestyn yr ymrwymiad hwnnw i ddatblygu strategaeth sydd nid yn unig yn diogelu buddiannau plant ond hefyd yn hyrwyddo'u datblygiad, yn eu helpu i gyflawni'u potensial ac yn rhoi'r dechrau gorau posibl iddynt mewn bywyd. Rhaid i blant fod yn uchel ar agenda pawb. Mae bron 700,000 o

old living in Wales, that is 23 per cent, nearly a quarter, of the population and a quarter of those, around 180,000, are below the age of five years.

The vast majority of children in Wales live with their families. However, there is a significant number for whom normal family life is made difficult through family breakdown or poverty. In March 1998, there were nearly 2,500 children on local authority child protection registers in Wales and 3,400 children were being cared for by their local authorities. In some authorities, the figures were more than double the Welsh average. Many children are living in families with no adult earners. In 1991, 18 per cent of households in Wales with dependent children did not include an adult earner. In some areas, that figure was approximately 60 per cent of households.

It is clear from these figures that some children in Wales are among the most excluded in our communities. While all children deserve the best start in life, those children in particular require our support and focused attention to help them overcome the multiple disadvantage they face when growing up. It is those children whom we should bear in mind when talking about the need for a strategy for children in Wales. All children need special consideration because they are children. As such, they are likely to be vulnerable to all sorts of abuse and disadvantage as they cannot make their own decisions and they have limited choice. The children living in our most deprived communities have the added burden of low income, poor educational opportunities and all the subtle added hurdles to achieving good education, housing and health.

We need to bring together the services that support all children, particularly those in need and those who are excluded. We need, as my motion suggests, a framework for partnership for children and youth in Wales. Children's needs are high on many agendas. November is the tenth anniversary of the General Assembly of the United Nations'

blant hyd at 17 oed yn byw yng Nghymru, sef 23 y cant neu bron chwarter y boblogaeth, ac mae chwarter o'r rheini, sef tua 180,000, o dan bum mlwydd oed.

Mae'r mwyafrif llethol o blant yng Nghymru'n byw gyda'u teuluoedd. Fodd bynnag, y mae nifer arwyddocaol sydd yn cael anawsterau gyda bywyd teuluol oherwydd tor-priodas neu dlodi. Ym mis Mawrth 1998, yr oedd bron 2,500 o blant ar gofrestri amddiffyn plant awdurdodau lleol yng Nghymru, ac yr oedd 3,400 o blant yng ngofal yr awdurdodau lleol. Mewn rhai awdurdodau, yr oedd y ffigur yn fwy na dwy waith cyfartaledd Cymru. Mae llawer o blant yn byw mewn teuluoedd heb ddim oedolion yn ennill cyflog. Yn 1991, yr oedd 18 y cant o gartrefi yng Nghymru â phlant dibynnol lle nad oedd un oedolyn yn ennill cyflog. Mewn rhai ardaloedd, yr oedd y ffigur yn codi i oddeutu 60 y cant o'r aelwydydd.

Mae'n amlwg oddi wrth y ffigurau hyn fod rhai plant yng Nghymru ymhlith y rhai sydd wedi'u dieithrio fwyaf yn ein cymunedau. Tra bod pob plentyn yn haeddu'r dechrau gorau mewn bywyd, mae'r plant hyn yn arbennig angen ein cefnogaeth a'n sylw llawn i'w helpu i oresgyn yr anfantais luosog a wynebant wrth dyfu. Y plant hyn yw'r rhai y dylem eu cofio pan siaradwn am yr angen am strategaeth ar gyfer plant yng Nghymru. Mae angen ystyriaeth arbennig ar bob plentyn am mai plentyn ydyw. Yn hynny o beth, maent yn debygol o fod yn agored i bob math o gam-drin ac anfantais am na allant wneud eu penderfyniadau eu hunain ac am mai dewis cyfyngedig sydd ganddynt. I'r plant sydd yn byw yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig, mae'r baich ychwanegol o incwm isel, cyfleoedd addysgol gwael a'r holl rwystrau cynnil ychwanegol rhag sicrhau addysg, cartref ac iechyd da.

Mae angen inni sicrhau cydweithrediad rhwng y gwasanaethau sydd yn cefnogi pob plentyn, yn enwedig y rhai hynny sydd mewn angen a'r rhai sydd wedi eu dieithrio. Mae arnom angen, fel yr awgryma fy nghynnig, fframwaith ar gyfer partneriaeth i blant ac ieuenctid yng Nghymru. Mae anghenion plant yn uchel ar sawl agenda. Ym mis

adoption of the Convention on the Rights of the Child. The UK Government ratified the Convention in 1991 and the second report on the implementation of a Convention in the UK has been published.

In preparing children's service plans, most local authorities make reference to the UN Convention and its provisions. The UN Convention states that, in all actions concerning children, the best interests of the child shall be a primary consideration. Clearly, any strategy for children's services must make this its guiding principle. Our own White Paper on social services in Wales 'Building for the Future', published by Alun Michael as Secretary of State for Wales in April, sets a number of principles to help define a children's strategy for Wales. Those are stated in this consultation paper.

Local authorities, health authorities and the voluntary sector in Wales have done a lot of hard work to develop their own standards and services around these principles. It is our task to open up a broad debate in Wales around those principles and to create a children's strategy that will see us well into the next century. I will not attempt to discuss the many children's services with which we are all familiar. The Paper sets out many of these and offers the hierarchy of service provision from the universal health and education services, which are provided for all children in Wales, through to the special intervention and support services for children with particular needs. These include educational needs, specialist health services, for young offenders and those who are cared for away from home.

2:49 p.m.

Taking together all the specialist and general services provided for children in Wales we can see the scale of spending and activity. The education service alone accounted for

Tachwedd bydd degfed pen-blwydd mabwysiadu'r Cytundeb ar Hawliau'r Plentyn gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig. Cadarnhawyd y Cytundeb gan Lywodraeth y DU yn 1991 ac mae ail adroddiad ar weithredu'r Cytundeb yn y DU wedi'i gyhoeddi.

Wrth baratoi cynlluniau gwasanaethau plant, bydd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cyfeirio at Gytundeb y Cenhedloedd Unedig a'i ddarpariaethau. Dywed Cytundeb y CU y bydd lles y plentyn yn ystyriaeth flaenaf mewn pob gweithredu ynghylch plant. Yn amlwg, rhaid i unrhyw strategaeth ar gyfer gwasanaethau plant gymryd hyn fel egwyddor sylfaenol. Mae ein Papur Gwyn ni'n hunain ar wasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, 'Adeiladu ar gyfer y Dyfodol', a gyhoeddwyd gan Alun Michael fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru ym mis Ebrill, yn gosod nifer o egwyddorion er mwyn helpu i ddiffinio strategaeth ar gyfer plant yng Nghymru. Datgenir y rhain yn y papur ymgynghorol hwn.

Mae awdurdodau lleol, awdurdodau iechyd a'r sector gwirfoddol yng Nghymru wedi gwneud llawer o waith caled i ddatblygu'u safonau a'u gwasanaethau eu hunain o gwmpas yr egwyddorion hyn. Ein tasg ni yw agor dadl eang yng Nghymru ynghylch yr egwyddorion hyn a chreu strategaeth i blant a fydd yn parhau ymhell i mewn i'r ganrif nesaf. Ni cheisiaf adrodd y llu o wasanaethau plant sydd yn gyfarwydd inni i gyd. Mae'r Papur yn enwi llawer o'r rhain ac yn cynnig yr hierarchiaeth o ddarpariaeth gwasanaeth o'r gwasanaethau iechyd ac addysg cyffredinol, a ddarperir i bob plentyn yng Nghymru, i lawr i'r gwasanaethau cefnogi ac ymyrryd arbennig i blant ag anghenion arbennig. Mae'r rhain yn cynnwys anghenion addysgol, gwasanaethau iechyd arbenigol, i droseddwyr ifainc a rhai sydd yn derbyn gofal oddi cartref.

O edrych ar yr holl wasanaethau arbenigol a chyffredinol a ddarperir i blant yng Nghymru gallwn weld maint y gwario a'r gweithgaredd. Yr oedd y gwasanaeth addysg

over £1.3 billion of local authority spending last year. Social services for children accounted for around £150 million. Welsh Office specific grants of various kinds provide another £35 million each year. These are significant sums, and we must ensure that the money is well directed and that the services are targeted at those most in need. Education must be at the forefront of public provision for children.

The Building Excellent Schools Together programme sets challenging targets for children's attainment in schools and we are making very good progress against them. Health services for children are also critical to their development and well-being. We have established all-Wales health gain targets for children to tackle problems of infant mortality, childhood illness, accidents and lifestyle choices including the issue of teenage pregnancy. We are developing services that will benefit children and their parents. The childcare strategy and the new Sure Start programme address, in their different ways, the needs of parents and children especially in the very early years.

As children grow into young adults they increasingly make choices for themselves. We are taking steps to help them make positive choices. The Children and Youth Partnership Fund and programmes like Youth Gateway are designed to help teenagers make positive choices and resist negative influences that could lead them into crime, substance misuse and truancy. We are already focusing on children in need and those who are looked after. The Children First programme aims to raise standards in local authority services for children in care. By focusing on outcome we want to ensure that children looked after in Wales are not disadvantaged by their experience. Those children need particular help and we must address issues like poor education attainment and lack of access to normal primary health care services. We are considering the needs of young people leaving care and we must

yn unig yn gyfrifol am dros £1.3 biliwn o wariant awdurdodau lleol y llynedd. Gwariwyd tua £150 miliwn ar wasanaethau cymdeithasol i blant. Mae grantiau penodol amryfal gan y Swyddfa Gymreig yn darparu £35 miliwn arall bob blwyddyn. Mae'r rhain yn symiau sylweddol, a rhaid inni sicrhau y caiff yr arian ei gyfeirio'n dda ac y caiff y gwasanaethau eu targedu at y rhai sydd â'r angen mwyaf. Rhaid i addysg fod ar flaen y ddarpariaeth gyhoeddus i blant.

Y mae'r rhaglen Adeiladu Ysgolion Gwych Gyda'n Gilydd yn gosod targedau sydd yn gryn her ar gyfer cyrhaeddiad plant yn yr ysgol ac yr ydym yn dod yn ein blaenau'n dda iawn gyda'r rhain. Mae gwasanaethau iechyd plant hefyd yn allweddol i'w datblygiad a'u lles. Yr ydym wedi sefydlu targedau cynnydd iechyd plant i Gymru gyfan er mwyn mynd i'r afael â phroblemau marwoldeb babanod, salwch mewn plentyndod, damweiniau a dewisiadau ffordd o fyw gan gynnwys cwestiwn beichiogrwydd yn yr arddegau. Yr ydym yn datblygu gwasanaethau a fydd o fudd i blant a'u rhieni. Mae'r strategaeth gofal plant a'r rhaglen Cychwyn Cadarn newydd yn delio, yn eu ffyrdd gwahanol, ag anghenion plant a rhieni yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar iawn.

Wrth i blant dyfu'n oedolion ifainc byddant yn gwneud mwy a mwy o ddewisiadau drostynt eu hunain. Yr ydym yn cymryd camau i'w helpu i wneud dewisiadau cadarnhaol. Mae'r Gronfa Partneriaeth Plant a Ieuenctid a rhaglenni fel Adwy'r Ifanc wedi'u cynllunio i helpu pobl ifainc i wneud dewisiadau cadarnhaol ac ymwrthod â dylanwadau negyddol a allai eu harwain i droseddu, camddefnyddio sylweddau a chwarae triwant. Yr ydym eisoes yn canolbwyntio ar blant mewn angen a rhai sydd mewn gofal. Mae'r rhaglen Plant yn Gyntaf yn anelu at godi safonau yng ngwasanaethau awdurdodau lleol ar gyfer plant mewn gofal. Wrth ganolbwyntio ar ganlyniadau mae arnom eisiau sicrhau nad yw plant sydd mewn gofal yng Nghymru yn cael cam oherwydd eu profiad. Mae angen cymorth arbennig ar y plant hyn ac mae'n rhaid inni ddelio â materion fel cyrhaeddiad

work harder to integrate social services, housing, education and training provision to help those children, in particular, to make the transition into adult life.

We are committed to establishing the post of children's commissioner in Wales. The Health and Social Services Committee has started discussing this and we intend to consult further on what that post might cover. There is much more I could say about individual programmes but we want to open up the debate and encourage individuals and agencies across Wales to consider the framework document and work with us in building a strategy for children in Wales.

In the autumn, we will be running several conferences in different parts of Wales and will be talking to people, including children and young people, about what the strategies should cover. My motion invites the Assembly to endorse a framework document and consultation process to take this important work forward.

Jenny Randerson tabled an amendment to the motion about the need for public consultation on a scheme for licensing people who work with children in Wales. I agree that the need for an effective safeguard is paramount. However, there is already provision for this in the Protection of Children Act 1999, which brings together existing arrangements—the consultancy index in the Department of Health, the list 1999 in the education sector and criminal records—into one statutory register. That will create a one-stop-shop for enquiries and will ensure tighter arrangements for registering the names of people deemed unsuitable to work with children, including those in Wales. These new arrangements are expected to be in place next summer.

In the social services White Paper, 'Building for the Future', we are already making

addysgol gwael a diffyg mynediad at wasanaethau gofal iechyd cynradd normal. Yr ydym yn ystyried anghenion pobl ifainc sydd yn gadael gofal ac mae'n rhaid inni weithio'n galetach i integreiddio gwasanaethau cymdeithasol, tai, addysg a hyfforddiant i helpu'r plant hynny, yn enwedig, i symud ymlaen i fywyd oedolion.

Yr ydym wedi ymrwymo i sefydlu swydd comisiynydd plant yng Nghymru. Y mae'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi dechrau trafod hyn a bwriadwn ymgynghori ymhellach ar beth allai'r swydd hon ei gynnwys. Mae yna lawer mwy y gallwn ei ddweud am raglenni unigol ond mae arnom eisiau agor y drafodaeth ac annog unigolion ac asiantaethau ledled Cymru i ystyried y ddogfen fframwaith a gweithio gyda ni i adeiladu strategaeth ar gyfer plant yng Nghymru.

Yn yr hydref bydd gennym sawl cynhadledd mewn gwahanol rannau o Gymru ac yn siarad â phobl, yn cynnwys plant a phobl ifainc, ynghylch beth y dylai'r strategaethau ymdrin â nhw. Mae fy nghynnig yn gwahodd y Cynulliad i gymeradwyo dogfen fframwaith a phroses ymgynghori i fynd â'r gwaith pwysig hwn rhagddo.

Cynigiwyd gwelliant i'r cynnig gan Jenny Randerson ynghylch yr angen am ymgynghori cyhoeddus ar gynllun ar gyfer trwyddedu pobl sydd yn gweithio gyda phlant yng Nghymru. Yr wyf yn cytuno fod yr angen am ddiogelwch effeithiol yn holl bwysig. Fodd bynnag, y mae darpariaeth eisoes ar gyfer hyn yn Neddf Amddiffyn Plant 1999, sydd yn dwyn ynghyd y trefniadau presennol—y mynegai ymgynghori yn yr Adran Iechyd, y rhestr 1999 yn y sector addysg a chofnodion troseddol—yn un gofrestr statudol. Bydd hyn yn creu un ganolfan ar gyfer ymholiadau ac yn sicrhau trefniadau tynnach ar gyfer cofrestru enwau pobl y barnwyd eu bod yn anaddas i weithio gyda phlant, gan gynnwys rhai yng Nghymru. Disgwylir i'r trefniadau hyn fod yn eu lle erbyn yr haf nesaf.

Yn y Papur Gwyn ar wasanaethau cymdeithasol, 'Adeiladu ar Gyfer y

proposals for the registration of social care workers in Wales. That follows wide consultation paralleled in England with users, carers, public and private employers, professional bodies and trade unions. We propose to establish a social care council for Wales that will register the social care workforce including those without qualifications working with children. The council will have the power to suspend or remove registration where individuals are deemed unfit to practise on grounds of misconduct, bad practice, negligence or abuse. Jenny's amendment has therefore already been addressed and I strongly urge her to withdraw it.

I hope we are all united in believing that children in Wales deserve our best efforts to provide the services and support they need to grow up securely in their communities with the health and education they will require in adult life. We are united in our commitment to support children in their families and to combat social exclusion. This motion will set us on the road to formalising our objectives and aspirations for children in Wales through a strategy that will guide the development and delivery of services into the new millennium.

I hope you support this motion and ensure that everyone in your constituency has an opportunity to take part in the consultation process.

Jenny Randerson: I propose the following amendment. At the end of the document, add

In addition this Assembly resolves specifically to undertake public consultation on a scheme for the licensing of people who work with children in Wales.

My researchers through the library revealed what I consider to be a definite gap in the excellent proposals put forward so far. If that information is incomplete, Rosemary can put me right. However, my proposal, in the

Dyfodol', yr ydym eisoes yn gwneud cynigion ar gyfer cofrestru gweithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae hyn yn dilyn ymgynghori eang, ochr yn ochr â gwaith tebyg yn Lloegr, gyda defnyddwyr, gofalgwyr, cyflogwyr cyhoeddus a phreifat, cyrff proffesiynol ac undebau llafur. Bwriadwn sefydlu cyngor gofal cymdeithasol i Gymru a fydd yn cofrestru'r gweithlu gofal cymdeithasol gan gynnwys y rhai hynny heb gymwysterau sydd yn gweithio gyda phlant. Bydd gan y cyngor hawl i atal neu ddiddymu cofrestrad lle bernir bod unigolyn yn anghymwys i weithio ar sail camymddygiad, arfer drwg, esgeuluster neu gam-drin. Felly mae gwelliant Jenny eisoes wedi cael ei ateb ac yr wyf yn argymhell yn gryf iddi ei dynnu'n ôl.

Gobeithiaf ein bod i gyd yn gytûn wrth gredu fod plant yng Nghymru'n haeddu'n hymdrechion gorau i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth y mae eu hangen arnynt i dyfu'n ddiogel yn eu cymunedau gyda'r iechyd a'r addysg y bydd eu heisiau arnynt wrth dyfu'n oedolion. Yr ydym yn gytûn yn ein hymrwymiad i gefnogi plant yn eu teuluoedd ac i ymladd yn erbyn dieithrio cymdeithasol. Bydd y cynnig hwn yn ein rhoi ar ben y ffordd i ffurfioli'n hamcanion a'n dyheadau ar gyfer plant yng Nghymru drwy strategaeth a fydd yn arwain datblygiad a chyflwyniad gwasanaethau i mewn i'r mileniwm newydd.

Gobeithiaf y cefnogwch y cynnig hwn ac y sicrhewch y caiff pawb yn eich etholaeth gyfle i gymryd rhan yn y broses ymgynghori.

Jenny Randerson: Cynigiaf y gwelliant canlynol. Ar ddiwedd y ddogfen, ychwaneger

Yn ogystal, mae'r Cynulliad yn penderfynu ymgymryd â'r ymgynghori cyhoeddus ar gynllun trwyddedu pobl sydd yn gweithio gyda phlant yng Nghymru.

Fe ganfu fy ymchwilwyr yn y llyfrgell yr hyn sydd yn fy marn i yn fwlch pendant yn y cynigion ardderchog a amlinellwyd hyd yn hyn. Os yw'r wybodaeth honno'n anghyflawn, gall Rosemary fy nghywiro.

context of Liberal Democrat proposals over a number of years, is for a voluntary scheme, because we do not have primary legislative powers to introduce what I call 'licensing registration'.

This voluntary scheme would not be very costly but would require pump-priming money to work. The voluntary sector could establish a national Welsh scheme that, over a period of time, could be adopted by all voluntary sector organisations working with children.

From my understanding, there are many factors that fall outside the strategy, for example, being a school governor. Cardiff Council, like many others, is desperately keen to attract school governors. They have advertised in newspapers but there are no proposals to make checks on those who applied. Nine out of ten people are well-meaning. However, in the school where I am chair of governors, we work in the classroom with the children and become accepted figures of responsibility. The children talk to me outside school when they see me walking the dog but my record has never been checked. If your scheme includes this kind of checking, I will withdraw my amendment, if not, I will bash on.

Checking would be a simple procedure. It would require relevant evidence of a clean police record. It does not say that you cannot work with children if you are caught speeding. It would also require evidence of basic training on how to deal with children. If I were to go to the canteen here for a sandwich, the person who prepared it would need to provide a certificate of cleanliness. However, it amazes me that I would allow my child to go away for the weekend on a water-sports activity supervised by a club leader who would not be required to produce a certificate of competence.

2:59 p.m.

Fodd bynnag, fy nghynnig i, yng nghydestun cyfres o gynigion gan y Democratiaid Rhyddfrydol dros nifer o flynyddoedd, yw cael cynllun gwirfoddol, gan nad oes gennym yr hawliau deddfu sylfaenol i gyflwyno'r hyn a alwaf yn 'gofrestru trwyddedu'.

Ni fyddai'r cynllun gwirfoddol hwn yn gostus iawn ond byddai angen arian i'w sefydlu. Gallai'r sector gwirfoddol sefydlu cynllun cenedlaethol i Gymru a allai, dros gyfnod o amser, gael ei fabwysiadu gan bob sefydliad yn y sector gwirfoddol sydd yn gweithio gyda phlant.

Yn ôl fy nealltwriaeth i, mae llawer o ffactorau sydd yn cwmpo y tu allan i'r strategaeth, er enghraifft, bod yn llywodraethwr ysgol. Mae Cyngor Caerdydd, fel nifer o rai eraill, yn eiddgar iawn i ddenu llywodraethwyr ysgol. Maent wedi hysbysebu mewn papurau newydd ond nid oes dim cynlluniau i archwilio cefndir y rhai a ymgeisiodd. Bwriadau da sydd gan naw o bob deg o bobl. Fodd bynnag, yn yr ysgol lle yr wyf i'n gadeirydd y llywodraethwyr, byddwn yn gweithio yn yr ystafell ddosbarth gyda'r plant a deawn yn ffigurau cyfrifol a dderbynnir gan y plant. Bydd y plant yn siarad â mi y tu allan i'r ysgol pan welant fi'n mynd â'r ci am dro, ond nid oes neb wedi archwilio fy nghefndir. Os yw eich cynllun chi'n cynnwys y math hwn o archwilio, fe dynnaf fy ngwelliant yn ôl, ond os na, fe fwriaf ymlaen.

Mater syml fyddai archwilio. Byddai angen tystiolaeth berthnasol o record lân gyda'r heddlu. Nid yw hynny'n dweud na allwch weithio gyda phlant os gawsoch eich dal yn gor-yrru. Byddai gofyn hefyd am dystiolaeth o hyfforddiant sylfaenol ar sut i ddelio â phlant. Petawn i'n mynd i'r ffreutur yma am frechdan, byddai angen i'r sawl sydd yn ei baratoi gael tystysgrif glendid. Fodd bynnag, mae'n fy synnu i y byddwn i'n caniatáu i'm plentyn fynd i ffwrdd am y penwythnos ar weithgaredd chwaraeon dwr dan oruchwyliaeth arweinydd clwb na fyddai wedi gorfod dangos tystysgrif cymhwysedd.

If you can prove basic acceptability, not high levels of skill, you will be filling a yawning gap in our legislation. My daughter has spent three months this summer working in a camp in America. To go there she had to have a police check and a day's training. It is not a big requirement but she had to get a certificate to prove that she was suitable to do that job. It is not complex, expensive or bureaucratic and I believe organisations would welcome it.

The need for it is obvious. There is a clear danger from paedophiles who are adept at infiltrating organisations. I also know people who work in youth organisations who find it difficult attracting people as they feel that they could be under suspicion for wanting to work with children. Anything that helps give credibility and encouragement to people who want to work with children is therefore a good thing.

How many parents have had the courage to ask well-meaning and hardworking guide, cub or swimming club leaders if they have a certificate? I hope that all organisations would accept a scheme like this and that the licence would become a common currency that people could recognise and understand, instead of maybe not understanding the difference between one level of swimming qualification and another. This is a simple idea. It is not just about paedophiles. It is basic competence and understanding of children and this could encourage volunteers with basic training to take on further training.

We are seeking to make a fresh start in Wales especially for the most disadvantaged children. Past experience shows that disadvantaged and vulnerable children are the ones most in need of encouragement and help from voluntary organisations. This document is just an audit and we have got to—

Janet Ryder: Do you intend the scheme to license school governors as competent? How would you judge the level of competency needed to be a school governor and how

Os gallwch chi brofi derbynoldeb sylfaenol, nid lefelau gallu uchel, byddwch yn llenwi bwlch enfawr yn ein deddfwriaeth. Treuliodd fy merch dri mis yr haf yma'n gweithio mewn gwerysll yn America. I fynd yno bu'n rhaid iddi gael archwiliad heddlu a diwrnod o hyfforddiant. Nid yw'n ofyniad mawr ond bu'n rhaid iddi gael tystysgrif i brofi ei bod yn addas i wneud y gwaith hwnnw. Nid yw'n gymhleth, yn ddud nac yn fiwrocraidd ac yr wyf yn credu y byddai sefydliadau'n ei groesawu.

Mae'r angen amdano'n amlwg. Mae perygl clir oddi wrth bedoffiliaid sydd yn gwybod sut i dreiddio i mewn i sefydliadau. Yr wyf yn adnabod pobl hefyd sydd yn gweithio mewn sefydliadau ieuenctid ac sydd yn ei chael hi'n anodd denu pobl am eu bod yn teimlo y gallent fod dan amheuaeth am eu bod eisiau gweithio gyda phlant. Felly mae unrhyw beth sydd yn helpu i roi hygrededd ac anogaeth i bobl sydd eisiau gweithio gyda phlant yn beth da.

Faint o rieni fu'n ddigon dewr i holi arweinyddion gweithgar a gonest clwb nofio, geidiaid neu sgowtiaid a oes ganddynt dystysgrif? Yr wyf yn gobeithio y byddai pob sefydliad yn derbyn cynllun fel hwn ac y byddai'r drwydded yn dystiolaeth gyffredin y gallai pobl ei hadnabod a'i deall, yn lle methu deall y gwahaniaeth rhwng un lefel o gymhwyster nofio ac un arall. Syniad syml yw hwn. Nid pedoffiliaid yw'r unig beth dan sylw. Yr wyf yn sôn am gymhwysedd sylfaenol a dealltwriaeth o blant, a gallai hyn annog gwirfoddolwyr a gafodd hyfforddiant sylfaenol i fynd am hyfforddiant pellach.

Yr ydym yn ceisio dechrau o'r newydd yng Nghymru, yn enwedig er mwyn y plant mwyaf difreintiedig. Dengys profiad y gorffennol mai plant difreintiedig a gwan yw'r rhai sydd fwyaf angen anogaeth a help gan gyrff gwirfoddol. Dim ond archwiliad yw'r ddogfen hon, ac mae'n rhaid inni—

Janet Ryder: Ydych chi'n bwriadu i'r cynllun drwyddedu llywodraethwyr ysgolion fel pobl gymwys? Sut fydddech chi'n barnu'r lefel o gymhwysedd angenrheidiol ar gyfer

would you form a register of skills?

Jenny Randerson: I am not suggesting that this is something specialist. I am suggesting that anyone who works should be checked, although works is an unfortunate term because it implies being paid and most of the paid occupations, as Rosemary noted, will be covered by some kind of registration scheme. However, we must ensure that volunteers have a basic understanding of children's needs and that their police records are checked regularly. You would not ask governors at a school if they were on the paedophilia register. I am only suggesting that we could consult on this scheme. I am not saying that it has to work a particular way but there is a need to fill a gap.

Christine Chapman: Would you envisage including the work experience programme? Many thousands of pupils in Wales participate in work experience and police checks are expensive. Have you thought in cost terms?

Jenny Randerson: That is the kind of thing that would have to be studied. We could consult on the scheme, but the breadth of such a scheme would be another matter. Someone on a work experience programme should not be left alone with children. You could therefore argue that it should not be covered, or be covered only in certain cases. However, could we accept the concept rather than the technical details?

Alison Halford *rose—*

Jenny Randerson: I am giving way to an expert now.

Alison Halford: I do not want to steam-roll over a good idea. However, have you any idea how much it costs to do a police check and are you aware that you can wait anything up to 17 weeks for it to be completed especially in north Wales? Would it be sensible therefore to check on the capacity of

bod yn llywodraethwr ysgol, a sut fydddech chi'n ffurfio cofrestr sgiliau?

Jenny Randerson: Nid wyf yn awgrymu fod hyn yn rhywbeth arbenigol. Yr wyf yn awgrymu y dylid archwilio cefndir unrhyw un sydd yn gweithio, er bod gweithio'n derm anffodus gan ei fod yn awgrymu cael tâl ac, fel y nododd Rosemary, bydd y rhan fwyaf o waith cyflog yn dod o dan ryw fath o gynllun cofrestru. Fodd bynnag, rhaid inni sicrhau bod gan wirfoddolwyr ddealltwriaeth sylfaenol o anghenion plant a bod y cofnodion sydd gan yr heddlu amdanynt yn cael eu harchwilio'n rheolaidd. Ni fydddech yn gofyn i lywodraethwyr mewn ysgol a ydynt ar y gofrestr bedoffiliaid. Dim ond awgrymu yr ydw i y gallem ni ymgynghori ar y cynllun hwn. Nid wyf yn dweud fod yn rhaid iddo weithio mewn rhyw ffordd arbennig ond y mae angen llenwi bwlch.

Christine Chapman: A fydddech chi'n cynnwys y rhaglen brofiad gwaith? Bydd miloedd o ddisgyblion yng Nghymru'n mynd ar brofiad gwaith ac mae archwiliadau heddlu yn ddrud. A ydych chi wedi meddwl yn nhermau'r gost?

Jenny Randerson: Dyna'r math o beth y byddai'n rhaid ei astudio. Gallem ni ymgynghori ynghylch y cynllun, ond y byddai hyd a lled cynllun o'r fath yn fater arall. Ni ddylid gadael rhywun sydd ar brofiad gwaith ar ei b/phen ei hun gyda phlant. Gallech ddadlau felly na ddylid ei gynnwys neu mai dim ond mewn achosion arbennig y dylid ei gynnwys. Fodd bynnag, a allem ni dderbyn y cysyniad yn hytrach na'r manylion technegol?

Alison Halford *a gododd—*

Jenny Randerson: Yr wyf yn ildio i arbenigwraig yn awr.

Alison Halford: Nid oes arnaf eisiau taflu dwr oer dros syniad da, ond a oes gennych chi unrhyw syniad faint y mae'n gostio i wneud archwiliad heddlu ac a ydych chi'n ymwybodol y gallwch chi aros unrhyw beth hyd at 17 wythnos iddo gael ei gwblhau, yn enwedig yn y Gogledd? A fyddai'n ddoeth

the police to handle even more enquiries before you embark further upon your scheme?

Jenny Randerson: That would also be taken into account when considering such a scheme.

Your figures for north Wales are depressing. In south Wales, the figure is about three weeks. In terms of cost and the way in which it would work, it is a good idea. This paper is full of inter-links that are interesting and important, but we need ideas in Wales on how to improve things. This is not a new idea. Our party has been suggesting it for some years and it was in our manifesto. It therefore surprises me that Members see the problems instead of saying, let us consult on it, let us see if it is workable and let us give it a whirl.

There are 2,500 children in Wales on local authority child protection registers; 37 for every 10,000, which is much higher than in England. There are 3,400 children in Wales being looked after by local authorities, higher per thousand than in England once again. Last year the percentage of 16-year-olds without a single recognised qualification was over 5 per cent, with stark differences from one area to another. We need to look to improve matters overall.

Truancy is another area where we need to study the reasons behind the problems, as is health. One of our proposals is to improve the quality of school meals. The average five-year-old in Wales has two and a half decayed teeth, one more decayed tooth than in England. Therefore, the health of our children is not as good as it is in England.

There are things that we do well. The Under-16 Education Committee this morning discussed early years education and emphasised that, for decades, some Valley authorities have had a widespread availability of early years education for three-year-olds. One speaker drew our attention to the Headstart programme in the USA and research that shows how it pays off

felly gweld a yw o fewn gallu'r heddlu i ymdrin â mwy eto fyth o ymholiadau cyn mynd ymhellach gyda'ch cynllun chi?

Jenny Randerson: Byddai hynny eto'n rhywbeth i'w gofio wrth ystyried cynllun o'r fath.

Y mae eich ffigurau ar gyfer gogledd Cymru'n ddigalon. Tua thair wythnos yw'r ffigur yn y De. Yn nhermau'r gost a'r ffordd y byddai'n gweithio, mae'n syniad da. Mae'r papur hwn yn llawn o ryng-gysylltiadau sydd yn ddiddorol ac yn bwysig, ond mae arnom angen syniadau yng Nghymru ar sut i wella pethau. Nid syniad newydd mo hwn. Mae ein plaid wedi'i awgrymu ers rhai blynyddoedd ac yr oedd yn ein manifesto. Mae'n fy synnu i felly fod Aelodau'n gweld y problemau yn lle dweud, gadewch inni ymgynghori yn ei gylch, dewch inni weld a all weithio a dewch inni roi cynnig arni.

Mae 2,500 o blant yng Nghymru ar gofrestr amddiffyn plant yr awdurdodau lleol; 37 am bob 10,000, sydd yn llawer uwch nag yn Lloegr. Mae 3,400 o blant yng Nghymru yn byw yng ngofal awdurdodau lleol, canran uwch nag yn Lloegr eto. Y llynedd yr oedd y ganran o bobl ifainc 16 oed heb unrhyw gymhwyster cydnabyddedig dros 5 y cant, gyda gwahaniaethau mawr rhwng ardal ac ardal. Mae angen inni edrych ar wella pethau'n gyffredinol.

Mae triwantaeth yn faes arall lle mae angen inni astudio'r rhesymau y tu ôl i'r problemau, ac iechyd yr un fath. Un cynnig sydd gennym yw gwella ansawdd prydau ysgol. Y mae gan y plentyn pum mlwydd oed cyffredin yng Nghymru ddau a hanner o ddannedd drwg, sef un yn fwy na phlant yn Lloegr. Felly, nid yw iechyd ein plant gystal ag yn Lloegr.

Y mae yna bethau yr ydym yn eu gwneud yn dda. Y bore yma yn y Pwyllgor Addysg Cyn-16 trafodwyd addysg blynyddoedd cynnar a phwysleisiwyd fod rhai awdurdodau yn y Cymoedd wedi cynnig addysg blynyddoedd cynnar i blant teirblwydd ers degawdau. Tynnodd un siaradwr ein sylw at y rhaglen Headstart yn yr UDA ac ymchwil sydd yn dangos sut y mae'n talu seithgwaith drosodd

seven fold to invest in early years education. For every £1 invested in early years education, £7 is saved on money spent on remedial education, poor health and prison later on in life.

However, we have to deal with a mountain of social deprivation. The life chances of children born in the University Hospital of Wales today will depend on the circumstances into which they are born. They could have completely different lives and we have to deal with that. I regret to say that the Labour Party, for all its warm words, has not tackled that.

3:09 p.m.

The Prime Minister's pledges on social justice have to be measured against the research published at the end of August, which showed that public spending is now a lower proportion of national expenditure than at anytime in the last five administrations; lower than 33 years ago and lower than under Thatcher or Major.

It therefore defies my understanding how you will do it without spending more. It is important that we produce some good ideas. I hope you will accept that we can consult on our idea and it might help fill the gap in a year or two when current proposals for legislation are on the statute book.

Helen Mary Jones: I am glad that we are discussing this issue. Children are our most precious resource and the people for whom we should be most responsible. That precious resource too often in the past has been squandered by everything from poor education to abuse in care.

The Plaid Cymru group welcomes this attempt to join up the public services provided for children. There are some positive aspects in the paper. We particularly welcome the last in the list of principles about developing indicators. However, we have some real reservations about the paper. We did not amend the motion because it only

i fuddsoddi mewn addysg blynyddoedd cynnar. Am bob £1 a fuddsoddir mewn addysg blynyddoedd cynnar, arbedir £7 o wariant ar addysg adfer, iechyd gwael a charchar yn ddiweddarach mewn bywyd.

Fodd bynnag, mae'n rhaid inni ddelio â mynydd o amddifadedd cymdeithasol. Bydd cyfleoedd bywyd plant a enir yn Ysbyty Prifysgol Cymru heddiw yn dibynnu ar yr amgylchiadau y genir nhw iddynt. Gallent gael bywydau cwbl wahanol ac mae'n rhaid inni ddelio â hynny. Mae'n flin gennyf ddweud nad yw'r Blaid Lafur, er ei holl eiriau gwresog, wedi mynd i'r afael â hynny.

Y mae'n rhaid mesur addewidion y Prif Weinidog ar gyfiawnder cymdeithasol yn erbyn yr ymchwil a gyhoeddwyd ddiwedd mis Awst a ddangosodd fod gwariant cyhoeddus erbyn hyn yn gyfran is o'r gwariant cenedlaethol nag ar unrhyw adeg yn y pum gweinyddiaeth ddiwethaf; yn is na 33 blynedd yn ôl ac yn is nag o dan Thatcher na Major.

Felly ni allaf ddeall sut yr ydych chi am wneud hyn heb wario mwy. Y mae'n bwysig ein bod yn llunio syniadau da. Gobeithio y gwnewch chi dderbyn y gellir ymgynghori ynglyn â'n syniad ni ac y gallai fod o gymorth i lenwi'r bwlch ymhen blwyddyn neu ddwy pan fydd y cynigion deddfwriaeth presennol ar y llyfr statud.

Helen Mary Jones: Yr wyf yn falch ein bod yn trafod y mater hwn. Plant yw ein hadnoddau mwyaf gwerthfawr a'r bobl y dylem fod fwyaf cyfrifol amdanynt. Yn rhy aml yn y gorffennol cafodd yr adnoddau hynny eu gwastraffu gan bopeth o addysg wael i gamdriniaeth mewn gofal.

Mae grŵp Plaid Cymru'n croesawu'r ymgais hwn i gau bylchau yn y gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir i blant. Y mae rhai agweddau cadarnhaol yn y papur. Croesawn yn arbennig yr olaf yn y rhestr o egwyddorion ynghylch datblygu dangosyddion. Fodd bynnag, y mae gennym rai amheon gwirioneddol ynghylch y papur.

asks us to note the paper. It is at present a paper and not a strategy. I ask for the Presiding Officer's patience to look at some specific issues, which I hope Rosemary Butler will consider adding into the consultation document before it goes public.

The Presiding Officer: In view of my extensive patience in this chair, I remind you that you have a minority party debate in your party's name scheduled at 3:30 p.m. The Business Committee has agreed that an hour should be allowed for minority party debates. I have 12 speakers who have already indicated that they want to speak.

Helen Mary Jones: I will be brief, Llywydd. The second paragraph of the document says that the strategy will primarily address health and education. I presume we mean social services also and I hope Rosemary will consider that. We are also surprised about where some of the services have been placed within the three categories although these categories are sensible. We would be interested to know, for example, why the support for pupils with special educational needs is in the universal services section and not in the specific special services category.

We are pleased to see emphasis on the middle strand of prevention and enrichment and we would like more emphasis and resources put into that work to prevent difficulties from arising. We welcome the attempt to bring this together and in particular the budgets. We understand that it is impossible to break everything in the budget down. However, as we say in Welsh, '*diwedd y gân yw'r geiniog*' (money has the last word).

There are several areas of this budget where it is not clear whether or not this is money for children. For example, in the England and Wales crime reduction strategy budget, is the figure quoted for England and Wales or for Wales only, and whichever it is, what percentage will be spent on children? The

Ni wnaethom gynnig gwelliant gan mai dim ond gofyn inni nodi'r papur a wna. Papur ydyw ar hyn o bryd ac nid strategaeth. Gofynnaf am amynedd y Llywydd i edrych ar rai materion penodol y gobeithiaf y gwnaiff Rosemary Butler ystyried eu hychwanegu at y ddogfen ymgynghorol cyn iddi fynd gerbron y cyhoedd.

Y Llywydd: Yn wyneb fy amynedd helaeth yn y gadair hon, yr wyf yn eich atgoffa fod gennych ddadl plaid leiafrifol yn enw'ch plaid chi sydd i fod i gychwyn am 3.30. Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno y dylid caniatáu awr ar gyfer dadleuon plaid leiafrifol. Mae gennyf 12 siaradwr sydd eisoes wedi nodi eu bod am siarad.

Helen Mary Jones: Mi fyddaf yn fyr, Llywydd. Dywed ail baragraff y ddogfen y bydd y strategaeth yn ymdrin yn bennaf ag iechyd ac addysg. Yr wyf yn cymryd ein bod yn golygu gwasanaethau cymdeithasol hefyd ac yr wyf yn gobeithio y gwnaiff Rosemary ystyried hynny. Yr ydym hefyd wedi'n synnu o weld ym mha un o'r tri chategori hyn y gosodwyd rhai o'r gwasanaethau, er eu bod yn gategoriâu call. Byddai'n ddiddorol gwybod, er enghraifft, pam y mae'r gefnogaeth i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn yr adran gwasanaethau cyffredinol ac nid yn y categori penodol ar gyfer gwasanaethau arbennig.

Y mae'n dda gennym weld pwyslais ar y gainc ganol o atal a chyfoethogi a hoffem weld mwy o bwyslais ac adnoddau'n cael eu cyfeirio i'r gwaith hwnnw i rwystro anawsterau rhag digwydd. Croesawn yr ymgais i ddod â hyn at ei gilydd ac yn enwedig y cyllidebau. Yr ydym yn deall ei bod yn amhosibl torri popeth yn y gyllideb i lawr. Fodd bynnag, fel y dywedwn yn Gymraeg, '*diwedd y gân yw'r geiniog*'.

Mewn sawl man yn y gyllideb hon nid yw'n glir ai arian ar gyfer plant ydyw ai peidio. Er enghraifft, yn strategaeth leihau troseddau Cymru a Lloegr, a yw'r ffigur a ddyfynnir yn un ar gyfer Cymru a Lloegr ynteu ar gyfer Cymru yn unig, a pha un bynnag ydyw, pa ganran a werir ar blant? Gellir dweud yr un

same can be said for the people in communities budget, the sustainable communities budget and the healthy living budget. I am sure I have seen some of these budgets elsewhere but I would not like to be cynical and say that the Government of Wales would follow the long and dishonourable tradition of the current London administration of double counting. However, if it is not clarified, that is how it will look. We need transparency and an idea of a total budget before it is fair to ask people to comment upon it.

There are other issues like standstill funding plans for the Wales Youth Agency, which amount to a real cut but I will not go through that because of lack of time. This document needs work and time. Ideally, the Committee should have seen it before its release. However, I welcome Rosemary's comments about the way forward and the fact that children and young people will be included in the debate.

The Plaid Cymru group will not support the amendment although we appreciate Jenny's concern. It is a little ill-thought through. There are current proposals, as Rosemary has outlined, and we would prefer to wait until the report of the north Wales child abuse inquiry is released to see whether we are asked to do anything additional. There are practical difficulties with police checks—

Michael German *rose*—

Helen Mary Jones: I will not give way because the Llywydd wants me to finish.

The Presiding Officer: It is not me who wants you to finish, but other matters have intervened on today's schedule.

Michael German: In France, where people are licensed, it is not impossible and consulting does not take much effort. It is such an important scheme that we should ask the agencies what they think.

Helen Mary Jones: Given the amount of

peth am y gyllideb pobl mewn cymunedau, cyllideb cymunedau cynaliadwy a chyllideb byw'n iach. Yr wyf yn sicr imi weld rhai o'r cyllidebau hyn yn rhywle arall ond ni hoffwn fod yn sinigaidd a dweud y byddai Llywodraeth Cymru'n dilyn hen draddodiad dianrhydedd y weinyddiaeth bresennol yn Llundain o gyfrif dwbl. Fodd bynnag, os na chaiff ei egluro, felly y bydd yn ymddangos. Mae angen tryloywder a syniad o gyllideb lawn cyn ei bod yn deg gofyn i bobl roi sylwadau arni.

Y mae materion eraill fel cynlluniau cyllido stond ar gyfer Asiantaeth Ieuencid Cymru sydd yn gyfwerth â thoriad gwirioneddol, ond nid af drwy hynny oherwydd diffyg amser. Mae angen gwaith ac amser ar y ddogfen hon. Yn ddefnyddol, dylai'r Pwyllgor fod wedi ei gweld cyn iddi gael ei rhyddhau. Fodd bynnag, yr wyf yn croesawu sylwadau Rosemary ynglyn â'r ffordd ymlaen a'r ffaith y caiff plant a phobl ifainc eu cynnwys yn y drafodaeth.

Ni fydd grŵp Plaid Cymru'n cefnogi'r gwelliant er ein bod yn gwerthfawrogi pryder Jenny. Mae'r meddwl y tu ôl iddo braidd yn niwlog. Y mae cynigion cyfredol, fel a amlinellwyd gan Rosemary, a byddai'n well gennym aros nes rhyddheir adroddiad yr ymchwiliad i gam-drin plant yn y Gogledd i weld a oes gofyn inni wneud unrhyw beth ychwanegol. Y mae anawsterau ymarferol gydag archwiliadau heddlu—

Michael German *a gododd*—

Helen Mary Jones: Ni wnaf ildio gan fod y Llywydd eisiau imi orffen.

Y Llywydd: Nid fi sydd eisiau ichi orffen, ond mae materion eraill wedi dod ar draws yr amserlen heddiw.

Michael German: Yn Ffrainc, lle caiff pobl eu trwyddedu, nid yw'n amhosibl ac nid yw ymgynghori'n cymryd ymdrech fawr. Y mae'n gynllun mor bwysig fel y dylem ofyn i'r asiantaethau am eu barn hwy.

Helen Mary Jones: Yn wyneb faint o arian

money that has been put into the north Wales child abuse inquiry, we should wait to see its conclusions. I am aware of what happened to the voluntary sector in France when that scheme was introduced. Many children and young people projects went to the wall because they could not license.

The Plaid Cymru group therefore supports this document with some reservations. We hope that the Government can re-structure it before its release to enable groups to respond more effectively. That must have been the fastest speech in the history of the Assembly.

David Melding: Perhaps I could beat Helen Mary for speed. The Conservative group welcomes this embryonic strategy. I was involved in the first ever conference in Wales on the UN Convention on the Rights of the Child. It was hosted by the then Taff Ely Borough Council and it gives me pleasure to see how that Convention led to such an imaginative change in the way we view children's services and the role of children in society. I hope that the Convention will continue to play a central part in policy making in this country and across the world.

I welcome some of the specifics mentioned. The principle of unified children's planning is very important and challenging given the wide range of agencies involved. There are problems given the different standards of children's service plans currently formulated. We need the highest level of planning input into children's services.

I welcome any innovation in the consultation process. The Government has been criticised for presenting a skeleton framework document, but if we were just consulting on the finished article in a very reactionary way, that would not be satisfactory either. At least there will be conferences and workshops. Involving people during the early stages of planning is the best way to ensure innovation and empowerment. Being asked to consult

sydd wedi'i roi i mewn i'r ymchwiliad i gam-drin plant yn y Gogledd, dylem aros i weld beth fydd ei gasgliadau. Yr wyf yn ymwybodol o beth ddigwyddodd i'r sector gwirfoddol yn Ffrainc pan gyflwynwyd y cynllun hwnnw. Aeth llawer o brosiectau plant a phobl ifainc i'r wal am nad oeddent yn gallu trwyddedu.

Mae grŵp Plaid Cymru felly'n cefnogi'r ddogfen hon gyda rhai amheuan. Gobeithiwn y gall y Llywodraeth ei hailstrwythuro cyn ei rhyddhau fel y gall grwpiau ymateb yn fwy effeithiol. Y mae'n rhaid mai honno oedd yr araith gyflymaf yn hanes y Cynulliad.

David Melding: Efallai y gallwn i guro Helen Mary am gyflymder. Mae'r grwp Ceidwadol yn croesawu'r darpar strategaeth hon. Bŵm i yn y gynhadledd gyntaf erioed yng Nghymru ar Gytundeb y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Cyngor Bwrdeistref Taf Elai ar y pryd a'i cynhaliodd, ac mae'n bleser gennyf weld y modd yr arweiniodd y cytundeb hwnnw at newid mor ddychmygus yn y ffordd yr edrychwn ar wasanaethau plant ac ar rôl plant mewn cymdeithas. Gobeithiaf y gwnaiff y cytundeb barhau i chwarae rhan ganolog mewn llunio polisi yn y wlad hon a thros y byd.

Yr wyf yn croesawu rhai o'r materion penodol a grybwyllwyd. Mae'r egwyddor o gynllunio cydlynol ar gyfer plant yn un pwysig a heriol dros ben o gofio'r holl amrediad o asiantaethau sydd a wnelont â hyn. Y mae problemau yn sgîl y gwahanol safonau o gynlluniau gwasanaethau plant sydd wedi'u llunio ar hyn o bryd. Mae angen y lefel uchaf o fewnbwn cynllunio i wasanaethau plant.

Yr wyf yn croesawu unrhyw gam newydd yn y broses ymgynghori. Beirniadwyd y Llywodraeth am gyflwyno sgerbwd o ddogfen fframwaith, ond pe na buasem ond yn ymgynghori ar yr eitem orffenedig mewn modd adweithiol iawn, ni fyddai hynny'n dderbyniol chwaith. O leiaf fe fydd cynadleddau a gweithdai. Cynnwys pobl yn ystod camau cyntaf cynllunio yw'r ffordd orau i sicrhau syniadau newydd a rhoi gallu i

within three weeks on a final document is not a very empowering process.

Even in the framework document I would have liked some reference to young carers. There are an estimated 2,000 people under the age of 18 looking after sick or disabled relatives. On average that is nearly 100 in each local authority but some of the larger authorities obviously have many more. In addition, bereavement services for children are generally very poor. They are often an after-thought if a thought at all, and I would like some attention to this during the consultation process.

Rosemary mentioned the importance of services for looked after children and I welcome the time she has spent on that. All parties believe that the services for looked-after children have not been satisfactory over the past decades including support for those children in early adulthood.

Reference has been made to special educational needs appearing under the mainstream category and I am not against that. However, if it is going to be a policy shift to move a lot of special needs education into the mainstream by changing the emphasis from designated special schools to supported units in mainstream education, we need to state that. We need to be honest and transparent in the consultation process and say that that is what is proposed.

3:19 p.m.

There are good arguments for increasing special needs education in the mainstream sector. Children leave school and need to interact with their surrounding communities. That interaction is often achieved through a mainstream school setting.

We will support the Liberal Democrat amendment. It is a matter of consultation, not a final proposal. Some people have raised the issue of how much the strategy will cost, how

bobl. Nid yw gofyn i bobl ymgynghori o fewn tair wythnos ar ddogfen orffenedig yn broses alluogol iawn.

Hyd yn oed yn y ddogfen fframwaith buaswn wedi hoffi rhyw gyfeiriad at ofalwyr ifainc. Amcangyfrifir bod rhyw 2,000 o bobl dan 18 oed yn gofalu am berthnasau sâl neu fethedig. Ar gyfartaledd mae hynny bron yn 100 ym mhob awdurdod lleol, ond yn amlwg mae llawer mwy yn rhai o'r awdurdodau mawr. Yn ychwanegol at hynny, mae gwasanaethau profedigaeth i blant yn gyffredinol wael iawn. Y maent yn aml yn ôl-ysytiaeth os ydynt yn ystyriaeth o gwbl, a hoffwn i ryw sylw gael ei roi i hyn yn ystod y broses ymgynghori.

Soniodd Rosemary am bwysigrwydd gwasanaethau i blant sydd mewn gofal, a chroesawaf yr amser y mae hi wedi'i dreulio ar hynny. Mae pob plaid yn credu nad yw'r gwasanaethau ar gyfer plant sydd dan ofal wedi bod yn foddhaol dros y degawdau diwethaf, gan gynnwys cefnogaeth i'r plant hynny wedi iddynt fynd yn oedolion.

Cyfeiriwyd at y ffaith fod anghenion addysgol arbennig yn ymddangos yng nghategori'r brif ffrwd ac nid wyf yn erbyn hynny. Fodd bynnag, os ydyw am fod yn symudiad polisi i symud llawer o addysg anghenion arbennig i'r brif ffrwd drwy newid y pwyslais oddi ar ysgolion arbennig dynodedig at unedau a gefnogir mewn addysg prif ffrwd, mae angen inni ddatgan hynny. Mae angen inni fod yn onest ac yn dryloyw yn y broses ymgynghori a dweud mai dyna sydd yn cael ei gynnig.

Y mae dadleuon da dros gynyddu addysg anghenion arbennig yn y sector prif ffrwd. Bydd plant yn gadael yr ysgol ac angen rhyngweithio â'r gymuned o'u cwmpas. Llwyddir i sicrhau'r rhyngweithio hwn yn aml drwy leoliad mewn ysgol brif ffrwd.

Cefnogwn welliant y Democratiaid Rhyddfrydol. Mater o ymgynghori ydyw, nid cynnig terfynol. Mae rhai pobl wedi codi cwestiwn cost y strategaeth, pa mor helaeth

extensive it will be and how it will affect the voluntary sector. Those issues are important and we need to consult on them. We must recognise that the public, particularly parents, are concerned about people whose access to children seems to be unregulated. Usually that causes no difficulty, but there are occasionally alarming stories. The only response to that is to consider a simple licensing system. Therefore we will support the Liberals' amendment.

The Secretary for Health and Social Services (Jane Hutt): I am glad that we had this debate today. In bringing the debate to a conclusion I will focus on the Assembly's key objective to which we have all subscribed. Our key objective for children is

'to give children in Wales a better start in life, through promoting their health, social development and educational achievement, and protecting them from abuse or neglect.'

I regret that we have not had longer this afternoon for this important discussion. The key objective is what we must concentrate on most. It is also what the United Nations Convention on the Rights of the Child insists on. We are determined to develop services to meet children's needs. We need to look hard at the realities of children's services, and at what is good and not so good about current provision. We should also examine the integration of health, social services and education to deliver what each child requires. We need to consider what children need and expect from service providers. If we find barriers, structures which provide obstacles to children getting that attention or which are not focused on their needs, we have to take steps to get those structures right.

We must ensure that these debates lead somewhere. That is what is important about this discussion today.

fydd hi a sut y bydd yn effeithio ar y sector gwirfoddol. Mae'r cwestiynau hyn yn bwysig a bydd angen inni ymgynghori arnynt. Rhaid inni gydnabod fod y cyhoedd, a rhieni yn arbennig, yn bryderus ynglyn â phobl nad oes unrhyw reolaeth ar eu cyswllt â phlant. Fel arfer nid yw hynny'n achosi dim anhawster, ond fe geir storïau dychrynlyd ambell dro. Yr unig ateb i hynny yw ystyried system drwyddedu syml. Felly fe gefnogwn welliant y Rhyddfrydwyr.

Yr Ysgrifennydd dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt): Yr wyf yn falch inni gael y ddadl hon heddiw. Wrth gloi'r ddadl mi ganolbwyntiaf ar amcan allweddol y Cynulliad yr ydym i gyd wedi cytuno arno. Ein hamcan allweddol ar gyfer plant yw

'rhoi i blant yng Nghymru ddechrau gwell mewn bywyd, drwy hybu eu hiechyd, eu datblygiad cymdeithasol a'u cyflawniad addysgol, a'u gwarchod rhag cael eu camdrin neu eu hesgeuluso.'

Gresyn na chawsom fwy o amser y prynhawn yma ar gyfer y drafodaeth bwysig hon. Rhaid inni ganolbwyntio fwyaf ar yr amcan allweddol. Dyma hefyd beth y mae Cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn ei fynnu. Yr ydym yn benderfynol o ddatblygu gwasanaethau i gwrdd ag anghenion plant. Y mae angen inni edrych o ddifrif ar sefyllfa wirioneddol gwasanaethau plant, ac ar yr hyn sydd yn dda a heb fod gystal yn y ddarpariaeth bresennol. Dylem hefyd archwilio i integreiddio iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg i sicrhau y caiff pob plentyn yr hyn y mae arno ei angen. Y mae angen inni ystyried beth sydd ar blant ei angen a beth maent yn ei ddisgwyl gan ddarparwyr gwasanaethau. Os gwelwn rwystrau, adeileddau sydd yn rhwystro plant rhag cael y sylw angenrheidiol neu sydd heb ganolbwyntio ar eu hanghenion, rhaid inni weithredu i unioni'r adeileddau hynny.

Rhaid inni sicrhau fod y dadleuon hyn yn arwain i rywle. Dyna sydd yn bwysig am y drafodaeth hon heddiw.

Gareth Jones: Gan eich bod yn dirwyn eich araith i ben, hoffwn godi un pwynt sydd yn fy mhoeni. Cyfeiriasoch at rwystrau—y gair a ddefnyddiwyd gennych oedd ‘*barriers*’—a gofalu nad ydym yn creu rhwystrau artiffisial. Yr wyf yn poeni bod eich cynllun gofal plant wedi ei neilltuo ar gyfer plant o bedair i 14 oed. Yr wyf yn methu deall hynny. Soniodd Jenny am y drafodaeth yr ydym yn ei chael gyda’r Pwyllgor Addysg Cyn-16. Yr oedd pwyslais aruthrol ar blant tair oed. Yr wyf hefyd yn teimlo eich bod wedi rhoi’r fenter dan bump oed ochr yn ochr a’r rhaglen honno. Nid yw hynny yn gwneud synnwyr imi. Nid yw’n enghraifft dda o’r meddwl di-dor yr ydym yn anelu ato. Hoffwn ichi edrych yn ofalus ar yr ystod oed a chynnwys y plant iau yn y cynllun.

Jane Hutt: That is an important point from someone involved in the development of the childcare strategy. We also discussed the Select Committee’s report on childcare. It is vital that children are not limited to nought-to-three and three-to-14 categories. Their whole lives are ahead of them. For them and for their parents we need to ensure that there is a seamless provision of service. There are schemes, such as the new opportunities fund, for childcare for school-age children. That scheme kicks in at the age of three. Pre-school childcare has been considered by the Committee and under-five childcare by the Pre-16 Education Committee. We will consider this in the Health and Social Services Committee. We must get these things right and ensure that we have that seamless policy and seamless services for children and their parents.

We must ensure that our actions lead to new policy development. That is the importance of Jenny’s amendment, which David backed. I am concerned that this matter has not been brought to my attention before. It has not been raised in Health and Social Services Committee discussions.

The Committee has been discussing a children’s commissioner and I regret that no-one has mentioned that today. The commissioner is a vital new initiative with cross-party support. We also have a

Gareth Jones: As you are bringing your speech to a close, I would like to raise a point that worries me. You referred to barriers and taking care that we do not create artificial barriers. I am concerned that your childcare scheme has been limited to four to 14-year-olds. I do not understand that. Jenny mentioned the discussion we are having with the Under-16 Education Committee. There was a massive emphasis on three-year-olds. I feel that you have put the under-fives initiative side by side with that programme. That does not make sense to me. It is not a good example of the joined-up thinking we aim for. I would like you to look carefully at the age range and include the younger children in the scheme.

Jane Hutt: Dyna bwynt pwysig gan rywun sydd yn ymwneud â datblygu’r strategaeth gofal plant. Trafodasom hefyd adroddiad y Pwyllgor Dethol ar ofal plant. Mae’n holl bwysig na chyfyngir plant i gategoriâu dim-i-deir blwydd a thair-i-14. Mae eu holl fywydau o’u blaenau. Er eu mwyn hwy a’u rhieni mae angen inni sicrhau darpariaeth gwasanaeth di-dor. Y mae cynlluniau, fel y gronfa cyfleoedd newydd, ar gyfer gofalu am blant oed ysgol. Mae’r cynllun hwnnw’n dechrau pan fo’r plant yn dair oed. Edrychwyd ar ofal plant cyn oed ysgol gan y Pwyllgor ac ystyriwyd gofal plant dan bump gan y Pwyllgor Cyn-16. Fe edrychwn ar hyn yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Rhaid inni sicrhau bod y pethau hyn yn iawn a sicrhau bod gennym bolisi di-dor a gwasanaethau di-fwlch i blant a’u rhieni.

Rhaid inni sicrhau fod ein gweithredoedd yn arwain at ddatblygu polisi newydd. Dyna bwysigrwydd gwelliant Jenny, a gefnogwyd gan David. Yr wyf yn bryderus na chafodd y mater hwn ei ddwyn i’r sylw o’r blaen. Ni chafodd ei godi yn nhrafodaethau’r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Y mae’r Pwyllgor wedi bod yn trafod comisiynydd plant ac rwy’n gresynu nad oes neb wedi sôn am hynny heddiw. Mae’r comisiynydd yn fenter newydd allweddol gyda chefnogaeth drawsbleidiol. Mae

responsibility under the Protection of Children Act 1999, to which Rosemary referred, to provide the kind of reassurances about which Jenny is rightly concerned.

The Committees have the role of developing policy and I would like the issue of consultation discussed at Committee level. Jenny has raised a useful point but I will not support her amendment. The Committee is considering the strategic policy development and it should decide whether or not we go to consultation. I do not disagree with the amendment; we should consider this issue carefully. However, this strategy is a new way of looking at how we can protect children. I would prefer that the debate on consultation began at Committee level. It is important that in each Committee we consider how we can ensure that all our resources and policy development powers are used for children's benefit. Today, we are debating a common set of objectives and a common framework. It is important that each Committee considers the needs and interests of children.

To respond to Helen's point, this document is only a starting point. There is much to discuss and it is important that discussion occurs outside the Assembly. I want to ensure that discussion is not just with the established groups and those with strong voices. All Members must consult with the most vulnerable children and families in their communities, those who are excluded and do not have the opportunity to lobby us and state their points of view. Let us reach out to children through the Assembly.

The discussions we have had about the children's commissioner involved talking to young people as well as professionals. That is important. Discussion must be across the board. Health, education and social services must be involved. As the Secretary for Health and Social Services, I am concerned with school nutrition issues, for example. That needs to be considered alongside education. I talked yesterday to farmers about the importance of school milk. Mrs Thatcher got rid of school milk and I discussed that with them. Such issues must be considered

gennym gyfrifoldeb hefyd dan Ddeddf Amddiffyn Plant 1999, y cyfeiriodd Rosemary ati, i ddarparu'r math o sicrwydd y mae Jenny yn pryderu'n briodol amdano.

Rôl y Pwyllgorau yw datblygu polisi a hoffwn i fater ymgynghori gael ei drafod ar lefel Pwyllgor. Mae Jenny wedi codi pwynt defnyddiol ond ni wnaif gefnogi ei gwelliant. Y mae'r Pwyllgor yn ystyried datblygiad y polisi strategol a'r Pwyllgor ddylai benderfynu a ddylid ymgynghori ai peidio. Nid wyf yn anghytuno â'r gwelliant; dylem ystyried y mater hwn yn ofalus. Fodd bynnag, mae'r strategaeth hon yn ffordd newydd o edrych sut y gallwn ni warchod plant. Byddai'n well gennyf i'r ddadl ar ymgynghori ddechrau ar lefel Pwyllgor. Mae'n bwysig inni ystyried ym mhob Pwyllgor sut y gallwn ni sicrhau y caiff ein holl adnoddau a'n galluoedd datblygu polisi gael eu defnyddio er lles plant. Heddiw, yr ydym yn trafod set gyffredin o bolisiau a fframwaith gyffredin. Y mae'n bwysig i bob Pwyllgor ystyried anghenion a buddiannau plant.

I ymateb i bwynt Helen, dim ond man cychwyn yw'r ddogfen hon. Mae llawer i'w drafod ac mae'n bwysig cael trafodaeth y tu allan i'r Cynulliad. Yr wyf eisiau sicrhau nad dim ond gyda'r grwpiau sefydledig a'r rhai gyda lleisiau cryf y ceir trafodaeth. Rhaid i bob Aelod ymgynghori â'r plant a'r teuluoedd mwyaf bregus yn eu cymunedau, rhai sydd wedi'u cau allan ac nad ydynt yn cael y cyfle i'n lobio a chyflwyno'u barn. Gadewch inni ymestyn allan at blant drwy'r Cynulliad.

Roedd y trafodaethau a gawsom ynghylch y comisiynydd plant yn golygu siarad â phobl ifainc yn ogystal â phobl broffesiynol. Mae hynny'n bwysig. Rhaid cael trafodaeth gynhwysfawr. Rhaid i iechyd, addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol gael cyfranogi. Fel Ysgrifennydd dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yr wyf yn bryderus ynghylch materion maeth ysgolion, er enghraifft. Mae angen ystyried hynny ochr yn ochr ag addysg. Siaradais ddoe â ffermwyr ynglyn â phwysigrwydd llaeth ysgol. Cafodd Mrs Thatcher wared ar laeth

across the board. There are connections between health, economic, education and social policies that affect children.

We must have clear objectives to tackle social exclusion and child poverty. There is a consensus that we should focus on the most excluded children. Budgeting can be complicated, but the Assembly should break new ground on this. We know the budgets for health and social services are relevant, but Rosemary and Tom also have relevant budgets. The pot needs to be pooled. Edwina Hart, as Finance Secretary, is ensuring that our expenditure is considered in a cross-cutting way and targeted at the most excluded in our communities. The money is available. We must ensure it is steered towards our objectives for children.

I hope that consultation will reveal new thinking in Wales on how the Assembly can ensure progress. Young carers are important and will feature in our discussions on the carers strategy. There is also the issue of special needs education and integrating children into the mainstream while recognising the acute difficulties faced by those with special needs, disabilities and learning difficulties and the difficulties faced by their parents. We must tackle all those points.

I am pleased that we discuss these issues two days before Children in Wales holds its annual conference. They are the ones who bring people in Wales together to look at these issues and involve children in their debates. We will learn a lot about the children's commissioner options. We will have consultation all around Wales and each Assembly Member can take this forward. We owe it to our children in Wales to be positive and constructive, to try to get away from traditional party politics barracking and to be responsible for their future.

3:29 p.m.

The Prime Minister has committed himself to

ysgol a thrafodais hynny gyda nhw. Rhaid ystyried materion o'r fath yn gynhwysfawr. Y mae cysylltiadau rhwng polisïau iechyd, economaidd, addysg a chymdeithasol sydd yn effeithio ar blant.

Rhaid inni gael amcanion clir i fynd i'r afael â dieithrwch cymdeithasol a thlodi plant. Y mae consensws y dylem ganolbwyntio ar y plant sydd wedi'u dieithrio fwyaf. Gall y gyllideb fod yn gymhleth, ond dylai'r Cynulliad dorri tir newydd ar hyn. Gwyddom fod y cyllidebau ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn berthnasol, ond mae gan Rosemary a Tom gyllidebau perthnasol hefyd. Mae angen cyfuno'r pot. Y mae Edwina Hart, fel Ysgrifennydd Cyllid, yn sicrhau yr ystyrir ein gwariant mewn modd trawsbynciol a'i dargedu at y rhai mwyaf dieithriedig yn ein cymunedau. Y mae'r arian ar gael. Rhaid inni sicrhau y caiff ei gyfeirio tuag at ein hamcanion ar gyfer plant.

Gobeithio y bydd ymgynghori yn datgelu meddylfryd newydd yng Nghymru ynghylch sut y gall y Cynulliad sicrhau camau ymlaen. Mae gofawyr ifainc yn bwysig a chânt le yn ein trafodaethau ar y strategaeth i ofalwyr. Hefyd ceir y cwestiwn o addysg anghenion arbennig ac integreiddio plant i'r brif ffrwd tra'n cydnabod yr anawsterau dybryd sydd yn wynebu plant ag anghenion arbennig, anableddau ac anawsterau dysgu a'r anawsterau sydd yn wynebu eu rhieni. Rhaid inni fynd i'r afael â'r pwyntiau hynny i gyd.

Yr wyf yn falch ein bod yn trafod y materion hyn ddeuddydd cyn i fudiad Plant yng Nghymru gynnal ei gynhadledd flynyddol. Dyma'r bobl sydd yn dod â Chymry ynghyd i edrych ar y materion hyn a rhoi lle i blant yn eu dadleuon. Cawn ddysgu llawer am yr opsiynau parthed comisiynydd plant. Cawn ymgynghori ledled Cymru a gall pob Aelod o'r Cynulliad fynd â hyn yn ei flaen. Ein dyletswydd i'n plant yng Nghymru yw bod yn gadarnhaol ac yn adeiladol, a cheisio symud oddi wrth y ffraeo pleidiol traddodiadol a bod yn gyfrifol am eu dyfodol.

Y mae'r Prif Weinidog wedi ymrwymo i

eradicating child poverty and the Assembly should also take this as one of its objectives. In this Labour Government's four budgets £4 billion has been given to families with children. Forty per cent of that money has been given to those in poverty. Considerable income support payments from October will help the poorest on benefits, and the introduction of the working families tax credit should start to help low income families. But the Government is judged on how that will deliver for families and children. We in the Assembly must be judged on whether we can eradicate child poverty and develop new, inclusive policies that meet the needs of children as our future generation.

The Presiding Officer: I now call for a vote on the amendment in the name of Jenny Randerson.

A vote was held by show of hands. Amendment rejected.

The Presiding Officer: We will now vote on the main motion.

A vote was held by show of hands. Motion adopted.

ddileu tlodi plant a dylai'r Cynulliad gymryd hyn fel un o'i amcanion yntau. Ym mhedair cyllideb y Llywodraeth Lafur hon neilltuwyd £4 biliwn i deuluoedd â phlant. Rhoddwyd deugain y cant o'r arian hwnnw i rai mewn tlodi. Bydd taliadau ategu incwm sylweddol o fis Hydref ymlaen yn helpu'r rhai tlotaf sydd ar fudd-daliadau, a dylai cyflwyno credyd treth i deuluoedd sydd yn gweithio ddechrau helpu teuluoedd ar incwm isel. Ond bernir y Llywodraeth ar sut y bydd hynny'n ateb anghenion teuluoedd a phlant. Rhaid inni yn y Cynulliad gael ein barnu yn ôl ein gallu i ddileu tlodi ymhlith plant a datblygu polisiau newydd cynhwysol fydd yn cwrdd ag anghenion plant fel cenhedlaeth y dyfodol.

Y Llywydd: Galwaf yn awr am bleidlais ar y gwelliant yn enw Jenny Randerson.

Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo. Gwrthodwyd y gwelliant.

Y Llywydd: Fe bleidleisiwn yn awr ar y prif gynnig.

Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo. Derbyniwyd y cynnig.

Dadl Plaid Leiafrifol (Plaid Cymru) Minority Party Debate (Plaid Cymru)

Y Diwydiant Amaethyddol The Farming Industry

Y Llywydd: Yr wyf wedi dethol y gwelliant sydd yn enw Mick Bates.

Ieuan Wyn Jones: Cynigiaf fod

y Cynulliad hwn, sydd yn gofidio am argyfwng y diwydiant ffermio, yn galw ar y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd i gyflwyno a chyllido Cynllun Lladd Mamogiaid ac i ailgyflwyno'r Cynllun Cymorth Prosesu Lloi, ac yn absenoldeb Cynllun Prosesu Lloi ledled Prydain mae'r Cynulliad am benderfynu cyflwyno cynllun ar gyfer Cymru yn unig i weithredu o 1 Hydref i 31 Rhagfyr 1999.

The Presiding Officer: I have selected the amendment standing in the name of Mick Bates.

Ieuan Wyn Jones: I propose that

this Assembly, concerned at the crisis in the farming industry, calls on the Ministry of Agriculture, Fisheries and Food to introduce and fund a cull ewe scheme and to reintroduce and fund the calf processing aid scheme, and in the absence of a UK-wide calf processing aid scheme the Assembly resolves to introduce a Wales-only scheme to operate from 1 October to 31 December 1999.

Croesawaf y cyfle i agor y ddadl bwysig hon ar y diwydiant amaethyddol yng Nghymru. Yr ydym fel plaid yn falch o'r cyfle i roi cynigion pendant gerbron y Cynulliad ynglyn â'r ffordd y dylem helpu'r diwydiant amaethyddol i oresgyn ei broblemau, yn enwedig y problemau a ddaw yn ystod misoedd yr hydref a'r gaeaf eleni. Nid ein cynnig ni yn unig yw hyn ond un a drafodwyd gyda'r undebau amaethyddol yng Nghymru wrth inni wrando ar eu cyngor a'u dadleuon. Cyflwynwyd ein cynigion i Lywodraeth y Cynulliad mewn llythyrau manwl a thrafodaethau.

Mae llawer o drafod wedi bod yn ystod yr wythnosau diwethaf ond rhaid cyfaddef bod y ffermwyr wedi cael llond bol ar y siarad wrth i gyfarfodydd fethu â chyrraedd unrhyw ganlyniad na chael unrhyw ddylanwad. Mae'r ffermwyr yn gofyn i'r Cynulliad am benderfyniad ar gynlluniau penodol i'w helpu i ddelio â'r argyfwng. Cawsom gyfle yn ystod y ddau ddiwrnod diwethaf i ymateb yn wleidyddol bleidiol i'r hyn a ddigwyddodd yn ystod yr haf. Gobeithiaf y gallwn roi hynny o'r neilltu am awr i ddangos bod undod llwyr ym mhob plaid yn y Cynulliad ar y ffordd ymlaen i ddatrys problemau tymor byr y diwydiant.

Ni fyddaf yn cyfeirio at unrhyw blaid arall yn ystod y drafodaeth as eithrio fy mod yn mynd i roi pwysau ar Lywodraeth y Cynulliad i sicrhau bod y cynlluniau hyn yn cael eu cyflawni yn y tymor byr. I osgoi unrhyw gamddealltwriaeth, boed y tu mewn neu'r tu allan i'r Cynulliad, hyd yn oed pe byddem yn gweithredu'r ddau gynllun y soniwyd amdanynt yn y cynnig, ni fyddai'n ateb terfynol i broblemau'r diwydiant amaethyddol. Wedi'r cwbl, cynlluniau tymor byr yr ydym yn sôn amdanynt, cynlluniau a fyddai'n cynorthwyo'r ffermwyr yn ystod misoedd yr hydref a'r gaeaf. Mae amser penodol i'r cynlluniau hefyd.

Yn ystod yr wythnosau cyn toriad yr haf, daethom ni, yn y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, yn ymwybodol fod problemau strwythurol tymor hir yn effeithio

I welcome the opportunity to open this important debate on the farming industry in Wales. We as a party are pleased to have the opportunity to place specific motions before the Assembly about the way in which we should assist the farming industry to overcome its problems, especially the problems it will face during this year's autumn and winter months. This is not solely our motion but one that was discussed with the agricultural unions in Wales as we listened to their advice and arguments. We presented our suggestions to the Assembly Government in detailed letters and discussions.

During the past few weeks there has been a great deal of discussion but we must confess that the farmers have had a bellyful of the talking as meetings failed to reach any outcomes or have any influence. The farmers are asking for a decision from the Assembly on specific schemes to help them deal with the crisis. We have had the opportunity during the last two days to respond in a party political fashion to what happened during the summer. I hope we can put that aside for an hour to show complete unanimity in every party in the Assembly on the way forward for resolving the industry's short-term problems.

I will not be referring to any other party during the discussion apart from putting pressure on the Assembly Government to ensure that these schemes are delivered in the short term. So that there is no misunderstanding, either within or outside the Assembly, even if we were to implement these two schemes mentioned in the proposal, it would not be a final resolution to the agriculture industry's problems. After all, we are talking about short-term schemes, schemes that would help farmers during the autumn and winter months. The schemes are also time-specific.

During the weeks before the summer recess, we, on the Agriculture and Rural Development Committee, became aware that long-term structural problems affect the

ar y diwydiant. Fodd bynnag, byddai derbyn y cynigion hyn yn arwydd clir o barodrwydd y Cynulliad i weithredu'n fuan ac yn gadarnhaol i sicrhau y gallwn oresgyn y problemau tymor byr. Byddai'n anodd gennyf gredu y gallai unrhyw blaid arall yn y Cynulliad beidio â'n cefnogi heddiw.

Dyma'r arwydd cliriaf y gallwn ei roi fel Cynulliad: bod unoliaeth lwyr ynglyn â'r ffordd y byddwn yn symud ymlaen. Credaf, heb unrhyw amheuaeth, pe byddem yn derbyn y cynnig hwn yn unfrydol, mai dyna'r arwydd cliriaf posibl i'r Trysorlys, y Llywodraeth yn Llundain a'r Comisiwn Ewropeaidd bod y Cynulliad yn golygu busnes yn y mater hwn.

Byddai unrhyw raniad neu rwyg o ganlyniad i'r cynnig hwn yn golygu y byddai negeseuon yn mynd i Lundain ac i Frwsel nad yw Aelodau'r Cynulliad o'r un farn. Mae pendertrwydd ar hynny yn holl bwysig.

Hoffwn dynnu eich sylw at brif elfennau'r argyfwng sydd yn wynebu'r diwydiant. Mae'n amlwg fod prisiau cynnyrch ar y farchnad yn parhau'n hynod o isel a bod incwm ffermwyr yn gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn. Rhywbeth bregus iawn yw elw i'r ffermwr yn yr ardaloedd yng Nghymru lle mae tir llai ffafriol. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd gostyngiadau sylweddol yn incwm ffermwyr. Y realiti yw bod y mwyafrif llethol o ffermwyr Cymru yn ffermio ar golled. Mae hynny'n amlwg gan fod prisiau wedi cwmpo mor sylweddol.

Nid rhywbeth a ddigwyddodd mewn blwyddyn oedd hynny. Ers 1996, flwyddyn ar ôl blwyddyn, dymor ar ôl tymor, mae prisiau wedi gostwng. Gwaethygir y sefyllfa oherwydd bod hyn yn digwydd ar draws pob sector. Yn y gorffennol, pan oedd un sector, er enghraifft cig eidion, yn gwneud yn wael, yr oedd sector arall megis y sector defaid yn cynorthwyo. Os oedd prisiau gwael yn y sector defaid, efallai fod y sector llaeth yn iawn. Ar hyn o bryd mae pob sector wedi dioddef. Oni bai ein bod yn gweithredu'n fuan, bydd ffermwyr yn wynebu colledion difrifol pellach.

industry. However, adopting these proposals would clearly signify the Assembly's willingness to act quickly and positively to ensure that we can overcome the short-term problems. I would find it difficult to believe that any party in the Assembly could not support us today.

This is the clearest message that we, as an Assembly, can give: that there is complete unanimity on the way we will move forward. I believe, without a doubt, that if we adopt this proposal unanimously, that is the clearest message possible to the Treasury, the Government in London and the European Commission that the Assembly means business on this matter.

Any split or division as a result of this proposal would mean that messages would go to London and to Brussels that Assembly Members are not of the same opinion. Certainty is essential on this.

I want to draw your attention to the main elements of the crisis facing the industry. It is obvious that produce prices on the market continue to be very low and that farmers' incomes are falling year upon year. Farmers' profit is very vulnerable in parts of Wales where land is less favourable. However, during recent years, there have been significant reductions in farmers' incomes. The reality is that an overwhelming majority of Wales's farmers are farming at a loss. That is obvious, as prices have fallen so substantially.

That did not happen in a year. Since 1996, year after year, season after season, prices have fallen. The situation is worsened by the fact that this is happening across all sectors. In the past, when one sector, for example the beef sector, was doing badly, another sector such as the sheep sector would assist. If prices were bad in the sheep sector, maybe the dairy sector was doing well. At the moment all sectors are suffering. Unless we act quickly, farmers will face further serious losses.

Mae sawl rheswm penodol pam ein bod yn cynnig y ddau gynllun hyn. Pam cyfeirio at y ddau gynllun hyn yn unig? Gadewch inni edrych ar sefyllfa'r lloi i ddechrau. Un o'r problemau sydd yn wynebu'r sector lloi yw, yn ystod y cyfnod o hyn tan ddiwedd y flwyddyn, y bydd 40 y cant o'r lloi sydd yn cael eu geni i'r fuches laeth yn cael eu geni. Dyna tua 40,000 o loi heb unrhyw werth yn y farchnad. Hyd ddiwedd Gorffennaf yr oedd cynllun cymorth prosesu lloi yn bodoli, a chydabyddwn fod y Llywodraeth wedi estyn cyfnod y cynllun ddwy waith. Fodd bynnag, oherwydd nad estynnwyd y cynllun hyd ddiwedd y flwyddyn, mae'r ffermwyr yn wynebu argyfwng. Y bwriad oedd y byddai marchnadoedd a gaewyd i loi yn cael eu hailagor ar ddiwedd y cynllun. Nid yw hyn wedi digwydd ac hyd nes yr ail-agorir y marchnadoedd, bydd problemau'r ffermwyr yn parhau.

3:39 p.m.

Gan mai hyd ddiwedd y flwyddyn y bydd yr argyfwng ar ei waethaf, mynnwn fod y cynllun difa lloi yn dod i rym o 1 Hydref hyd ddiwedd Rhagfyr.

Mae hen famogiaid yn broblem hefyd, gan nad oes marchnad iddynt bellach. Nid oes pris ar gyfer yr anifail nac ar gyfer y crwyn gan fod y farchnad yn Rwsia wedi ei dileu. Golyga hyn fod y ffermwyr yn anfon yr hen ddefaid i'r farchnad heb gael arian amdanynt. Y broblem yw bod nifer o ffermwyr yn eu cadw ar y fferm gan ddisgwyl i rywbeth ddigwydd. Mae hyn yn creu trafferth o ran porthiant yn ystod y gaeaf. Argyfwng tymor byr ydyw a dyna paham fod angen gweithredu cynllun difa hen famogiaid. Mae oddeutu 100,000 o'r anifeiliaid hyn yng Nghymru a byddai'n costio oddeutu £10 y pen i'w difa. Rhaid fyddai sicrhau bod y cig yn cael ei ddifa ac na fyddai ar gael ar y farchnad. Gwnaeth Peter Rogers a Geraint Davies y pwynt sylfaenol na fyddai dim arian yn mynd i bocedi'r ffermwyr o'r pris yr ydym yn ei argymhell ar gyfer y cynllun. Y cyfan y byddai'r ffermwyr yn ei wneud fyddai talu am y cynllun difa.

There are several specific reasons for our proposing these two schemes. Why only refer to these two schemes? Let us first look at the calf situation. One of the problems facing the calf sector is that it is from now until the end of the year that 40 per cent of calves born into dairy herds will be born. That is about 40,000 calves without any value in the market. Until the end of July there was a calf processing aid scheme in place, and we acknowledge that the Government has extended the scheme twice. However, as the scheme was not extended until the end of the year, the farmers are facing a crisis. The intention was that the markets that had been closed to the calves would be reopened at the end of the scheme. That has not happened and until the markets are reopened the farmers' problems will continue.

As the crisis will be at its worst between now and the end of the year, we demand that the calf culling scheme comes into operation from 1 October until the end of December.

Old ewes are also a problem as there is no longer a market for them. There is no price for the animal or for the sheepskin as the market in Russia no longer exists. This means that the farmers are sending the old ewes to the market without receiving any money for them. The problem is that many farmers are keeping them on the farm waiting for something to happen. This creates feeding difficulties over the winter. This is a short-term crisis and that is why an old ewe culling scheme needs to be introduced. There are about 100,000 of these animals in Wales and it would cost approximately £10 per head to cull them. We would have to ensure that the meat was destroyed and would not be available on the market. Peter Rogers and Geraint Davies have made the basic point that no money would be going into the farmers' pockets out of the price that we are recommending for the scheme. The only thing the farmers would do would be to pay for the culling scheme.

Dyna paham yr ydym wedi mynnu fod y ddau gynnig penodol hyn yn dod gerbron y Cynulliad. Yn ychwanegol at y problemau tymor byr gyda'r mamogiaid a'r lloi, mae rhesymau eraill paham y cyflwynasom y cynigion hyn. Gwyddom am broblemau BSE, gwerth uchel y bunt a'r rheolau ynglyn â deunyddiau risg penodol. Rhaid inni dderbyn fod yna broblemau dybryd. A gaf i gyfeirio at rai sylwadau a wnaed yng nghyd-destun y drafodaeth hon? Mae rhai yn amau a ddylem roi arian tymor byr i'r sector amaethyddol, gan ofyn beth sydd yn mynd i ddioddef os tynnwn arian o'r gyllideb amaethyddol neu o unrhyw gyllideb arall yn y Cynulliad. Nid oes awgrym y byddai arian ar gyfer y ddau gynllun hyn yn gorfod dod o gyllideb a fyddai'n golygu na fyddai arian i ysgolion neu ysbytai. Symiau cymharol fach yn unig sydd eu hangen i ariannu'r ddau gynllun a chynorthwyo amaethwyr mewn cyfnod o argyfwng. Pe byddai'r Cynulliad—a byddwn yn galw am hyn os nad yw Llundain yn gweithredu—yn mabwysiadu'r cynllun cymorth prosesu lloi byddai'r gost oddeutu £800,000. Onid ydyw'r Cynulliad yn fodlon ymateb i'r argyfwng gwaethaf i wynebu'r diwydiant amaethyddol ers y tridegau drwy neilltuo £800,000 i ddiogelu'r ffermwyr dros y gaef? Imi, mae'r peth yn siarad drosto'i hunan.

Mae'n bwysig ein bod yn pwysu mwyfwy ar Nick Brown a'r Llywodraeth yn Llundain i sicrhau eu bod yn cyflwyno cynllun difa hen famogiaid a chynllun cymorth prosesu lloi o gyllid y Trysorlys ar unwaith. Dyna ein cyfrifoldeb ni. Mae hwn yn argyfwng, a dylai'r Trysorlys fod yn fodlon ymateb iddo.

Gobeithiwn y bydd y trafodaethau hynny'n mynd yn eu blaenau ac y byddant yn llwyddiannus. Ond mae'n rhaid inni wneud hyn yn glir: os nad yw'r Llywodraeth yn Llundain yn fodlon symud ar y cynllun cymorth prosesu lloi, mae'n rhaid i'r Cynulliad gymryd y cyfrifoldeb. Wrth dderbyn ein cynnig, byddai'r Cynulliad yn ymrwymo i symud ymlaen i sicrhau cynllun cenedlaethol i Gymru. Byddai hynny'n dangos fod y Cynulliad yn fodlon gweithredu ar sail Cymru yn unig. Byddai'n neges

That is why we have insisted that these two specific proposals should come before the Assembly. In addition to the short-term problems with the ewes and the calves, there are other reasons why we tabled these proposals. We know about the BSE problems, the high value of the pound and the rules about specified risk material. We must accept that there are major problems. May I refer to some comments that have been made in the context of this discussion? Some people doubt whether we should be giving short-term funding to the agricultural sector, asking what will suffer if we deduct money from the agricultural budget or any other budget in the Assembly. There is no suggestion that the money for these two schemes would have to come from a budget that would mean that there would not be any money for schools and hospitals. Only comparatively small sums are required to fund the two schemes and assist farmers in a period of crisis. If the Assembly—and we will be calling for this unless London acts—were to adopt the calf processing aid scheme it would cost around £800,000. Is this Assembly not willing to respond to the worst crisis facing the agricultural industry since the thirties by allocating £800,000 to ensure that the farmers are safe over the winter? To me, the facts speak for themselves.

It is important that we put further pressure on Nick Brown and the Government in London to ensure that they introduce an old ewe culling scheme and a calf processing aid scheme from the Treasury budget immediately. That is our responsibility. This is a crisis and the Treasury should be willing to respond to it.

We hope that those discussions will go ahead and that they will be successful. But we must make this clear: if the London Government is not willing to move on the calf processing aid scheme, the Assembly must take the responsibility. In adopting our motion, the Assembly would commit itself to proceeding to secure a national scheme for Wales. That would show that the Assembly is willing to act on a Wales-only basis. It would be an important message not only to the agricultural industry, but to the people of

bwysig nid yn unig i'r diwydiant amaethyddol, ond i bobl Cymru yn gyffredinol. Byddai'n dangos bod y Cynulliad yn fodlon symud ar y mater hwn.

Hoffwn gyfeirio at welliant y Democratiaid Rhyddfrydol. Mae ein cynnig ni yn ymrwmo'r Cynulliad i roi pwysau ar Lundain i gyllido'r ddau gynllun—y cynllun difa mamogiaid a'r cynllun cymorth prosesu lloi. Fodd bynnag, os na fydd Llundain yn symud, byddwn yn cyllido'r cynllun lloi ar gost o £800,000.

Gadewch inni wneud hyn yn hollol glir. Byddem yn dymuno gweithredu'r cynllun arall yn fuan hefyd. Nid oes amheuaeth am hynny. Fodd bynnag, mae rhesymau ymarferol pam na allwn dderbyn gwelliant Mick Bates. Yn anffodus, mae ef yn gofyn i'r Cynulliad ymrwmo i weithredu'r ddau gynllun o 1 Hydref ymlaen. Nid yw hynny'n bosibl, ac mae rhesymau cwbl ymarferol dros hynny. Mae'r cynllun cymorth prosesu lloi mewn bodolaeth ar hyn o bryd. Y cyfan y byddai'n rhaid i'r Cynulliad a Llywodraeth yr Alban a Gogledd Iwerddon ei wneud fyddai cydio yn y cynllun hwnnw a chael cytundeb y Llywodraeth yn Llundain a'r Undeb Ewropeaidd i'w weithredu. Mae'r drefn yn ei lle. Y cyfan sydd angen inni ei wneud yw cael cytundeb.

Mae'r cynllun arall yn newydd. Mae llawer mwy o gylchoedd i neidio drwydynt er mwyn bod yn llwyddiannus. Rhaid inni fod yn ymarferol. Rhaid inni ymrwmo'r Cynulliad i wneud yr hyn sydd yn bosibl o fewn yr amserlen. Dywedaf hyn wrth Mick Bates a'r Democratiaid Rhyddfrydol: os na fydd Llundain yn fodlon gweithredu'r cynllun, bydd rhaid i'r mater ddod yn ôl i'r Cynulliad i gael ei ystyried.

Hoffwn ei gwneud yn berffaith glir fod problemau ynghlwm wrth y cynllun. Mae angen bod yn sicr bod modd ei blismona'n effeithiol. Mae modd plismona'r cynllun lloi oherwydd bod yr anifeiliaid yn cael eu tagio. Nid yw'n bosibl gwneud yr un peth gyda'r mamogiaid. Mae problemau ymarferol. Gofynnaf i'r Democratiaid Rhyddfrydol, os ydynt yn derbyn yr ymateb hwn, i dynnu eu

Wales generally. It would show that the Assembly is willing to move on this matter.

I wish to refer to the Liberal Democrats' amendment. Our motion commits the Assembly to put pressure on London to fund both schemes—the cull ewe scheme and the calf processing aid scheme. However, if London does not move, we will fund the calf scheme at a cost of £800,000.

Let us make this quite clear. We would also wish to implement the other scheme soon. There is no doubt about that. However, there are practical reasons why we cannot accept Mick Bates's amendment. Unfortunately, he is asking the Assembly to commit itself to implementing both schemes from 1 October onwards. That is not possible, and there are totally practical reasons for that. The calf processing aid scheme is in existence at the moment. All the Assembly and the Scotland and Northern Ireland Governments would have to do is pick up that scheme and get the agreement of the London Government and the European Union to implement it. The system is in place. All we need to do is get agreement.

The other scheme is new. There are many more hoops to jump through to be successful. We must be practical. We must commit the Assembly to do what is possible within the timetable. I say this to Mick Bates and the Liberal Democrats: if London is unwilling to implement the scheme, the matter will have to come back to the Assembly to be considered.

I would like to make it perfectly clear that there are problems with the scheme. There is a need to be certain that it is possible to police it effectively. It is possible to police the calf scheme because the animals are tagged. It is not possible to do the same with the ewes. There are practical problems. I ask the Liberal Democrats, if they accept this response, to withdraw their amendment. The

gwelliant yn ôl. Yr unig addewid y gallwn ei roi iddynt yw y byddwn, fel plaid, yn fodlon dod yn ôl at y cynllun os na fydd Llundain yn symud. Yn sicr, byddai'n anodd inni dderbyn eu gwelliant heddiw.

Glyn Davies: You know from my contributions yesterday that we support the two schemes. However, do you feel that these two schemes are sufficient to deal with a short-term crisis? Are you prepared to link your call for the calf processing aid scheme with a demand to create a veal export market in Britain? That is a key issue. You are talking only about the short term for this year. To deal with the problem over any length of time, we must also have veal processing in Britain.

3:49 p.m.

Ieuan Wyn Jones: We are united on that and I am trying to make the case for the motion. It is crucial that we create a home veal market because its development will provide the industry with clear opportunities. However, we must address a host of other matters, such as the long-term problems afflicting the industry. In this debate we are addressing the short-term problems. I do not suggest that the adoption of this motion will solve the underlying problems facing the industry. We will have to return to them again and again and work hard to resolve them.

Ar hyn o bryd, felly, mae'r siarad yn gorfod dod i ben. Gofynnwn i'r Cynulliad dderbyn y cynnig hwn yn unfrydol a symud ymlaen i weithredu'r cynllun difa lloi os bydd Llundain yn gwrthod symud ar hyn. Gofynnaf ichi gefnogi'r cynnig.

Mick Bates: I propose the following amendment. After 'in the absence of' delete to the end and replace with

UK-wide calf processing and ewe disposal schemes and Assembly resolves to introduce Wales-only schemes to operate from 1 October to 31 December 1999.

only pledge we can give them is that we, as a party, will be willing to return to this scheme if London does not move. Certainly, it would be difficult for us to accept their amendment today.

Glyn Davies: Yr ydych yn gwybod yn sgîl fy nghyfraniadau ddoe ein bod yn cefnogi'r ddau gynllun. Fodd bynnag, ydych chi'n teimlo fod y ddau gynllun hyn yn ddigonol i ddelio ag argyfwng tymor byr? Ydych chi'n barod i gysylltu'ch galwad am y cynllun cymorth prosesu lloi gyda galwad i greu marchnad allforio cig llo ym Mhrydain? Mae hynny'n fater allweddol. Dim ond am y tymor byr eleni yr ydych chi'n sôn. I ddelio â'r broblem dros unrhyw hyd o amser, rhaid inni hefyd gael prosesu cig llo ym Mhrydain.

Ieuan Wyn Jones: Yr ydym yn gytûn ar hynny ac yr wyf yn ceisio gwneud yr achos dros y cynnig. Mae'n holl bwysig ein bod yn creu marchnad gig llo gartref gan y bydd datblygu hynny'n darparu cyfleoedd clir i'r diwydiant. Fodd bynnag, mae'n rhaid inni ddelio â llu o faterion eraill, fel y problemau tymor hir sydd yn effeithio ar y diwydiant. Yn y ddatl hon, yr ydym yn edrych ar y problemau tymor byr. Nid wyf yn awgrymu y bydd derbyn y cynnig hwn yn datrys y problemau sylfaenol sydd yn wynebu'r diwydiant. Bydd yn rhaid inni ddod yn ôl atynt dro ar ôl tro a gweithio'n galed i'w datrys.

At present, therefore, the talking must stop. We ask the Assembly to accept this motion unanimously and move forward to implement the calf cull scheme if London refuses to move on it. I ask you to support the motion.

Mick Bates: Cynigiau y gwelliant canlynol. Ar ôl 'yn absenoldeb' dileu at y diwedd a rhoi yn ei le

cynlluniau prosesu lloi a lladd mamogiaid ar gyfer y DU yn gyfan, mae'r Cynulliad yn penderfynu cyflwyno cynllun ar gyfer Cymru'n unig a fydd yn gweithredu o 1 Hydref hyd 31 Rhagfyr 1999.

Yesterday, we had great eloquence from a farmer and Member for Anglesey who presented the farmers' plea for commitment from this Assembly. He offered a new positive attitude towards Welsh agriculture, which is such a part of our diverse cultural heritage. This amendment is part of that strategy to give new direction to Welsh agriculture, currently on its knees and about to put even greater strain on support services like social services, health and education. Ieuan is right, we must provide assistance now to the dairy and sheep sector in Wales. If not, many people in the hills will suffer this winter.

We must emphasise that our amendment signifies support for Welsh sheep farming as well as the Welsh dairy industry. We must protect the position of Welsh farmers. I was surprised by that omission, because farmers with great responsibility recognise the nature of the situation. Change is necessary but without short-term help, particularly for the sheep sector in Wales, there will be little point in long-term strategies.

This amendment provides an opportunity to make that all-important step and commitment. As Ieuan pointed out, on the calf side it is a relatively small price of £800,000; the small step I propose is £1 million. This support would help significantly to lay the ghost of the 'talking shop Assembly'. Above all, it will demonstrate that it is prepared to defend Welsh interests.

Most of you will know that the sheep crisis was the result of Government legislation that killed the market—British bureaucracy gone mad. The market was buoyant, but it gave the sheep sector an unsaleable product against good advice from sane politicians, the farming unions and experts from the consultative side of the industry. You cannot simply throw away 100,000 sheep, like out-of-date products on a shop shelf. Some farmers kept the product in the hope that the market would improve. However, we now

Ddoe, cawsom huodledd mawr gan ffermwr ac Aelod dros Ynys Môn wrth gyflwyno ple'r ffermwyr am ymrwymiad gan y Cynulliad hwn. Cynigiwyd agwedd gadarnhaol newydd tuag at amaethyddiaeth Cymru, sydd yn gymaint rhan o'n hetifeddiaeth ddiwylliannol amrywiol. Mae'r gwelliant hwn yn rhan o'r strategaeth honno i roi cyfeiriad newydd i amaethyddiaeth Cymru, sydd ar ei gliniau ar hyn o bryd ac ar fin rhoi mwy fyth o straen ar wasanaethau cefnogol fel gwasanaethau cymdeithasol, iechyd ac addysg. Mae Ieuan yn llygad ei le, mae'n rhaid inni roi cymorth yn awr i'r sector godro a defaid yng Nghymru. Os na wnawn, bydd llawer o drigolion y bryniau'n dioddef y gaeaf hwn.

Rhaid inni bwysleisio fod ein gwelliant yn arwyddo cefnogaeth i ffermio defaid yng Nghymru yn ogystal â diwydiant llaeth Cymru. Rhaid inni ddiogelu safle ffermwyr Cymru. Fe'm synnwyd fod hynny wedi'i adael allan, oherwydd mae ffermwyr â chyfrifoldeb mawr yn sylweddoli natur y sefyllfa. Mae'n rhaid wrth newid, ond heb gymorth tymor byr, yn enwedig i'r sector defaid yng Nghymru, ni fydd fawr o bwynt i strategaethau tymor hir.

Y mae'r gwelliant hwn yn darparu cyfle i wneud y cam a'r ymrwymiad holl bwysig hwnnw. Fel y nododd Ieuan, ar ochr y lloï pris cymharol fach o £800,000 ydyw; £1 miliwn yw pris y cam bach a gynigias i. Byddai'r gefnogaeth hon yn help sylweddol i roi taw ar y syniad mai siop siarad yw'r Cynulliad. Yn anad dim, bydd yn dangos ei fod yn barod i amddiffyn buddiannau Cymreig.

Bydd y rhan fwyaf ohonoch yn gwybod fod yr argyfwng defaid yn ganlyniad deddfwriaeth gan y Llywodraeth a laddodd y farchnad—biwrocratiaeth Brydeinig wedi mynd dros ben llestri. Yr oedd y farchnad yn fywiog, ond rhoddwyd cynnyrch anwerthadwy i'r sector defaid, yn erbyn cyngor da gan wleidyddion call, yr undebau amaethyddol ac arbenigwyr ar ochr ymgynghorol y diwydiant. Ni allwch daflu 100,000 o ddefaid i ffwrdd, fel nwyddau sydd wedi mynd yn hen ar silff siop.

know that was not the case because things deteriorated. How can we help Welsh sheep farms? We have to provide a safety net in this resolution today. If, for one reason or another, the UK Government does not see fit to implement the schemes, then we are only half way there to saying, 'Yes, this Assembly will help Welsh agriculture in the dairy and sheep sectors'.

We need to help by providing the sheep disposal scheme. Ieuan has called into question certain aspects of implementing the scheme and when I visit Welshpool market, almost every week, most farmers tell me how to do it. Why not ask the greatest authority in Britain, the Meat and Livestock Commission (MLC), how to implement the ewe disposal scheme? As some of you know, the MLC drew up such a scheme four weeks ago. Its first principle is to ensure no pain to the farmer and its second is to avoid any implications of fraud in order to show that we can have a system in Wales, as in all sheep farming areas, that provides sheep traceability.

You have all heard farmers and small businessmen whingeing about bureaucracy. For once it works to our advantage. On each farm, along with the medicines' book and the movement book, you will find a flock record book, where every farmer has to record the number of sheep on his farm. When he takes those sheep to market he is always provided with a receipt of sale. Equally, we now have disposal schemes that also provide a receipt. It is possible therefore to provide a checking system, such as the EU does, for every sheep and cattle scheme. We have the civil service to implement, monitor and check this scheme, so do not think for one moment that you cannot implement such a scheme in Wales.

In a European context, I know that the sheep

Cadwodd rhai ffermwyr y cynnyrch yn y gobaith y byddai'r farchnad yn gwella. Fodd bynnag, gwyddom bellach nad dyna a ddigwyddodd ac mai gwaethygu wnaeth pethau. Sut allwn ni helpu ffermydd defaid Cymru? Mae'n rhaid inni ddarparu rhwyd diogelwch yn y penderfyniad hwn heddiw. Os, am ryw reswm neu'i gilydd, na fydd Llywodraeth y DU yn gweld y ffordd yn glir i weithredu'r cynlluniau, yna nid ydym ond hanner y ffordd tuag at ddweud 'Gwnaiff, fe wnaiff y Cynulliad hwn helpu amaethyddiaeth Cymru yn y sectorau llaeth a defaid'.

Mae angen inni helpu drwy ddarparu'r cynllun difa defaid. Mae Ieuan wedi codi cwestiwn ynghylch rhai agweddau ar weithredu'r cynllun, a phan af i farchnad y Trallwng, bron bob wythnos, bydd y rhan fwyaf o ffermwyr yn dweud wrthyf sut i wneud hynny. Pam na ofynnir i'r awdurdod mwyaf ym Mhrydain, sef y Comisiwn Cig a Da Byw (MLC), sut i weithredu'r cynllun difa mamogiaid? Fel y gwyr rhai ohonoch, fe luniodd yr MLC gynllun o'r fath bedair wythnos yn ôl. Ei egwyddor gyntaf yw sicrhau nad oes dim poen i'r ffermwr a'i ail egwyddor yw osgoi unrhyw ensyniadau o dwyll er mwyn dangos y gallwn ni gael system yng Nghymru, fel ym mhob ardal arall lle ffermir defaid, sydd yn sicrhau y gellir olrhain defaid.

Yr ydych i gyd wedi clywed ffermwyr a gwyr busnes bach yn achwyn am fiwrocratiaeth. Am unwaith, mae'n gweithio er mantais inni. Ar bob fferm, ynghyd â'r llyfr moddion a'r llyfr symudiadau, fe welwch lyfr cofnodi diadell, lle mae'n rhaid i bob ffermwr gofnodi'r nifer o ddefaid ar ei fferm. Pan aiff â'r defaid hynny i'r farchnad bydd bob amser yn cael derbynneb gwerthiant. Yn yr un modd, mae gennym bellach gynlluniau difa sydd hefyd yn darparu derbynneb. Felly y mae'n bosibl darparu system wirio, fel y gwna'r UE, ar gyfer pob cynllun defaid a gwartheg. Y mae gennym y gwasanaeth sifil i weithredu, i fonitro ac i wirio'r cynllun hwn, felly peidiwch â meddwl am funud na allwch chi weithredu cynllun o'r fath yng Nghymru.

Yng nghyd-destun Ewrop, gwn fod y

committee, which meets on 24 September, accept the principle of a disposal scheme because it realises the welfare and environmental implications of retaining 100,000 unwanted sheep on the hills of Wales. Europe will support this proposal but I will not hide the fact that the state aids section does not like it. Why cannot we take up the challenge of fighting for our Welsh identity and say that we will have our own unique scheme in Wales, as this amendment suggests? With regard to fraud, there have been suggestions that Welsh farmers will accept sheep from other hill areas in Great Britain. No hill farmer in the north of England or Scotland is about to put 50 sheep on a trailer and spend £100 of diesel to dump them in Wales. It is not going to happen. The scheme itself is a viable one and can be implemented reliably in Wales alone.

The target ewe is the small hill ewe and not the larger animals, for which exists quite a reasonable trade. Some members have talked about the cost and I share the logic that Ieuan put forward. We must be able to make a stand for uniqueness of support for our agricultural system in Wales. We need to ensure that the possible £800,000 for the calf scheme and the possible £1 million for a ewe disposal scheme are forthcoming. I share Ieuan's belief, or hope, that Nick Brown and the UK Government will come up with the money. I hope they will and they should because they are building up a big treasure chest. Public expenditure is at its lowest for 40 years, below 40 per cent. They could be cash rich in Westminster. There is a need for our administration to prove its commitment to Welsh agriculture.

3:59 p.m.

There are funds available in Westminster. Also, I am certain that every one of us here has an opportunity to create what both Ieuan and I share, a vision for the future of Welsh agriculture. There is no doubt that farmers understand the need for change. We must accept this amendment today to persuade people of our commitment to the Welsh sheep industry, otherwise it is stranded. I am a practical person and, as a farmer, our farm

pwylgor defaid, sydd yn cyfarfod ar 24 Medi, yn derbyn yr egwyddor o gynllun difa oherwydd eu bod yn sylweddoli goblygiadau cadw 100,000 o ddefaid di-eisiau ar fryniau Cymru o safbwynt lles a'r amgylchedd. Fe wnaiff Ewrop gefnogi'r cynnig hwn ond ni wnaiff guddio'r ffaith nad yw adran gymorth y wladwriaeth yn hoff ohono. Pam na allwn ni dderbyn yr her o ymladd dros ein hunaniaeth fel Cymry a dweud y cawn ein cynllun unigryw ein hunain yng Nghymru, fel yr awgryma'r gwelliant hwn? O ran twyll, awgrymwyd y byddai ffermwyr Cymru'n derbyn defaid o ardaloedd bryniog eraill ym Mhrydain. Nid oes unrhyw ffermwr mynydd yng ngogledd Lloegr neu'r Alban yn mynd i roi 50 o ddefaid ar dreler a gwario £100 ar ddisel i'w cario i Gymru. Nid yw'n mynd i ddigwydd. Mae'r cynllun ei hun yn un ymarferol a gellir ei weithredu'n ddibynadwy yng Nghymru'n unig.

Y famog a dargedir yw'r famog fynyddig fach ac nid yr anifeiliaid mwy, y mae marchnad eithaf rhesymol ar eu cyfer. Soniodd rhai aelodau am y gost ac yr wyf yn rhannu rhesymeg Ieuan. Rhaid inni allu gwneud safiad cefnogol unigryw dros ein system amaethyddol yng Nghymru. Mae angen inni sicrhau y bydd yr £800,000 posibl ar gyfer y cynllun lloi a'r £1 miliwn posibl ar gyfer cynllun difa mamogiaid ar gael. Yr wyf yn rhannu cred Ieuan, neu ei obaith, y bydd Nick Brown a Llywodraeth y DU yn talu'r arian. Gobeithiaf y gwnânt ac fe ddylent oherwydd y maent yn cronni cist drysor sylweddol. Mae gwariant cyhoeddus ar ei isaf ers 40 mlynedd, dan 40 y cant. Gallent fod yn ariannol gyfoethog yn San Steffan. Mae angen i'n gweinyddiaeth brofi ei hymrwymiad i amaethyddiaeth Cymru.

Y mae cyllid ar gael yn San Steffan. Yr wyf yn sicr hefyd fod gan bob un ohonom yma gyfle i greu'r hyn a rennir gan Ieuan a mi, sef gweledigaeth ar gyfer dyfodol amaethyddiaeth Cymru. Nid oes amheuaeth nad yw'r ffermwyr yn deall yr angen am newid. Rhaid inni dderbyn y gwelliant hwn heddiw er mwyn darbwyllo pobl o'n hymrwymiad i ddiwydiant defaid Cymru, neu fel arall fe fydd ar ei ben ei hun. Yr wyf yn

exists like many others by income off-farm. It is a way of life and I dare say many of you today are proud to boast of close relatives or family members who are farmers.

The diversity of our culture is at stake and we have to show a commitment to Welsh agriculture. This amendment will bring equality within the agricultural industry. It will support the Welsh sheep industry. Our amendment completes the motion and I hope you all support it.

William Graham: I am the owner of flock number T55 and breed pedigree Suffolk sheep. I have not been unaffected by the crisis of the last few years. Having been the subject of some erroneous press comments in the summer, perhaps I can comment on what the press have been saying about agriculture.

We read in the press that farmers have over-produced but we know that successive governments since the war have encouraged such production. If there is such over-production, why do we have such massive imports from abroad? This is often with zero hygiene and unnecessary and unmonitored cruelty. Some of our European partners leapt on to these problems, even finding more devices to prevent our trade.

One wonders if our export markets will ever recover. Of the £1,000 of tax pounds paid to the European Union only £212 returned to the United Kingdom. One might speculate that this excessive balance is used purely for bureaucracy, red tape and the burdens multiplying throughout our agricultural industry.

The products we provide in Wales are delicious and safe. The Conservatives will support Mick Bates's amendment. We are concerned that Plaid are voting against Mick Bates's amendment as the price of Labour's support for their particular motion. We wonder how Plaid come to their particular

ddyn ymarferol ac, fel ffermwr, mae ein fferm yn dibynnu fel llawer o rai eraill ar incwm oddi ar y fferm. Mae'n ffordd o fyw ac mae'n siwr fod llawer ohonoch chi heddiw yn falch o frolio bod gennych berthnasau agos neu aelodau o'r teulu sydd yn ffermio.

Mae amrywiaeth ein diwylliant yn y fantol ac mae'n rhaid inni ddangos ymrwymiad i amaethyddiaeth Cymru. Bydd y gwelliant hwn yn sicrhau cydraddoldeb yn y diwydiant amaethyddol. Bydd yn cefnogi diwydiant defaid Cymru. Mae ein gwelliant yn cwblhau'r cynnig ac yr wyf yn gobeithio y gwna bawb ei gefnogi.

William Graham: Yr wyf yn berchen ar ddiadell rhif T55 ac yn magu defaid Suffolk o dras. Effeithiwyd arnaf gan argyfwng y blynyddoedd diwethaf. Gan imi fod yn destun rhai sylwadau cyfeiliornus yn yr haf, efallai y gallaf roi sylwadau ar yr hyn a ddywedwyd yn y wasg am amaethyddiaeth.

Darllenwn yn y wasg fod ffermwyr wedi gorgynhyrchu, ond gwyddom fod llywodraeth ar ôl llywodraeth ers y rhyfel wedi annog cynhyrchu o'r fath. Os oes cymaint o orgynhyrchu, pam ein bod yn mewnfario cymaint o dramor? Mae hyn yn aml heb ddim hylendid a chyda chreulondeb diangen a direolaeth. Neidiodd rhai o'nartneriaid Ewropeaidd ar y problemau hyn, gan hyd yn oed ddarganfod mwy o ddyfeisiau i rwystro'n masnach.

Tybed a wna ein marchnadoedd allforio fyth ddod dros hyn? O'r £1,000 o bunnoedd treth a dalwyd i'r Undeb Ewropeaidd dim ond £212 a ddaeth yn ôl i'r Deyrnas Unedig. Gellid tybio y defnyddir y gweddill yn llwyr ar fiwrocratiaeth, tâp coch a'r beichiau sydd yn lluosu drwy'n diwydiant amaethyddol.

Mae'n cynnyrch ni yng Nghymru'n flasus dros ben ac yn ddiogel. Bydd y Ceidwadwyr yn cefnogi gwelliant Mick Bates. Yr ydym yn bryderus fod y Blaid yn pleidleisio yn erbyn gwelliant Mick Bates er mwyn talu am gefnogaeth Llafur i'w cynnig. Mae'n rhaid gofyn sut y mae'r Blaid yn dod at eu

ideas.

Perhaps they might consult the entrails like some haruspex of old—*ymysgaroedd*, or perhaps consult the breastplate like the ancient Israelites, the Urim and Thummin. No, we find their declaration in a newspaper long before the Assembly meets. Possibly in *The Times* next to the court and social or in *The Daily Telegraph*, that well-known broad sheet from Conservative central office which is perhaps the best selling broad sheet in the country or the *The Sun* where, I am told, there are interesting pictures but no text. No, we find the voting intentions of Plaid Cymru in the *Western Mail* long before the Assembly meets. When they receive their orders from the Labour Party it is not done with finesse. The First Secretary and the Business Secretary do not present compliments and request the attendance of the Plaid Cymru secretaries to meetings of mutual advantage. No, it is come up the back stairs and get your orders. They will probably have a motion in their conference next week about how they are going to support the Labour minority administration. We are most concerned that there has been chopping and changing on so many issues. The real issue is for this Assembly to support the farmers in Wales.

Karen Sinclair: While fully supporting the motion proposed by Plaid Cymru today, I have been appalled over the last few weeks by the cheap political exploitation of the horrendous problems facing the farming community in Wales. The farming industry needs a steady hand and not short-term populist reaction such as that seen in the Chamber this afternoon and from the previous speaker. The problems in farming have not just appeared. We are now seeing the culmination of a plethora of problems that have developed over a number of years. The BSE crisis not only decimated the cattle industry, it totally unbalanced farm production. As a result, farmers chose sheep farming as an alternative. The balance of production was skewed completely by the increase in sheep production without collective thought by the industry as to the

syniadau arbennig nhw.

Tybed a ydynt yn ymgynghori â'r ymysgaroedd fel rhyw ddewiniaid o'r oes a fu, neu efallai'n ymgynghori â'r llurig fel yr hen Israeliaid, yr Wrim a'r Twmin. Na, gwelwn eu datganiad mewn papur newydd ymhell cyn i'r Cynulliad gwrdd. O bosibl yn y *Times* nesaf at y golofn llys a chymdeithasol, neu yn y *Daily Telegraph*, y papur trwm adnabyddus hwnnw o swyddfa ganolog y Ceidwadwyr sydd o bosibl y papur trwm sydd yn gwerthu fwyaf yn y wlad, neu yn y *Sun*, lle dywedir wrthyf fod lluniau diddorol ond dim ysgrifen. Na, gwelwn fwradau pleidleisio Plaid Cymru yn y *Western Mail* ymhell cyn i'r Cynulliad gwrdd. Pan dderbyniant eu gorchmynion gan y Blaid Lafur ni wneir hynny ag urddas. Ni fydd y Prif Ysgrifennydd a'r Trefnydd yn cyflwyno cyfarchion ac yn erfyn presenoldeb ysgrifenyddion Plaid Cymru mewn cyfarfodydd o fantais gyffredin. Na, mae'n fater o fynd i fyny'r grisiau cefn i dderbyn eu gorchmynion. Mae'n debyg y bydd ganddynt gynnig yn eu cynhadledd yr wythnos nesaf ar sut y maent yn bwriadu cefnogi'r weinyddiaeth leiafrifol Lafur. Yr ydym yn bryderus iawn am yr anwadalwch a fu ar gynifer o faterion. Y gwir fater yma yw i'r Cynulliad hwn gefnogi'r ffermwyr yng Nghymru.

Karen Sinclair: Er fy mod yn llwyr gefnogi'r cynnig a wneir gan Blaid Cymru heddiw, yr wyf wedi ffeiddio dros yr ychydig wythnosau diwethaf at y modd y ceisiwyd cael elw gwleidyddol rhad ar draul y problemau echrydus sydd yn wynebu'r gymuned amaethyddol yng Nghymru. Llaw gadarn sydd ei hangen ar y diwydiant ffermio, nid adwaith tymor byr sydd yn ceisio ennill poblogrwydd, fel hynny a welwyd yn y Siambr y prynhawn yma a chan y siaradwr diwethaf. Nid newydd ymddangos y mae'r problemau ym myd ffermio. Yr ydym yn awr yn gweld anterth cymysgedd o broblemau a fu'n datblygu dros nifer o flynyddoedd. Fe wnaeth yr argyfwng BSE nid yn unig ddegymu'r diwydiant gwartheg, ond hefyd fe daflodd gynhyrchiant ffermydd oddi ar ei echel yn llwyr. O ganlyniad, dewisodd ffermwyr ffermio defaid yn lle.

long-term consequences of this. There is no doubt that the health controls introduced in the aftermath of the BSE crisis compounded the problem.

However, that is only one problem that has impacted on the sheep industry. We also have to acknowledge that while the strong pound has had obvious advantages to certain sectors of the economy, it has not been helpful to primary production. The swapping between livestock on farms delayed the present crisis and delayed the need to analyse what was going wrong. It is cruel to say that this is entirely Christine Gwyther's fault. The agreed overall plan for production has resulted in crisis. The outcome is tantamount to financial melt-down in the industry.

We must not react hastily. We must be realistic in Wales especially with regard to the ewes. We have to think carefully and ensure that we deliver. It is essential that the whole industry is put on a long-term course that will bring stability and confidence. It is imperative to analyse the problem carefully and create long-term solutions. To do this we must ensure that we hold on to the initiatives put in place to ensure long-term success. The Agri-food partnership, which includes the dairy sector, the meat sector and the organic sector, is a fine example of joint working with overall vision as its force. Tir Gofal, although in its early stages, is also a long-term initiative. Access to information and advice for farmers on sustainable diversification is essential. The industry must adjust to the markets. There is no point in saying that the market *was* there. If the market is not there now, it is imperative to take a fresh look at it to be able to produce for it.

Cynog Dafis: Cyn imi barhau â'm sylwadau cyffredinol, hoffwn ymateb i gyhuddiad William Graham fod bargaen wedi'i tharo

Gogwyddwyd y fantol gynhyrchu yn llwyr gan y cynnydd mewn cynhyrchu defaid heb i'r diwydiant yn ei gyfanrwydd feddwl am ganlyniadau hyn yn y tymor hir. Nid oes unrhyw amheuaeth na fu i'r mesurau rheoli iechyd a gyflwynwyd yn sgîl yr argyfwng BSE ychwanegu at y broblem.

Fodd bynnag, dim ond un broblem sydd wedi effeithio ar y diwydiant defaid yw honno. Mae'n rhaid inni gydnabod hefyd, er bod y bunt gref wedi rhoi manteision amlwg i rai sectorau o'r economi, nad yw wedi helpu'r sector cynhyrchu sylfaenol. Bu'r cyfnewid rhwng gwahanol dda byw ar ffermydd yn fodd i oedi'r argyfwng presennol a gohirio'r angen i ddadansoddi beth oedd yn mynd o'i le. Y mae'n greulon dweud mai bai Christine Gwyther yn gyfan gwbl yw hyn. Mae'r cynllun cyffredinol a gytunwyd ar gyfer cynhyrchu wedi arwain at argyfwng. Mae'r canlyniad yn gyfystyr â thoddiad ariannol yn y diwydiant.

Rhaid inni beidio ag adweithio'n rhy frysio. Rhaid inni fod yn realistig yng Nghymru, yn enwedig o safbwynt y mamogiaid. Rhaid inni feddwl yn ofalus a sicrhau ein bod yn gwneud yr hyn sydd ei angen. Mae'n hanfodol fod y diwydiant cyfan yn cael ei roi ar gwrs tymor hir a fydd yn rhoi sefydlogrwydd a hyder. Mae'n rheidrwydd dadansoddi'r broblem yn ofalus a chreu atebion tymor hir. I wneud hyn mae'n rhaid inni sicrhau y daliwn ein gafael ar y mentrau a sefydlwyd i sicrhau llwyddiant yn y tymor hir. Mae'r bartneriaeth Bwyd-amaeth, sydd yn cynnwys y sector llaeth, y sector cig a'r sector organig, yn enghraifft wych o gydweithio a yrrir gan weledigaeth gyffredin. Mae Tir Gofal, er mai megis cychwyn y mae, yn fenter hirdymor hefyd. Mae'n hanfodol i ffermwyr allu cael gwybodaeth a chynghor ar arallgyfeirio cynaliadwy. Rhaid i'r diwydiant ymaddasu i'r marchnadoedd. Nid oes pwynt mewn dweud yr *oedd* y farchnad yno. Os nad yw hi yno'n awr, mae'n hanfodol edrych o'r newydd arno er mwyn gallu cynhyrchu ar ei chyfer.

Cynog Dafis: Before I continue with my general comments, I would like to respond briefly to William Graham's accusation that

rhwng Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru ar y mater hwn. Hoffwn nodi nad oes unrhyw fargen wedi'i tharo. Ein cynnig ni yw hwn ac nid oes unrhyw un arall wedi gosod cynnig i'r un perwyl. Yr ydym yn gobeithio perswadio'r Cynulliad i gefnogi'r cynnig hwn. Mae'n gynnig ymarferol sydd o fewn pwerau'r Cynulliad. Gallai gael ei weithredu.

a bargain has been struck between Plaid Cymru and the Government of Wales on this matter. No deal has been made. This is our motion and no-one else has moved a motion to this effect. We hope to persuade the Assembly to support this motion. It is a practical motion which comes within the Assembly's powers. It could be implemented.

4:09 p.m.

Hoffwn wneud cyfraniad byr ar faterion sydd yn gysylltiedig â'r cynllun difa lloi a hoffwn ddweud rhywbeth ynglyn â'r diwydiant llaeth. Mae dyfodol Milk Marque yn fater pwysig ac yn berthnasol i'r cynnig hwn. Yr wyf yn siarad fel un sydd wedi cefnogi Milk Marque ar hyd y daith. Yr oeddwn yn cefnogi galwad Milk Marque i aros mewn bodolaeth fel cywaith gyda'r hawl i brosesu llaeth. Yr wyf yn cefnogi cais presennol y ffermwyr i gael Stephen Byers i wrthdroi ei benderfyniad ar hwnnw.

I would like to make a short contribution on matters associated with the calf disposal scheme and I would like to mention the dairy industry. The future of Milk Marque is important and is relevant to this motion. I speak as someone who has supported Milk Marque every step of the way. I supported Milk Marque's wish to remain in existence as a co-operative with the right to process milk. I support the farmers' current attempt to make Stephen Byers reverse his decision on that.

Yr wyf yn amheus ac yn bryderus ynglyn â chynllun diweddar Milk Marque i rannu Cymru yn ddwy ran a chydio'r ddwy ran gyda rhanbarthau Lloegr, fel rhyw fath o atodiad i'r rhanbarthau mawr yn Lloegr. Byddai hynny'n golygu bod deheudir Cymru yn dod yn rhan o ranbarth a fyddai'n ymestyn o Fae Ceredigion i Lundain a'r tu hwnt, hyd at arfordir dwyreiniol Lloegr. Mae yna beryglon mawr i ddiwydiant llaeth Cymru mewn trefniant fel hyn.

I am doubtful and concerned about Milk Marque's recent plan to split Wales in two and to join the two parts with regions of England, as a kind of appendage to England's large regions. This would mean that south Wales would become part of a region extending from Cardigan Bay to London and beyond, to the east coast of England. Such an arrangement poses great dangers to the Welsh dairy industry.

Mae'n gas gennyf y syniad fel Cymro ac fel cenedlaetholwr. Mae argymhelliad Milk Marque yn anwybyddu undod tiriogaethol a hunaniaeth Cymru ond mae rhesymau ymarferol sydd efallai'n bwysicach. Yn gyntaf, byddai'r syniad hwn yn gwneud llanastr o strategaeth fwyd Cymru a'r syniad o ddatblygu marchnad a chynhyrchion yn seiliedig ar fanteision mawr Cymru o ran ansawdd ac amgylchedd iach. Mae'r strategaeth honno yn elfen hanfodol yn y dyfodol llewyrchus a chynaliadwy yr ydym eisiau ei weld i'n hamaethyddiaeth a'n cefn gwlad.

As a Welshman and a nationalist, I hate the idea. Milk Marque's recommendation ignores Wales's territorial unity and identity but there are practical reasons, which are perhaps more important. First, this idea would make a mess of the Welsh food strategy and the idea of developing a market and products based on Wales's great advantages from the standpoint of quality and a healthy environment. That strategy is an integral part of the prosperous and sustainable future we want to see for our agriculture and rural areas.

Yn ail, ofnaf y bydd strategaeth y Milk

Secondly, I fear that the strategy of the new

Marque newydd yn seiliedig ar fuddiannau mwyafrif y cynhyrchwyr—cynhyrchwyr mawr dwyrain Lloegr—o ran natur y cynhyrchion a lleoliad y canolfannau prosesu. Gall y Milk Marque newydd lwyddo yn fasnachol ond y perygl yw y bydd yn llwyddo ar draul ein cynhyrchwyr ni.

Glyn Davies: Does Cynog Dafis agree with me that the break-up of Milk Marque is an inevitable consequence of Stephen Byers's report? After talking to him, my view is that there was no choice but for this to happen to Milk Marque. Does he agree that the Secretary for Agriculture and Rural Development should carry forward our opposition, which she agreed with verbally, by supporting the National Farmers Union's judicial review? Does he agree that she should carry it forward into real direct action—not just words—by showing the genuine opposition of this Assembly and not just using cheap opposition words that curry favour with the agriculture industry?

Cynog Dafis: Yr wyf yn cytuno â Glyn ynghylch yr angen i ddefnyddio pob dull a modd i wrthdroi penderfyniad afresymol Stephen Byers ar y mater hwn. Serch hynny, rhaid inni ystyried beth all ddigwydd os na lwyddir i wneud hynny. Yr wyf yn bryderus ynglyn â'r math o beth sydd yn cael ei ddisgrifio ar hyn o bryd.

Fel y dywedais, mae'n debyg y gall y Milk Marque newydd lwyddo yn fasnachol. Y perygl yw y bydd y llwyddiant ar draul ein cynhyrchwyr ni. Y senario hunllefus fyddai i ffermwyr Cymru fod ymhell oddi wrth y prif hufenfeydd lle byddai grym mawr y buddsoddi, ac yn gorfod cwrdd â chost cludo'r llaeth. Gallai effaith hynny fod yn drychinebus i'r holl ddiwydiant llaeth. Yr ydym wedi poeni ers blynyddoedd y gallai'r diwydiant cyfan gael ei sugno tua'r dwyrain.

Nid ymosodiad ar Milk Marque yw hwn o gwbl. Yr wyf yn wynebu realiti grym a buddiannau masnachol a'r ffordd y maent yn eu gweithio. Os ydych yn amau'r hyn yr wyf

Milk Marque will be based on the interests of the majority of the producers—the large producers of eastern England—as regards the nature of the products and the location of the processing centres. The new Milk Marque can succeed commercially but the danger is that it will succeed at the expense of our producers.

Glyn Davies: A ydyw Cynog Dafis yn cytuno â mi fod datgymalu Milk Marque yn ganlyniad anochel i adroddiad Stephen Byers? Fy marn i ar ôl siarad ag ef yw nad oedd dim dewis ond gadael i hyn ddigwydd i Milk Marque. A ydyw'n cytuno y dylai yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig barhau ein gwrthwynebiad, y cytunodd hi ag ef ar lafar, drwy gefnogi adolygiad barnwrol Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr? A ydyw'n cytuno y dylai hi droi'n gwrthwynebiad yn weithredu uniongyrchol gwirioneddol—nid geiriau yn unig—drwy ddangos gwrthwynebiad go-iawn y Cynulliad hwn ac nid dim ond defnyddio geiriau rhad o wrthwynebiad gwenieithus i'r diwydiant amaeth?

Cynog Dafis: I agree with Glyn about the need to use all means possible to overturn Stephen Byers's unreasonable decision on this matter. However, we must consider what will happen if we fail to do that. I am concerned about the kind of thing that is being described at present.

As I said, it is likely that the new Milk Marque can succeed commercially. The danger is that its success will be at the expense of our producers. The nightmare scenario would be that the farmers of Wales would be far from the main creameries where major investment would take place, and would have to cover the cost of transporting their milk. The effect could be disastrous for the whole dairy industry. Over the years we have been concerned that the whole industry could be drawn eastwards.

This is not in any way an attack on Milk Marque. I am simply facing the reality of commercial forces and interests and the way in which they work. If you doubt my

yn ei ddarogan, edrychwch ar brofiad y gorffennol. Edrychwch ar Dairy Crest yn benodol. Cywaith oedd Dairy Crest ac yn eiddo i ffermwyr Cymru a Lloegr. Yr oedd gynt yn rhan, i bob pwrpas, o'r hen Fwrdd Marchnata Llaeth. Bûm yn ymwneud â'r mater hwn dros y blynyddoedd.

Yn Felinfach, gwrthododd Dairy Crest â datblygu cynhyrchion newydd a chaewyd yr hufenfa er mwyn mynd â'r llaeth i hufenfeydd yn Lloegr. Bu'n rhaid i ffermwyr lleol ac eraill fentro eu cynilion i gyd i godi hufenfa gaws newydd. Buddsoddodd ffermwyr lleol i greu menter newydd. Oni bai am eu menter nhw, fyddai Milk Marque ddim yn Felinfach yng Ngheredigion heddiw.

Fe gofiwch Hendy-gwyn ar Daf. Yr oeddent hwythau yn gwrthod datblygu cynhyrchion newydd. Caewyd hufenfa ragorol iawn a gwrthododd Dairy Crest ei gwerthu i neb arall—mawr gywilydd arnynt. Byd caled yw'r byd masnachol. Yr oedd Dairy Crest yn amddiffyn ei fuddiannau masnachol ei hunan.

Arall yw anghenion Cymru. Mae arnom eisiau amrywiaeth o gynhyrchion, a'r pwyslais ar ychwanegu gwerth, yn cael eu marchnata fel cynnyrch Cymreig o ansawdd uchel ac o amgylchedd iach. Yr wyf yn siarad am sefydlu endid Cymreig yn y diwydiant llaeth, naill ai fel rhyw fath o gywaith neu go-op yn eiddo i ffermwyr Cymru neu ryw fath o fenter ar y cyd. Mae mwy nag un opsiwn ar gael yn y maes hwn. Nid yw'r dadleuon cyfarwydd yn erbyn hyn megis maint, problemau cludo o'r gogledd i'r de, y ffaith fod y cysylltiadau yn rhedeg o'r gorllewin i'r dwyrain—yn dal dwr yn fy marn i, heb sôn am ddal llaeth.

Fodd bynnag, yr wyf yn amau nad yw hwn yn brosiect uchelgeisiol. Mae'n brosiect heriol a chredaf fod llwyddo mewn rhywbeth fel hyn yn dyngedfennol. Ein hapêl ni, felly, yw i'r chwaraewyr allweddol yng Nghymru, Milk Marque—yr wyf am iddo fod yn rhan o'r drafodaeth—y cwmnïau cydweithredol yng Nghymru (mae rhai grymus i'w gael), yr Awdurdod Datblygu a'i adran fwyd, mudiadau'r ffermwyr, yr Ysgrifennydd Cynulliad dros Amaethyddiaeth a Datblygu

prophesy, look at past experiences. Look at Dairy Crest specifically. Dairy Crest was a co-operative owned by the farmers of Wales and England. It was formerly, to all intents and purposes, part of the old Milk Marketing Board. I was involved in this matter over the years.

In Felinfach, Dairy Crest refused to develop new products and the creamery was closed so that the milk could be taken to creameries in England. Local farmers and others had to risk all their savings to build a new cheese making plant. Local farmers invested to create a new venture. Without their entrepreneurship, Milk Marque would not be in Felinfach in Ceredigion today.

You will remember Whitland. They also refused to develop new products. A most excellent creamery was closed and Dairy Crest refused to sell it to anyone else—much to their shame. The commercial world is a hard world. Dairy Crest was protecting its own commercial interests.

The needs of Wales are different. We need a variety of products, with the emphasis on added value, being marketed as Welsh produce of a high standard from a healthy environment. I am talking about establishing a Welsh entity within the dairy industry, either as some sort of co-operative belonging to the farmers of Wales or some kind of joint venture. There is more than one option available in this field. The familiar arguments against this—namely size, transportation problems from north to south, the fact that links run from east to west—in my opinion do not hold water, not to mention holding milk.

However, I suspect that this is not an ambitious project. It is a challenging project and I believe that succeeding in something like this is crucial. Our appeal, therefore, is that the key players in Wales, Milk Marque—I want it to be part of the discussion—the co-operatives in Wales (we have some very powerful ones), the Development Agency and its food department, farmers' organisations, the Assembly Secretary for Agriculture and

Gwledig a'r Ysgrifennydd Datblygu Economaidd a'u gweision sifil nhw, i gyd yn rhoi eu pennau—

Rural Development and the Secretary for Economic Development and their civil servants, should all put their heads together—

Carwyn Jones: Mae hyn yn ddiddorol iawn ond beth sydd a wnelo ef â'r cynnig?

Carwyn Jones: This is very interesting but what has it got to do with the motion?

Cynog Dafis: Mae'r cynnig yn sôn am yr argyfwng yn y diwydiant llaeth. Mae'n sôn am y cynllun difa lloi a chredaf ei fod yn bwysig ein bod yn rhoi hynny i gyd mewn cyd-destun ehangach, sef hyfywedd y diwydiant llaeth Cymreig. Diolch yn fawr, Carwyn, am yr ymyriad caredig yna.

Cynog Dafis: The motion refers to the crisis in the dairy industry. It refers to the calf cull scheme and I think it is important that we put all that in a wider context, namely the viability of the Welsh dairy industry. Thank you, Carwyn, for that kind intervention.

Credaf fod eisiau i bobl roi eu hadnoddau a'u pennau at ei glydd i weld sut y gellir gwireddu'r prosiect hwn. Yn fy marn i, mater ydyw o ewyllys a hunanhyder cenedlaethol.

I believe that people need to put their resources and their heads together to see how this project can be realised. In my opinion it is a matter of national will and self-confidence.

Yng Nghymru, ers mis Medi 1997, yr ydym wedi penderfynu bod yn genedl mewn difrif. Gobeithiaf ein bod wedi dysgu'r wers mai ein cyfrifoldeb ni yw edrych ar ôl ein lles ein hunain. Mae un peth yn sicr: ni wna neb arall mo hynny.

In Wales, since September 1997, we have decided to be a nation for real. I hope that we have learnt the lesson that it is our responsibility to look after our own interests. One thing is certain: no-one else will.

Brian Gibbons: It may seem strange that a representative from one of the most industrial constituencies in Wales should choose to contribute to this debate. However, I do agree with the point that has been made, that the situation in the countryside in Wales is part of the cultural diversity and that if we cannot solve the problems that exist in the countryside then Wales as a nation will be a much poorer place. I also speak because my own family come from a marginal and rural community and have existed in subsistence farming for many generations. I understand the pain and difficulty and the commitment that farming requires, as Peter Rogers explained in his contribution yesterday. I hope that by the end of today's debate we will be able to take some constructive steps to deal with the immediate crisis. We have a real problem, exemplified by what has happened over the summer. We have had a summer of what can only be described as a vicious personal attack on somebody who, as we all know, has been working all-out to try to protect the interest of Welsh agriculture.

Brian Gibbons: Efallai ei bod yn ymddangos yn od fod cynrychiolydd o un o etholaethau mwyaf diwydiannol Cymru yn dewis cyfrannu at y ddadl hon. Fodd bynnag, yr wyf yn cytuno gyda'r pwynt a wnaed, sef bod y sefyllfa yn y Gymru wledig yn rhan o'n hamrywiaeth ddiwylliannol ac os na allwn ni ddatrys y problemau sydd yn bodoli yng nghefn gwlad yna bydd Cymru fel cenedl yn lle llawer tlotach. Yr wyf yn siarad hefyd oherwydd fod fy nheulu i yn dod o gymuned ffiniol a gwledig ac wedi crafu bywoliaeth ar y tir ers sawl cenedlaeth. Yr wyf yn deall y boen a'r anhawster a'r ymroddiad y mae ffermio yn ei fynnu, fel yr eglurodd Peter Rogers yn ei gyfraniad ddoe. Gobeithio erbyn diwedd y ddadl heddiw y byddwn yn gallu cymryd rhyw gamau adeiladol i ddelio â'r argyfwng sydd ar ein gwarthaf. Y mae gennym broblem wirioneddol, fel a ddangosir gan yr hyn a ddigwyddodd dros yr haf. Dros yr haf cawsom yr hyn na ellir ond ei ddisgrifio fel ymosodiad personol ciaidd ar rywun sydd, fel y gwyddom i gyd, wedi bod yn gweithio'n ddygn i geisio gwarchod

We have had a summer of political stunts and gimmicks. If the farming and rural communities want to present their case in this way, then they are going to exhaust the goodwill that exists towards them in large areas of non-rural Wales.

4:19 p.m.

The summer's stunts and gimmicks are not going to cut any ice in asking for special treatment from the hundreds of people who have lost their jobs in the Neath Port Talbot area over the last six or nine months. It is not going to work. We have to have a more constructive and long-term vision of the future of Wales's agricultural and rural communities. We have to recognise that farming and agriculture in Wales is riddled with inconsistency. Notwithstanding William's contribution, the statistics seem to show a continuous increase in over-production as the crisis becomes more dire and desperate in the rural communities. It seems that the Conservative Party wants the market to exist in almost every other aspect of economic life. However, when economic circumstances are difficult in the farming and rural communities, it is calling for more support and intervention.

David Melding: In general, the markets are the best mechanism and if there were a free agricultural market across the world, our farmers would be in a much better position. They suffer production controls at the moment and do not have access to a free market. This is the problem.

Brian Gibbons: The agricultural industry in Wales is subsidised to the tune of £400 to £450 million. If that subsidy and subvention was leading to a thriving industry, there would be some merit in going down this particular road. However, as we have heard from so many impassioned contributions today, agriculture is failing and has only a limited role. We must step back and take a wide, strategic view of the role and future of agriculture in Wales. While we may be able to keep some of the present farmers on the

buddiannau amaethyddiaeth Cymru. Cawsom haf o giamocs a gimics gwleidyddol. Os yw'r cymunedau gwledig ac amaethyddol am gyflwyno'u hachos yn y modd yma, yna maent yn mynd i ddi-hysbyddu'r ewyllys da sydd yn bodoli tuag atynt mewn rhannau mawr o'r Gymru drefol.

Nid yw giamocs a gimics yr haf yn mynd i wneud unrhyw argraff wrth ofyn am driniaeth arbennig gan y cannoedd o bobl a gollodd eu swyddi yn ardal Castell-nedd a Phorth Talbot dros y chwe i naw mis diwethaf. Nid yw'n mynd i weithio. Rhaid inni gael gweledigaeth fwy adeiladol a hirdymor ar gyfer dyfodol cymunedau amaethyddol a gwledig Cymru. Rhaid inni sylweddoli fod anghysondeb yn rhemp drwy ffermio ac amaethyddiaeth yng Nghymru. Er gwaethaf cyfraniad William, mae'r ystadegau i'w gweld yn dangos cynnydd parhaus mewn gorgynhyrchu wrth i'r argyfwng fynd yn fwy enbyd ac anobeithiol yn y cymunedau gwledig. Mae'n ymddangos fod y Blaid Geidwadol eisiau i'r farchnad fodoli ymron bob agwedd arall ar fywyd economaidd. Fodd bynnag, pan yw'r amgylchiadau economaidd yn anodd yn y cymunedau amaethyddol a gwledig, mae'n galw am fwy o gefnogaeth ac ymyriad.

David Melding: Yn gyffredinol, y marchnadoedd yw'r peirianwaith gorau a phe bai marchnad amaethyddol rydd ar draws y byd byddai'n ffermwyr ni mewn safle llawer gwell. Maent yn dioddef rheolaeth ar gynhyrchu ar hyn o bryd ac nid oes ganddynt fynediad i farchnad rydd. Dyna'r broblem.

Brian Gibbons: Caiff y diwydiant amaethyddol yng Nghymru nawdd o gymaint â £400 i £450 miliwn. Pe bai'r nawdd a'r cymorth hwnnw yn arwain at ddiwydiant ffyniannus, byddai rhywfaint o fudd mewn dilyn y ffordd arbennig hon. Fodd bynnag, fel y clywsom gan gymaint o gyfraniadau angerddol heddiw, mae amaethyddiaeth yn methu a rôl gyfyngedig yn unig sydd ganddi. Mae angen inni gamu'n ôl a chymryd golwg strategol eang ar rôl a dyfodol amaethyddiaeth yng Nghymru. Er y byddwn

land, there is no doubt that their sons, daughters and grand-daughters will not be able to continue farming. If we want to offer them a different future we must seriously look at how this £400 million is spent.

Although not all of the £400 million comes from the Assembly block grant, it is equivalent to three times the total block grant to the Welsh Development Agency. Three years of this subvention would be sufficient to create Objective 1 match funding. We must look seriously at agriculture's future and its level of support, and consider different ways of maintaining our rural communities. Agriculture does not have a long term for most of its farmers. We need to refocus our vision and consider new priorities to ensure that rural Wales thrives and continues.

Janet Davies: This motion is partly about calf processing aid. It must be clear that the purpose of this aid is to safeguard animal welfare and the environment, not to subsidise farmers. However, it has that effect as it removes the extra expense of slaughtering calves. With the economic blows that farmers have had in rapid succession they cannot bear that extra loss at present. This is an immediate and not a long-term situation, which must also be addressed at another time. Today we are addressing a specific item to relieve the situation.

I want to mention links in the chain in rural communities. Farmers and farming are at the core of the rural community economy. Without them, village shops, pubs, social interchange, schools, hospitals, medical care and the whole life of market towns are threatened. It is not an isolated issue within rural communities. If farmers go out of business, there will be higher costs for local government and the NHS structure in those areas. I am concerned, as I have heard it suggested that farmers are not concerned about the welfare of their animals. For farmers to make a good profit, they must care for their animals. Speaking as someone who

efallai'n gallu cadw rhai o'r ffermwyr presennol ar y tir, nid oes dwywaith na fydd eu meibion, eu merched a'u hwyron a'u hwyresau'n gallu dal i ffermio. Os am gynnig dyfodol gwahanol iddynt hwy, rhaid inni edrych o ddifrif ar sut y caiff y £400 miliwn hyn eu gwario.

Er na ddaw'r cyfan o'r £400 miliwn o grant bloc y Cynulliad, mae'n gyfwerth â thair gwaith y cyfanswm grant bloc i Awdurdod Datblygu Cymru. Byddai tair blynedd o'r nawdd hwn yn ddigon i greu arian cyfatebol ar gyfer Amcan 1. Rhaid inni edrych o ddifrif ar ddyfodol amaethyddiaeth a lefel y gefnogaeth a roddir iddi, ac ystyried ffyrdd gwahanol o gynnal ein cymunedau gwledig. Nid oes gan amaethyddiaeth dymor hir i'r rhan fwyaf o'i ffermwyr. Mae angen inni edrych o'r newydd ar bethau ac ystyried blaenoriaethau newydd er mwyn sicrhau fod cefn gwlad Cymru'n ffynnu ac yn parhau.

Janet Davies: Mae a wnelo'r cynnig hwn yn rhannol â chymorth prosesu lloi. Rhaid nodi'n glir mai pwrpas y cymorth hwn yw diogelu lles anifeiliaid a'r amgylchedd, nid noddi ffermwyr. Fodd bynnag, y mae'n cael yr effaith honno gan ei fod yn dileu'r gost ychwanegol o ladd lloi. Gyda'r ergydion economaidd a ddioddefodd ffermwyr un ar ôl y llall, ni allant dderbyn y golled ychwanegol honno ar hyn o bryd. Ymdrin â'r sefyllfa ar hyn o bryd yr ydym, yn hytrach na'r un hirdymor, y bydd angen rhoi sylw iddi rywbryd eto. Heddiw yr ydym yn trafod eitem benodol i liniaru'r sefyllfa.

Hoffwn sôn am ddolenni yn y gadwyn mewn cymunedau gwledig. Mae ffermwyr a ffermio wrth graidd economi'r gymuned wledig. Hebddynt hwy, mae bygythiad i siopau pentref, tafarnau, cymdeithasau, ysgolion, ysbytai, gofal meddygol a holl fywyd trefi marchnad. Nid yw'n eitem ar ei phen ei hun o fewn cymunedau gwledig. Os aiff ffermwyr i'r wal, bydd costau uwch i lywodraeth leol a fframwaith y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn yr ardaloedd hynny. Yr wyf yn bryderus oherwydd imi glywed awgrym nad yw ffermwyr yn poeni am les eu hanifeiliaid. I ffermwyr wneud elw da, mae'n rhaid iddynt ofalu am eu hanifeiliaid. A minnau unwaith

once kept animals in a small way, the pleasure and pride when new stock arrives is immense. It must be heartbreaking for farmers unable to raise that stock. This Plenary session must consider this and must not be moved aside because of other calls on our money.

I want to comment on the issue of 'cosying up' to Labour. As a Member who has spent all her political life, north of the M4 and south of the Beacons, like many others—

Rhodri Morgan: The Valleys.

Janet Davies: I do not live in the Valleys. I live north of the M4, but I live in a Valley council area if that helps. Metaphorically speaking, unless most of us have managed to knife a Labour person during the day, we find it very difficult to sleep at night.

The Presiding Officer: I will not take those remarks literally, otherwise I would rule them out of order.

Richard Edwards: I am not taking those remarks literally, otherwise, I would not feel very safe here.

Janet Davies: I was speaking metaphorically.

Richard Edwards: I support the motion but given the time constraint and to allow other Members to speak, I will reluctantly abandon most of my speech and emphasise one particular point. There has been much huffing and puffing and political posturing over the summer months and it is rich for the party of free enterprise, and BSE, to call for more public subsidy. Let us not forget that the regulation burden weighing so heavily on the farming industry in this country is entirely a consequence of BSE. That is party politics. Party political posturing is one thing. The manner in which the Secretary for Agriculture and Rural Development has been harried, bullied, constantly abused and

wedi cadw anifeiliaid ar raddfa fach, gallaf ddweud fod y pleser a'r balchder pan gyraedda stoc newydd yn aruthrol. Mae'n rhaid ei bod yn dorcalonnus i ffermwyr sydd yn methu magu'r stoc hwnnw. Rhaid i'r Cyfarfod Llawn hwn ystyried hynny ac ni ddylai gael ei roi o'r neilltu ohewydd bod galwadau eraill ar ein harian.

Yr wyf eisiau gwneud sylw ar y cwestiwn o 'glosio at' y Blaid Lafur. Fel Aelod a dreuliodd ei holl fywyd gwleidyddol i'r gogledd o'r M4 ac i'r de o'r Bannau, fel llawer o rai eraill—

Rhodri Morgan: Y Cymoedd.

Janet Davies: Nid wyf yn byw yn y Cymoedd. Yr wyf yn byw i'r gogledd o'r M4, ond yr wyf yn byw yn ardal un o gynghorau'r Cymoedd os yw hynny o gymorth. A siarad yn drosiadol, os nad yw'r rhan fwyaf ohonom wedi llwyddo i drywanu person Llafur â chylllell yn ystod y dydd, fe'i cawn yn anodd iawn cysgu'r nos.

Y Llywydd: Ni wnaif gymryd y sylwadau hynny'n llythrennol, neu byddwn yn dyfarnu eu bod allan o drefn.

Richard Edwards: Nid wyf innau'n cymryd y sylwadau hynny'n llythrennol, neu ni fyddwn yn teimlo'n ddiogel iawn yma.

Janet Davies: Yr oeddwn yn siarad yn drosiadol.

Richard Edwards: Yr wyf yn cefnogi'r cynnig ond yn wyneb y cyfyngiad ar amser ac er mwyn caniatáu i Aelodau eraill siarad, fe wnaif yn gyndyn roi heibio'r rhan fwyaf o'm haraith a phwysleisio un pwynt arbennig. Bu llawer o chwythu bygythion ac ymhonni gwleidyddol yn ystod yr haf ac mae'n ddoniol gweld plaid y farchnad rydd, a'r BSE, yn galw am fwy o nawdd cyhoeddus. Cofiw'n fod y baich o reoleiddio sydd yn pwyso mor drwm ar y diwydiant ffermio yn y wlad hon yn ganlyniad BSE a dim arall. Dyna wleidyddiaeth bleidiol. Mae ymhonni gwleidyddol pleidiol yn un peth. Mae'r ffordd y cafodd yr Ysgrifennydd dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ei

vilified in the most personal way from the moment she was appointed is despicable. She has been hounded like the proverbial fox. Some Members apparently enjoy—

The Presiding Officer: Order. Are you giving way to Glyn Davies?

4:29 p.m.

Richard Edwards: No. With respect, Glyn, you blew your chance in the censure motion earlier. You are not going to highjack my turn at the microphone.

She must go, she is a vegetarian; she must go, she is anti-fox hunting. Let us be honest. You think she must go because she is a woman and we cannot have a woman in charge of agriculture. That is the bottom line. I would like to commend Christine for doing an excellent job in incredibly difficult circumstances and for doing it with astonishing grace and equanimity in the face of almost constant abuse. She is standing up for Wales, for the Assembly and for farmers. For God's sake let her get on with her job. [*Applause.*]

Helen Mary Jones: I would like Richard to give us an instance of anyone who has criticised Christine for being a woman in her position. As the Member for my party on the Committee on Equality of Opportunity, I will deal with them.

Richard Edwards: I will talk to you later, Helen.

The Presiding Officer: Order. I have allowed an hour for this debate. There is another debate to follow and I am anxious to allow full time for both debates. However, as fewer Members have indicated that they wish to speak in the Conservative Party debate, I will allow the current debate to continue for a further 15 minutes.

Nick Bourne: I am happy with that arrangement.

chystwyo, ei bwlio, ei henllibio a'i lladd arni yn y modd mwyaf personol o'r funud y cafodd ei phenodi yn warthus. Cafodd ei herlid o bant i bentan. Mae'n amlwg fod rhai Aelodau'n mwynhau—

Y Llywydd: Trefn. A ydych chi'n ildio i Glyn Davies?

Richard Edwards: Na. Gyda pharch, Glyn, fe gollasoch eich cyfle yn y cynnig o gerydd yn gynharach. Ni chewch ddwyn fy nhro i wrth y meic.

Rhaid iddi fynd, mae hi'n llysiu-wraig; rhaid iddi fynd, mae hi yn erbyn hela llwynogod. Gadewch inni fod yn onest. Yr ydych chi o'r farn fod yn rhaid iddi fynd am mai menyw ydyw hi ac na allwn ni ddim cael menyw i ofalu am amaethyddiaeth. Dyna graidd pethau. Hoffwn ganmol Christine am wneud gwaith ardderchog mewn amgylchiadau anhygoel o anodd ac am wneud hynny yn hynod o raslon a theg yn wyneb geiriau cas bron yn gyson. Mae hi'n sefyll dros Gymru, dros y Cynulliad a thros ffermwyr. Er mwyn Duw, gadewch iddi fynd ymlaen â'i gwaith. [*Cymeradwyaeth.*]

Helen Mary Jones: Hoffwn i Richard roi enghraifft inni o unrhyw un sydd wedi beirniadu Christine am fod yn fenyw yn ei safle. Gan mai fi yw'r Aelod o'm plaid ar y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, fe wnaf i ddelio â nhw.

Richard Edwards: Siaradaf â chi wedyn, Helen.

Y Llywydd: Trefn. Yr wyf wedi caniatáu awr ar gyfer y ddadl hon. Y mae dadl arall i ddilyn ac yr wyf yn awyddus i ganiatáu amser llawn ar gyfer y ddwy ddadl. Fodd bynnag, gan fod llai o Aelodau wedi mynegi dymuniad i siarad yn nadl y Blaid Geidwadol, fe wnaf ganiatáu i'r ddadl bresennol fynd ymlaen am 15 munud arall.

Nick Bourne: Yr wyf i'n hapus gyda'r trefniant hwnnw.

The Presiding Officer: I am grateful for your co-operation. It will bode you well in future.

Kirsty Williams *rose*—

The Presiding Officer: Do you wish to raise a point of order?

Kirsty Williams: As you know, I asked yesterday to speak in the debate on agriculture. Due to time constraints, I was not called. I asked to speak again today and you indicated earlier that I could. As the Member for the largest single rural constituency in the Assembly and as a woman whom farmers voted for, I would be grateful to be allowed to make a few comments.

The Presiding Officer: I said yesterday that I would give priority to the Party of Wales, whose debate this is, and to what I inadvertently referred to as 'the greater party of Wales'. I apologise to the lesser party of Wales for that statement. I wanted to ensure that Labour Members who indicated yesterday that they wished to speak, and whom I was unable to call, could be accommodated. You indicated earlier today that you wished to speak in both minority party debates. I indicated that I would try to call you in both. However, given the time pressure, it is difficult for me to accommodate the Liberal Democrats, although I would have liked to do so. Mick Bates has already spoken on the amendment. I must therefore now call Rhodri Glyn Thomas.

Rhodri Glyn Thomas: Trwy'r cynnig hwn yr ydym yn cyflwyno i'r Siambr bolisiau y gall y Cynulliad uno i'w cefnogi, ac o uno i'w cefnogi, hefyd eu gweithredu. Mae'n glir o'n trafodaethau gyda'r undebau amaethyddol eu bod wedi cael hen ddigon o eiriau a datganiadau. Yn awr maent eisiau gweithredu ymarferol. Galwn ar San Steffan a Nick Brown, y Gweinidog Amaethyddiaeth, i weithredu ar famogiaid a lloi nad oes gwerth masnachol iddynt a chyflwyno'r cynlluniau ymarferol sydd o fewn ei allu i'w cyflwyno, i sicrhau bod y

Y Llywydd: Yr wyf yn ddiolchgar am eich cydweithrediad. Bydd yn argoeli'n dda ichi yn y dyfodol.

Kirsty Williams *a gododd*—

Y Llywydd: A ydych chi am godi pwynt o drefn?

Kirsty Williams: Fel y gwyddoch, gofynnais ddoe am gael siarad yn y ddadl ar amaethyddiaeth. Oherwydd cyfyngiadau amser, ni chefais fy ngalw. Gofynnais am gael siarad eto heddiw ac fe nodoch yn gynharach y cawn. Fel yr Aelod dros yr etholaeth wledig unigol fwyaf yn y Cynulliad ac fel merch a enillodd bleidleisiau ffermwyr, byddwn yn ddiolchgar am ganiatâd i wneud ychydig o sylwadau.

Y Llywydd: Dywedais ddoe y byddwn yn rhoi blaenoriaeth i Blaid Cymru, gan mai eu dadl nhw yw hon, ac i'r hyn y cyfeiriais yn ddiolch ati fel 'plaid fwyaf Cymru'. Ymddiheuraf i blaid leiaf Cymru am y gosodiad hwnnw. Yr oeddwn eisiau sicrhau y gellid rhoi cyfle i Aelodau Llafur a nododd ddoe eu bod yn dymuno siarad, ac nad oeddwn wedi gallu eu galw. Fe wnaethoch chi nodi yn gynharach heddiw eich bod yn dymuno siarad yn nwy ddadl y pleidiau lleiafrifol. Nodais i y byddwn yn ceisio'ch galw yn y ddwy. Fodd bynnag, oherwydd pwysau amser, y mae'n anodd imi roi cyfle i'r Democratiaid Rhyddfrydol, er y buaswn wedi hoffi gwneud hynny. Mae Mick Bates eisoes wedi siarad ar y gwelliant. Felly rhaid imi alw Rhodri Glyn Thomas yn awr.

Rhodri Glyn Thomas: In proposing this motion, we are presenting to the Chamber policies that the Assembly can unite to support, and through uniting to support them, also implement them. It is clear from our discussions with the agriculture unions that they have had more than enough of words and statements. They now want practical action. We call on Westminster and Nick Brown, the Minister for Agriculture, to take action on ewes and calves of no commercial value and introduce the practical schemes that are within his power to introduce, to

pwysau ariannol sydd ar ffermwyr ar hyn o bryd yn cael eu codi.

Yr ydym hefyd wedi dweud os na fydd Nick Brown yn gweithredu ar loi, ein bod yn galw ar y Cynulliad i ysgwyddo'r baich hwnnw er mwyn i'r cynllun gael ei weithredu'n syth. Fel yr esboniodd Ieuan, mae problemau gyda gwelliant Mick Bates. Oherwydd ei eiriad, nid yw'n ymarferol. Felly ni allwn ei gefnogi. Yn y drafodaeth yn y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig y bore hwn, yr oedd yn glir bod problemau ynghylch cynllun difa mamogiaid i Gymru yn unig.

Fodd bynnag, pe bai Nick Brown yn methu â chyflwyno cynllun difa mamogiaid, byddai'n rhaid inni edrych o'r newydd ar gynllun ar gyfer Cymru. Ni fydd hynny'n rhwydd oherwydd mae problemau ymarferol difrifol, ond byddem yn ei ailystyried. Rhoddaf yr ymrwymiad hwnnw i Mick ac i'r Democratiaid Rhyddfrydol.

I grisialu dwyster y sefyllfa, yr wyf yn gresynu bod rhai wedi camddefnyddio amser prin y ddadl hon. Yr wyf yn cydymdeimlo â Kirsty, sydd yn cynrychioli etholaeth â nifer helaeth o ffermwyr ac sydd heb gael cyfle i gyfrannu. Mae rhai Aelodau wedi afradu eu cyfle er mwyn gwneud pwyntiau di-werth. Bydd Christine yn crynhoi ar ran y Llywodraeth. Yr wyf yn credu bod cyfrifoldeb arni fel Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig i ateb rhai o'r sylwadau a wnaeth Brian yn gynharach.

Os dyna yw safbwynt y Blaid Lafur, mae yna ddiffyg dealltwriaeth llwyr o'r economi gwledig. Mae amaethyddiaeth yn cyfrannu'n helaeth at yr economi hwnnw ac yn ei gynnal. Pe bai Brian Gibbons yn cael ei ffordd, byddai'r economi gwledig yn cael ei ddinistrio yn llwyr. Ni allwch dynnu amaethyddiaeth allan o'r economi gwledig. Mae hynny'n dangos anwybodaeth sylfaenol ac ni ddylai person â'r fath anwybodaeth gyfrannu at ddadl bwysig. Gobeithiaf y bydd Christine yn ateb ar ran y Blaid Lafur ar rai o'r sylwadau hynny.

ensure that the financial pressure currently on farmers is lifted.

We have also stated that if Nick Brown does not take action on calves, we will call on the Assembly to shoulder that responsibility so that the scheme can be implemented immediately. As Ieuan explained, there are problems with Mick Bates's amendment. Due to its wording, it is not practical. Therefore we cannot support it. In the discussion we had in the Agriculture and Rural Development Committee this morning, it was clear that there are problems with a cull ewe scheme for Wales only.

However, should Nick Brown fail to implement a cull ewe scheme, we would have to look again at a scheme for Wales. That will not be easy as there are serious practical problems but we would reconsider it. I give Mick and the Liberal Democrats that promise.

To sum up the gravity of the situation, I regret that some have misused the scarce time in this debate. I sympathise with Kirsty, who represents a constituency with many farmers and has not had an opportunity to contribute. Some Members have wasted their opportunity in order to make worthless points. Christine will summarise on behalf of the Government. As the Secretary for Agriculture and Rural Development, I think that she has a duty to respond to Brian's comments earlier.

If that is the Labour Party's view, then there is a complete lack of understanding of the rural economy. Agriculture contributes massively to and supports that economy. If Brian Gibbons has his way, the rural economy would be completely destroyed. You cannot take agriculture out of the rural economy. That shows fundamental ignorance and a person who shows such ignorance should not contribute to an important debate. I hope that Christine will respond on behalf of the Labour Party to some of those comments.

Cydymdeimlaf â sylwadau cyntaf Brian. Mae cyfrifoldeb ar y rhai ohonom sydd yn ceisio cyfleu barn y diwydiant amaethyddol i wneud hynny mewn modd nad yw'n gelyniaethu pobl. Yr oedd Brian yn iawn yn hynny. Pe bai wedi aros yno, byddai ei gyfraniad wedi bod yn werthfawr. Yn anffodus, yr oedd gweddill ei gyfraniad yn tynnu oddi ar ei sylwadau cyntaf.

Yr ydym mewn argyfwng. Yn y Siambr mae llun o Geredigion gan John Elwyn sydd, fe ddeallaf, yn werth £3,000 o leiaf. Nid wyf yn deall llawer am arlunio ac ni hoffwn fynegi barn ar y pwnc. Fodd bynnag, a yw'r llun hwnnw yn werth 3,000 o famogiaid neu 3,000 o loi? Ai dyna realiti'r sefyllfa yr ydym yn ei hwynebu? Rhaid inni weithredu ar fyrder. Mae'r cynnig yn caniatáu hynny. Gadewch inni ddangos ein bod yn Gynulliad aeddfed a'n bod, ar ôl mynegi barn, yn gallu uno. Fel y dywedodd Ieuan, mae uno ar y mater hwn yn holl bwysig er mwyn rhoi i ffermwyr yr hyn y mae arnynt ei angen i godi baich ariannol yr argyfwng hwn. Mae problemau eraill yn wynebu'r diwydiant, ond dylem fod yn ddigon aeddfed i roi sylfaen i symud ymlaen tuag at ddatblygu'r diwydiant amaethyddol yng Nghymru.

The Secretary for Agriculture and Rural Development (Christine Gwyther): If Rhodri Glyn had allowed Kirsty to intervene, perhaps she would have had her two minutes. You had an opportunity to do so. I was planning to let her intervene and regret that she has now left the Chamber. She obviously has a contribution to make on this subject.

Cynog referred to the subject of Milk Marque. I met with Milk Marque several times during the summer. Their plans for possible restructuring are commercially confidential and I will not discuss them in the Chamber without the company's permission. When I have received that permission, I will be happy to discuss their plans at length. Cynog made some valid points.

I understand the seriousness of the short-term crisis facing agriculture in Wales. The First Secretary has echoed my words on that

I sympathise with Brian's initial comments. Those of us who are trying to convey the views of the agriculture industry have a duty to do so in a way that does not alienate people. Brian was right about that. If he had stopped there, his contribution would have been valuable. Unfortunately, the rest of his contribution detracted from those initial comments.

We are in crisis. There is in the Chamber a painting of Ceredigion by John Elwyn, which I understand is worth at least £3,000. I do not understand much about art and I would not like to express an opinion on the subject. However, is this picture worth 3,000 ewes or 3,000 calves? Is that the reality of the situation we face? We must take action as a matter of urgency. The proposal allows that. Let us show that we are a mature Assembly and that, having voiced our views, we can unite. As Ieuan said, uniting on this matter is essential to deliver to farmers what they need to lift the financial burden of this crisis. There are other problems facing the industry, but we should be mature enough to establish a basis on which to move towards developing the agriculture industry in Wales.

Yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (Christine Gwyther): Pe bai Rhodri Glyn wedi caniatáu i Kirsty siarad, efallai y byddai hi wedi cael ei dau funud. Cawsoch gyfle i wneud hynny. Yr oeddwn i'n bwriadu gadael iddi ddweud ei phwt ac mae'n flin gennyf ei bod bellach wedi gadael y Siambr. Yn amlwg mae ganddi gyfraniad i'w wneud ar y pwnc hwn.

Cyfeiriodd Cynog at Milk Marque. Cyfarfûm â Milk Marque sawl gwaith yn ystod yr haf. Mae eu cynlluniau ar gyfer ailstrwythuro posibl yn fasnachol gyfrinachol ac ni wnaaf eu trafod yn y Siambr heb ganiatâd y cwmni. Pan fyddaf wedi cael y caniatâd hwnnw, byddaf yn hapus i drafod eu cynlluniau yn llawn. Gwnaeth Cynog rai pwyntiau dilys.

Yr wyf yn deall difrifoldeb yr argyfwng tymor byr sydd yn wynebu amaethyddiaeth yng Nghymru. Mae'r Prif Ysgrifennydd wedi

subject. I am not hiding behind anyone, Nick Bourne, and I have not done so during the whole of the summer. You have seen me at agricultural shows, so you know it is not true. I have had a full summer, meeting with unions and agricultural ministers throughout the UK.

4:39 p.m.

Nick Bourne: I accept you are not hiding behind anybody but you certainly did not support a call for the return of the Assembly over the summer, when it was clear the majority wished that. Why did you not do that?

Christine Gwyther: I am not sure if the majority requested it. The decision was taken by the First Secretary that the Assembly should not be recalled for this matter. Before the summer break I indicated that I, or rather Ieuan Wyn Jones, was happy to recall the Agriculture and Rural Development Committee if there was further news on beef on the bone. If that had been activated, it would have been a sensible start to this debate but it was not requested. I hope that helps.

David Davies: One of your colleagues talked earlier about Cabinet responsibility and how everyone took responsibility for the Government of Wales's decisions. You just passed the buck to Alun Michael, saying it was his decision not to recall the Assembly. Therefore you stand by his decision and you supported it.

Christine Gwyther: I do and I did. I fully support the First Secretary. The motion we are discussing this afternoon recognises the importance of my approach over the summer, which was engaging in full frank discussion because action without discussion would be ridiculous.

Over the past few weeks commentators on the current situation have told me that some senior politicians in other parties were

adleisio fy ngeiriau ar y pwnc hwnnw. Nid wyf yn cuddio y tu ôl i neb, Nick Bourne, ac ni wneuthum hynny drwy gydol yr haf. Yr ydych wedi fy ngweld mewn sioeau amaethyddol, felly gwyddoch nad yw hynny'n wir. Cefais haf llawn, yn cyfarfod ag undebau a gweinidogion amaeth drwy'r DU gyfan.

Nick Bourne: Yr wyf yn derbyn nad ydych yn cuddio y tu ôl i neb ond yn sicr ni wnaethoch gefnogi galwad am i'r Cynulliad ddychwelyd yn ystod yr haf pan oedd hi'n glir fod y mwyafrif yn dymuno hynny. Pam na wnaethoch chi hynny?

Christine Gwyther: Nid wyf yn siwr a ofynnodd y mwyafrif am hynny. Penderfynodd y Prif Ysgrifennydd na ddylid ailgynnull y Cynulliad ar gyfer y mater hwn. Cyn y gwyliau mynegais y byddwn i, neu yn hytrach Ieuan Wyn Jones, yn hapus i ailgynnull y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig pe ceid newyddion pellach am gig eidion ar yr asgwrn. Pe bai hynny wedi'i roi ar waith, byddai wedi bod yn gychwyn call i'r ddadl hon, ond ni ofynnwyd amdano. Gobeithio fod hynny o gymorth.

David Davies: Soniodd un o'ch cydbleidwyr gynnu am gyfrifoldeb y Cabinet a'r modd y byddai pawb yn cymryd cyfrifoldeb am benderfyniadau Llywodraeth Cymru. Yr ydych chi newydd basio'r baich i Alun Michael, gan ddweud mai ei benderfyniad ef oedd peidio â galw'r Cynulliad yn ôl. Felly yr ydych chi'n sefyll wrth ei benderfyniad ac fe wnaethoch chi ei gefnogi.

Christine Gwyther: Ydw, a do mi wnes. Yr wyf yn cefnogi'r Prif Ysgrifennydd yn llawn. Mae'r cynnig yr ydym yn ei drafod y prynhawn yma'n cydnabod pwysigrwydd fy mhenderfyniad dros yr haf, sef cynnal trafodaeth lawn ac agored, gan y byddai gweithredu heb drafodaeth yn wirion.

Dros yr ychydig wythnosau diwethaf mae sylwebwyr ar y sefyllfa bresennol wedi dweud wrthyf fod rhai gwleidyddion uwch

unhappy with the stance I have taken. Being media people, they were only stirring the pot to try to personalise the situation. I understand their reasoning. My answer to them was always that Alun Michael, the most senior political figure in Wales apart from the Llywydd, totally endorsed my approach.

It was not only Labour politicians who endorsed the approach. I referred yesterday to the passage of the Government of Wales Bill 1998. Hansard, 26 January 1998, records the following speech in the House of Commons:

‘What of the prospect of Wales going it alone in seeking compensation that the rest of Britain would not receive? Such a plan would not be workable even if it were possible...Action on those matters will occur only if the Secretary of State were to use his influence with the Ministry of Agriculture, Fisheries and Food to change policy’.

The speaker was the Conservative spokesperson on Welsh affairs, Nigel Evans MP. Nigel was proven wrong in that he thought the Secretary of State was needed to talk to the Minister for Agriculture. That matter has now been devolved. I am delighted because we would not be having this discussion today if it was left to the Conservatives. However, he was right in his view that co-operative solutions for the whole of the UK are more likely to succeed than unilateral action. If we are serious about tackling the current crisis, we must recognise that fact.

The motion discusses the short-term problems. In the Agriculture and Rural Development Committee this morning we began to discuss our budget priorities for the coming budget round. Long-term solutions, sustainable development, and supporting the industry in its restructuring were discussed. These phrases did not come from my mouth but from the people around the table. It was good to hear.

We have had some good contributions this afternoon. Karen Sinclair was right to explain how BSE and the consequent restructuring has affected the livestock factor. The understanding that we need to

mewn pleidiau eraill yn anhapus â'r safiad a gymerais. Fel cyfryngwyr, dim ond cynhyrfu'r dyfroedd yr oeddent hwy i geisio personoli'r sefyllfa. Yr wyf yn deall eu rhesymeg. Fy ateb iddynt hwy bob tro oedd fod Alun Michael, y ffigwr gwleidyddol mwyaf profiadol yng Nghymru ar wahân i'r Llywydd, yn ategu fy null o weithredu yn llwyr.

Nid gwleidyddion Llafur yn unig a ategodd y dull o weithredu. Cyfeiriais ddoe at hynt Mesur Llywodraeth Cymru 1998. Mae Hansard, 26 Ionawr 1998, yn cofnodi'r araith ganlynol yn Nhy'r Cyffredin:

Y siaradwr oedd llefarydd y Ceidwadwyr ar faterion Cymreig, Nigel Evans AS. Profwyd Nigel yn anghywir o ran ei fod yn meddwl bod angen yr Ysgrifennydd Gwladol i siarad â'r Gweinidog Amaeth. Mae'r mater hwnnw bellach wedi'i ddatganoli. Yr wyf wrth fy modd oherwydd ni fyddem yn cael y drafodaeth hon heddiw pe baem yn dibynnu ar y Ceidwadwyr. Fodd bynnag, yr oedd yn gywir yn ei farn fod atebion cydweithredol ar gyfer y DU gyfan yn fwy tebygol o lwyddo na gweithredu unochrog. Os ydym o ddifrif ynghylch delio â'r argyfwng presennol, rhaid inni gydnabod y ffaith honno.

Y mae'r cynnig yn trafod y problemau tymor byr. Yn y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig y bore yma fe ddechreuasom drafod ein blaenoriaethau cyllideb ar gyfer y cylch cyllidebol nesaf. Trafodwyd atebion tymor hir, datblygu cynaliadwy a chefnogi'r diwydiant mewn cyfnod o ailstrwythuro. Nid o'm genau i y daeth yr ymadroddion hyn ond o enau pobl o amgylch y bwrdd. Yr oedd yn dda ei glywed.

Cawsom gyfraniadau da y prynhawn yma. Yr oedd Karen Sinclair yn iawn wrth egluro sut y mae BSE a'r ailstrwythuro yn sgîl hynny wedi effeithio ar y ffactor da byw. Mae'r ddealltwriaeth fod angen inni weithio gyda'n

work together in the long term to make a difference to this industry goes right across the Committee.

We must attack the short-term problems. We have experienced a vicious circle of increased production and lower prices. Price cuts led to more production. That could not happen in any other industry because other industries are not supported in the same way. I believe the industry is now facing up to this fact.

At the moment, the markets are shifting the cull ewes at reduced or no profit to the producer. I have officials monitoring the situation closely by visiting markets every week to find out exactly what is going on. The farming industry itself proposed the cull ewe scheme to remove ewes from the market in the interest of the environment, animal welfare and to prevent further market depression. This proposal was tabled in a meeting in London of the four agriculture representatives from the UK in London.

In practical terms, we have agreed that a cull ewe disposal system could not sensibly be operated in Wales alone. There would be no basis on which to identify Welsh animals. They are not tagged and farm records are not perfect. This is not always through the fault of the farmer; it is due to other pressures. This gives rise to the possibility of fraud. A scheme operating in Wales would increase the risk of fraud. I think we should resist this, especially as parts of the UK have similar problems. Let us try to get a UK scheme. Any scheme, whether for the UK or for Wales alone, would require the European Commission's approval. We have heard what the Republic of Ireland has done for its farmers. They may have entered the realms of illegal state aid. The problem with that scheme, which they tried to introduce last year, was perceived support to abattoirs. This aspect is under serious investigation. We must be very careful. *[Interruption.]* I would like you to know, Kirsty that I am listening if you would like to do the same.

gilydd yn y tymor hir i wneud gwahaniaeth i'r diwydiant hwn yn rhywbeth cyffredin i'r Pwyllgor cyfan.

Rhaid inni ymosod ar y problemau tymor byr. Yr ydym wedi profi cylch mileinig o gynhyrchiant cynyddol a phrisiau is. Arweiniodd toriadau mewn prisiau at fwy o gynhyrchu. Ni allai hynny ddigwydd mewn unrhyw ddiwydiant arall oherwydd na chaiff diwydiannau eraill eu cefnogi yn yr un modd. Yr wyf yn credu fod y diwydiant bellach yn wynebu'r ffaith hon.

Ar hyn o bryd, mae'r marchnadoedd yn symud y mamogïaid i'w difa ar elw is neu ddim elw i'r cynhyrchydd. Y mae gennyf swyddogion yn cadw llygad barcud ar y sefyllfa drwy ymweld â marchnadoedd bob wythnos i weld beth yn union sydd yn digwydd. Y diwydiant amaethyddol ei hun a gynigiodd y cynllun difa mamogïaid i dynnu mamogïaid allan o'r farchnad er budd yr amgylchedd, lles anifeiliaid ac i atal dirwasgiad pellach yn y farchnad. Cynigiwyd hyn mewn cyfarfod yn Llundain o bedwar cynrychiolydd amaethyddiaeth y DU yn Llundain.

Mewn termau ymarferol, yr ydym wedi cytuno na ellid gweithredu system ddifa mamogïaid yn gall yng Nghymru yn unig. Ni fyddai unrhyw sail ar gyfer adnabod anifeiliaid o Gymru. Nid ydynt wedi'u tagio ac nid yw cofnodion ffermydd yn berffaith. Nid bai'r ffermwr yw hynny bob amser; mae'n digwydd oherwydd pwysau eraill. Mae hyn yn codi posibilrwydd o dwyll. Byddai gweithredu cynllun yng Nghymru'n cynyddu'r perygl o dwyll. Yr wyf o'r farn y dylem geisio osgoi hyn, yn enwedig gan fod problemau tebyg gan rannau o'r DU. Gadewch inni geisio cael cynllun i'r DU. Byddai unrhyw gynllun, boed ar gyfer y DU neu ar gyfer Cymru'n unig, angen cymeradwyaeth y Comisiwn Ewropeaidd. Yr ydym wedi clywed beth mae Gweriniaeth Iwerddon wedi'i wneud dros ei ffermyr. Efallai eu bod wedi mynd i faes cymorth anghyfreithlon gan y wladwriaeth. Y broblem gyda'r cynllun hwnnw, y ceisiasant ei gyflwyno y llynedd, oedd ei fod yn ymddangos fel cymorth i ladd-dai. Mae'r

agwedd hon yn destun ymchwiliad difrifol. Rhaid inni fod yn ofalus iawn. [Torrwyd ar draws.] Hoffwn ichi wybod, Kirsty, fy mod i'n gwranddo, os hoffech chi wneud yr un modd.

The calf processing aid scheme was originally introduced in the wake of BSE as a short-term measure only, to help farmers adapt to the loss of their markets. The farmers became dependent on the scheme as they gained from it in terms of short-term business. Despite repeated warning that the scheme had a finite life, at the end of July the farmers were not ready and had not adapted. Their only response to financial assistance had been over production. The onus is back on farmers to adapt and their full co-operation is needed to ensure this never happens again.

Markets do exist, dairy beef crosses can be reared for beef. The idea of welfare friendly veal has been mooted in this Chamber and my officials are working on it. I use the term 'welfare friendly' very advisedly. It would be both animal and people welfare friendly because it would keep money in this country and provide jobs in desperate rural areas. That is real added value and is something we can work towards.

Elin Jones: Byddai gennyf ddi-ddordeb yn ymateb Christine Gwyther i sylwadau ei chyd-aelod Llafur, Brian Gibbons a ddywedodd nad oedd dyfodol i amaethyddiaeth fel un o brif ddiwydiannau cefn gwlad Cymru.

Christine Gwyther: Brian Gibbons was talking about the public's perception of the agricultural industry. Within this Chamber and within the Labour Party we believe there is a future in the agriculture industry. It may not be in the form it is in now. We have committed our support to family farms in our manifesto. It is clear that we want the industry to exist, to adapt, improve and succeed.

I return to the calf processing aid scheme.

Cyflwynwyd y cynllun cymorth prosesu lloï i ddechrau yn sgîl BSE fel cam tymor byr yn unig, i helpu ffermwyr i ymaddasu ar ôl colli eu marchnadoedd. Aeth y ffermwyr i ddibynnu ar y cynllun gan eu bod yn elwa arno yn nhermau busnes tymor byr. Er gwaethaf sawl rhybudd fod terfyn ar oes y cynllun, ar ddiwedd Gorffennaf nid oedd y ffermwyr yn barod ac nid oeddent wedi ymaddasu. Eu hunig ymateb i gymorth ariannol fu gorgynhyrchu. Mae'r pwysau yn ôl ar ffermwyr i ymaddasu ac mae angen eu cydweithrediad llawn i sicrhau na ddigwydd hyn byth eto.

Y mae marchnadoedd yn bodoli, gellir magu croesfridiau llaeth/eidion ar gyfer cig eidion. Cynigiwyd y syniad o gig llo lles-gyfeillgar yn y Siambr hon ac mae fy swyddogion yn gweithio arno. Defnyddiaf y term 'lles-gyfeillgar' yn fwriadol iawn. Byddai'n gyfeillgar wrth les anifeiliaid a phobl fel ei gilydd gan y byddai'n cadw arian yn y wlad hon ac yn darparu swyddi mewn ardaloedd gwledig anghennus. Dyna ychwanegu gwerth go iawn a rhywbeth y gallwn weithio tuag ato.

Elin Jones: I would be interested in Christine Gwyther's response to the views of her Labour colleague, Brian Gibbons who said there was no future for agriculture as one of the principal rural industries of Wales.

Christine Gwyther: Yr oedd Brian Gibbons yn sôn am y ffordd yr oedd y cyhoedd yn gweld y diwydiant amaethyddol. O fewn y Siambr hon ac o fewn y Blaid Lafur credwn fod dyfodol yn y diwydiant amaethyddol. Efallai na fydd yn y ffurf y mae ar hyn o bryd. Yr ydym wedi ymrwymo yn ein maniffesto i gefnogi ffermydd teulu. Mae'n amlwg fod arnom eisiau i'r diwydiant fodoli, ymaddasu, gwella a llwyddo.

Dychwelaf at y cynllun cymorth prosesu lloï.

The proposal that I took to London was a scheme with a limit of £20 per head. That is the cost of tagging, professional slaughtering and disposal. As it also covers administration costs there are no hidden extras to haunt the Assembly.

4:49 p.m.

The scheme would run from October to December, when it has to end. It would only deal with the immediate problem, which has animal welfare and environmental considerations as some speakers have noted. It is important that we recognise that many areas other than farming can be helped by this scheme.

I publicly stated that I would be willing to go it alone for the sake of Wales if this scheme was not introduced across the UK. However, I have also made it clear that, if my colleagues in the other territories won't agree to an UK-wide scheme, I will have to secure their agreement on a Wales-only scheme. That is true devolution. The Assembly does not have the power to implement a scheme unilaterally. The only way that such a scheme could be introduced is through the Intervention Board. That can only happen with the agreement of the four UK agriculture departments, as we all have a say in the Intervention Board. The proposed payment reduction and the proposal that it would operate in Wales alone would also require approval by the European Commission.

The Assembly needs to recognise these facts, as we have done over the last two days. In doing this we are showing ourselves to be a practical and responsible body. Brian Gibbons was generous to say that I was working very hard this summer. I was not the only one, as all the other Assembly Members were working equally hard. My particular problem was the short-term crisis in the agricultural sector. I have put forward proposals to colleagues in other parts of the UK, although they are not our only subjects of discussion. We are also having serious discussions on issues such as short-term and state-aided lamb storage and how to get rid

Y cynnig yr euthum ag ef i Lundain oedd cynllun â therfyn o £20 y pen. Dyna gost tagio, lladd proffesiynol a gwaredu. Gan ei fod hefyd yn cynnwys costau gweinyddu nid oes dim costau cudd ychwanegol i boeni'r Cynulliad.

Byddai'r cynllun mewn grym o fis Hydref hyd Ragfyr, pryd y byddai'n rhaid iddo ddod i ben. Byddai'n ymdrin â'r broblem uniongyrchol yn unig, problem sydd ag ystyriaethau o ran lles anifeiliaid a'r amgylchedd, fel y nododd ambell siaradwr. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod y gall llawer o feysydd ar wahân i ffermio gael eu helpu gan y cynllun hwn.

Dywedais yn gyhoeddus y byddwn yn fodlon torri fy nghwys fy hun er mwyn Cymru pe na chât'r cynllun hwn ei gyflwyno ledled y DU. Fodd bynnag, yr wyf hefyd wedi datgan yn glir, os na wnaiff fy nghydweithwyr mewn tiriogaethau eraill gytuno i gael cynllun ledled y DU, y bydd raid imi gael eu cytundeb ar gynllun i Gymru'n unig. Nid oes gan y Cynulliad y grym i weithredu cynllun yn unochrog. Yr unig ffordd y gellid cyflwyno cynllun o'r fath fyddai trwy'r Bwrdd Ymyrryd. Dim ond gyda chytundeb y pedair adran amaeth yn y DU y gall hynny ddigwydd, gan fod gennym i gyd lais yn y Bwrdd Ymyrryd. Byddai hefyd angen i'r Comisiwn Ewropeaidd gymeradwyo'r lleihad arfaethedig yn y tâl a'r cynnig y dylai weithredu yng Nghymru yn unig

Mae angen i'r Cynulliad gydnabod y ffeithiau hyn, fel y gwnaethom dros y ddeuddydd diwethaf. Wrth wneud hyn yr ydym yn dangos ein bod yn gorff ymarferol a chyfrifol. Yr oedd Brian Gibbons yn garedig pan ddywedodd fy mod wedi gweithio'n galed iawn dros yr haf. Nid fi oedd yr unig un, gan fod holl Aelodau eraill y Cynulliad wedi gweithio'r un mor galed. Fy mhroblem arbennig i oedd yr argyfwng tymor byr yn y sector amaethyddol. Yr wyf wedi rhoi cynigion gerbron cydweithwyr mewn rhannau eraill o'r DU, er nad dyna unig bwnc ein trafodaethau. Yr ydym hefyd yn cael trafodaethau difrifol ar faterion fel storio cig

of red tape without putting the public at risk.

oen dros dymor byr a chyda chymorth y wladwriaeth, a sut i gael gwared â thâp coch heb beryglu'r cyhoedd.

Because of the nature of the agriculture industry its fortunes are cyclical and there are certain pinch points in the calendar. Autumn is one of them and I would be the last person to deny that this autumn is proving particularly difficult. It is my urgent duty to continue proper discussions with the industry and other concerns to ensure that we learn from this experience. I am not alone in this desire, as all the unions want to help the industry to adapt, change and succeed. The Assembly must face up to and support any changes that have to be made. The real tragedy will be if we end up in the same place at the same time next year.

Oherwydd natur y diwydiant amaethyddol mae ei ffawd yn troi mewn cylchoedd ac fe geir rhai cyfnodau o wasgfa yn y calendr. Un o'r rhain yw'r hydref, a fi fyddai'r person olaf i wadu fod yr hydref hwn yn arbennig o anodd. Fy nyletswydd i ar fyrder yw parhau trafodaethau priodol gyda'r diwydiant ac eraill er mwyn sicrhau ein bod yn dysgu oddi wrth y profiad hwn. Nid wyf yn unig yn fy nyhead, gan fod yr undebau i gyd eisiau helpu'r diwydiant i ymaddasu, newid a llwyddo. Rhaid i'r Cynulliad wynebu a chefnogi unrhyw newidiadau y bydd yn rhaid eu gwneud. Y gwir drychineb fydd os glaniwn yn yr un lle ar yr un adeg y flwyddyn nesaf.

The Presiding Officer: We will vote first on the amendment.

Y Llywydd: Fe bleidleisiwn yn gyntaf ar y gwelliant.

*A vote was held by show of hands.
Amendment rejected.*

*Pleidleisiwyd drwy ddangos dwylo.
Gwrthodwyd y gwelliant.*

We will now vote on the motion.

Fe bleidleisiwn yn awr ar y cynnig.

*A vote was held by show of hands.
Motion adopted.*

*Pleidleisiwyd drwy ddangos dwylo.
Derbyniwyd y cynnig.*

Dadl Plaid Leiafrifol (y Blaid Geidwadol) Minority Party Debate (the Conservative Party)

Ariannu'r NHS yng Nghymru NHS Funding in Wales

The Presiding Officer: I have selected the amendment standing in the name of Jane Hutt.

Y Llywydd: Yr wyf wedi dewis y gwelliant sydd yn enw Jane Hutt.

David Melding: I propose that

David Melding: Cynigiau fod

the Assembly calls on the administration to take immediate action to resolve the financial crisis now affecting the NHS in Wales;

y Cynulliad yn galw ar y weinyddiaeth i gymryd camau ar unwaith i ddatrys yr argyfwng ariannol sydd bellach yn effeithio ar yr NHS yng Nghymru;

and rejects the call for hospital closures now being made by senior Labour colleagues.

ac, yn gwrthod y galwadau a wneir gan uwch wleidyddion Llafur i gau ysbytai.

When the Labour Party came into office they

Pan ddaeth y Blaid Lafur i rym fe addawsant

promised a cash bonanza to rectify what they claimed to be underfunding in the NHS. They made two big promises, with the first relating to spending. They promised to spend an extra £1 billion on the NHS in Wales, with the baseline being £2.4 billion. £2.4 billion plus £1 billion—what do Members think that equals? Does anyone want to take a stab at it? I am quite happy to allow an intervention. I shall do the sum myself. £3.4 billion is probably the answer you would get if you had a focus group on this issue. I do not think that Labour ever did but perhaps we could recommend one. That system of very simple arithmetic does not work under Labour. Under Labour, £2.4 billion plus £1 billion equals £2.9 billion, not £3.4 billion. New Labour, new maths.

The reason that we have such a crisis of confidence at the moment is that the Labour Party has tried to get away with a pathetic form of double accounting that has never been done by any modern democratic government. People now ask why we face problems in the national health service when we have all this extra spending, because they have taken you seriously. They have taken you at your word. It disheartens me, as a Conservative, to admit that you had a huge amount of public support at the last election. The first thing that you have done is squander it with this pathetic promise that has not lived up to reality.

I accept that the Assembly Secretary for Health and Social Services does not now use the extra £1 billion figure. It has not been used for the last three or four months. I invite her to reiterate the figure if she is willing to make that claim again. However, I think her reticence on this issue demonstrates the fear of ridicule if you dare use this sort of stunt again.

The capital building programme—new hospital building—was slashed from £62 million, when you came into office, to a

chwistrelliad o arian i gywiro'r hyn yr haerent ei fod yn danariannu yn yr NHS. Gwnaethant ddau addewid mawr, y cyntaf yn ymwneud â gwariant. Addawsant wario £1 biliwn yn ychwanegol ar yr NHS yng Nghymru, ar ben y llinell waelod o £2.4 biliwn. £2.4 biliwn a £1 biliwn—beth feddylwch chi Aelodau yw'r ateb? A oes unrhyw un eisiau rhoi cynnig arni? Yr wyf yn berffaith hapus i ganiatáu ymyriad. Fe wnaif y swm fy hun. £3.4 biliwn yw'r ateb a gaech chi, mae'n debyg, pe bai gennych grwp ffocws ar y mater hwn. Nid wyf yn meddwl y bu gan Lafur un erioed, ond efallai y gallem ni argymhell un. Nid yw'r system o rifydded syml iawn yn gweithio o dan Lafur. O dan Lafur, mae ychwanegu £1 biliwn at £2.4 biliwn yn rhoi £2.9 biliwn, nid £3.4 biliwn. Llafur newydd, mathemateg newydd.

Y rheswm pam y mae gennym y fath argyfwng hyder ar hyn o bryd yw bod y Blaid Lafur wedi ceisio gwneud ffurf bathetig o gyfrifyddiaeth ddwbl na wnaed erioed gan unrhyw lywodraeth ddemocrataidd fodern, a pheidio â chael ei dal. Y mae pobl bellach yn gofyn pam ein bod yn wynebu problemau yn y gwasanaeth iechyd gwladol a ninnau'n gwario'r holl arian ychwanegol yma, am eu bod wedi eich cymryd o ddifrif. Maent wedi eich cymryd ar eich gair. Mae'n fy nigelonni, fel Ceidwadwr, i gyfaddef ichi gael cefnogaeth enfawr o du'r cyhoedd yn yr etholiad diwethaf. Y peth cyntaf yr ydych wedi'i wneud yw ei hafradu gyda'r addewid pathetig yma sydd heb gael ei wireddu.

Yr wyf yn derbyn nad yw yr Ysgrifennydd Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn defnyddio'r ffigur £1 biliwn ychwanegol mwyach. Ni ddefnyddiwyd ef ers tri neu bedwar mis. Gwahoddaf hi i ailadrodd y ffigur os yw hi'n fodlon gwneud yr haerriad hwnnw eto. Fodd bynnag, yr wyf yn credu bod ei thawedogrwydd ar y mater hwn yn dangos bod arnoch ofn gwneud eich hunain yn destun gwawd os meiddiwch ddefnyddio'r math yma o dric eto.

Cafodd y rhaglen adeiladu cyfalaf—adeiladu ysbytai newydd—ei chwto'i o £62 miliwn, pan ddechreuasoch lywodraethu, i ragolwg o

projected £4 million by the year 2001. That is the biggest cut in national health service history. That is another Labour Party achievement. Your own stocktake report, written by civil servants, described that as a drastic reduction in the capital expenditure programme. We now know that the national health service in Wales faces an accumulative deficit of £72 million.

The stocktake has been necessitated because of the state of the national health service under the Labour administration. The current funding crisis means that—and I quote from the stocktake report, an impartial technical document written by civil servants—

‘there is no provision for developments in services such as mental health, and virtually none for primary care development.’

Mental health services, certainly primary care and preventative measures, are the heart of your current strategy for the national health service. Your own stocktake shows that you have no room for manoeuvre because of the way in which you are managing the national health service and the amount of funding that you are prepared to dedicate to it.

The stocktake raises the question of hospital closures. According to the report, there is

‘a need for more investment in rather fewer acute units than Wales currently has.’

Lorraine Barrett: Are you trying to tell us that your Government built a safe, strong NHS over the last 18 years? Are you really trying to tell us that you did no damage, that you did not decimate the NHS and leave it in such an appalling state that it is bound to take more than just over two years to start to put it right?

David Melding: I would like to give you a comprehensive answer. However, I was talking about the capital building programme and I shall limit my remarks in rebuttal to

£4 miliwn erbyn y flwyddyn 2001. Dyna'r toriad mwyaf yn hanes y gwasanaeth iechyd gwladol. Dyna gamp arall gan y Blaid Lafur. Fe ddisgrifiwyd hynny yn eich adroddiad arolwg eich hunain, a ysgrifennwyd gan weision sifil, fel cwtogiad drastig yn y rhaglen wariant cyfalaf. Gwyddom bellach fod y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru yn wynebu diffyg cronol o £72 miliwn.

Bu'n rhaid cynnal arolwg oherwydd cyflwr y gwasanaeth iechyd gwladol dan weinyddiad Llafur. Mae'r argyfwng ariannu presennol yn golygu—ac yr wyf yn dyfynnu o adroddiad arolwg, sydd yn ddogfen dechnegol ddiudedd a ysgrifennwyd gan weision sifil—

‘nid oes unrhyw ddarpariaeth ar gyfer datblygiadau mewn gwasanaethau fel iechyd meddwl, a phrin ddim ar gyfer datblygu gofal sylfaenol.’

Gwasanaethau iechyd meddwl, yn sicr o ran mesurau gofal sylfaenol ac ataliol, sydd wrth graidd eich strategaeth gyfredol ar gyfer y gwasanaeth iechyd gwladol. Mae eich arolwg eich hunain yn dangos nad oes gennych le i symud oherwydd y ffordd yr ydych yn rheoli'r gwasanaeth iechyd gwladol a faint o arian yr ydych yn barod i'w roi iddo.

Mae'r arolwg yn codi'r cwestiwn o gau ysbytai. Yn ôl yr adroddiad, mae

‘angen mwy o fuddsoddiad mewn nifer llai o unedau achosion llym nag sydd i'w cael yng Nghymru ar hyn o bryd.’

Lorraine Barrett: A ydych chi'n ceisio dweud wrthym fod eich Llywodraeth chi wedi adeiladu NHS diogel, cryf dros y 18 mlynedd diwethaf? Ydych chi'n ceisio dweud wrthym na wnaethoch chi unrhyw ddifrod, na wnaethoch chi anrheithio'r NHS a'i adael mewn cyflwr mor warthus fel ei bod yn siwr o gymryd mwy nag ychydig dros ddwy flynedd i ddechrau ei wella?

David Melding: Hoffwn roi ateb cynhwysfawr ichi. Fodd bynnag, yr oeddwn i'n siarad am y rhaglen adeiladu cyfalaf ac mi gyfyngaf fy sylwadau i ateb ar y pwynt

that. There was a record hospital building programme under the Conservative administration. On average, £100 million was spent per year. However, only £4 million is spent under the Labour Party. If you think that that is fantastic management, you are welcome to it.

The civil servants have said that there is a need for more investment in rather fewer acute units. 'Acute units' is cute civil service talk for hospitals. That is the current position. Since the stocktake, the former Labour Health Minister, Jon Owen Jones, has urged the Assembly to back Jane Hutt so that she can implement 'difficult decisions'. He commented in an article in *The Western Mail*, which I am sure you all read:

'NHS Wales simply cannot afford to run the present number of general hospitals'.

This man was running the national health service in Wales until we assumed that power in July. He went on to suggest that we consider reducing the number of hospitals from 16 to six. Is this the Labour Party agenda? I will give way to the Assembly Secretary for Health and Social Services if she wants to refute that now or I will look forward to her remarks in a few moments.

4:59 p.m.

The public will want to know. Will there be a hospital closure programme as a result of the crisis that this Labour Party has led us into in the NHS? The Assembly Secretary herself has been a little more candid on the option of cutting the numbers of doctors and nurses in Wales. In her written answer to me she said:

'the most appropriate means of restoring financial balance may involve a reduction in frontline NHS staff.'

Will the Assembly Secretary now withdraw that remark? There is no response. If she does not withdraw the remark in her speech

hwnnw. Cafwyd rhaglen adeiladu ysbytai a oedd yn fwy nag erioed o'r blaen dan y weinyddiaeth Geidwadol. Ar gyfartaledd, gwariwyd £100 miliwn y flwyddyn. Fodd bynnag, dim ond £4 miliwn a werir dan y Blaid Lafur. Os ydych chi'n meddwl mai rheoli gwych yw hynny, mae croeso ichi ei gadw.

Mae'r gweision sifil wedi dweud fod angen mwy o fuddsoddiad mewn ychydig llai o unedau achosion llym. 'Unedau achosion llym' yw term y gwasanaeth sifil am ysbytai. Dyna'r sefyllfa bresennol. Ers y cyfrif stoc, mae'r cyn Weinidog Iechyd Llafur, Jon Owen Jones, wedi annog y Cynulliad i gefnogi Jane Hutt er mwyn iddi allu gweithredu 'penderfyniadau anodd'. Gwnaeth y sylw mewn erthygl yn *The Western Mail*, a ddarllenwyd gan bawb ohonoch, yr wyf yn siwr:

'Ni all NHS Cymru fforddio cynnal y nifer presennol o ysbytai cyffredinol'.

Y dyn hwn a oedd yn rhedeg y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru nes i ni gymryd yr awenau ym mis Gorffennaf. Aeth yn ei flaen i awgrymu y gallem ystyried lleihau nifer yr ysbytai o 16 i chwech. Ai dyma agenda'r Blaid Lafur? Fe wnaif ildio i'r Ysgrifennydd Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol os hoffai hi wadu hynny yn awr, neu fe edrychaf ymlaen at ei sylwadau ymhennu neu ddau.

Bydd ar y cyhoedd eisiau gwybod. A fydd rhaglen gau ysbytai o ganlyniad i'r argyfwng yma yr arweiniwyd ni iddo yn yr NHS gan y Blaid Lafur hon? Bu'r Ysgrifennydd Cynulliad ei hun ychydig yn fwy gonest ar y dewis o gwtogi niferoedd meddygon a nyrsys yng Nghymru. Yn ei hateb ysgrifenedig imi, dywedodd:

'gall y dull mwyaf priodol o adfer cydbwysedd ariannol olygu lleihau nifer staff rheng flaen yr NHS.'

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cynulliad dynnu'r sylw hwnnw yn ôl yn awr? Nid oes dim ymateb. Os na fydd hi'n tynnu'r sylw'n ôl yn

the morale of the workforce in the NHS will continue to be at rock bottom; cutting the number of doctors and nurses after a vast expansion during the Conservative Party's years of administration.

This is the new national health service under Labour: a massive cut in the capital programme to build hospitals; a threat to the existing hospitals; the option of reducing the number of doctors and nurses.

In my opening remarks I said there had been two great promises and now I come to the second, which was to cut waiting lists. This has turned into an embarrassing disaster for Labour. In Wales waiting lists have risen not fallen. The number waiting for more than 18 months has doubled. Those are not the longest waiting lists, the number has doubled since you came to office. The number waiting for a first outpatient appointment has increased under Labour from 100,000 to 152,000. The number waiting for more than six months for that first outpatient appointment is up from 6,000 when Labour came into office to nearly 26,000 today. That is an increase of 330 per cent. That is lousy medical practice. You deprive people of firm diagnosis by delaying this first appointment. It is a disaster for those waiting and suffering; coping with the uncertainty of a condition before it is fully diagnosed and treatment prescribed.

Remember this was Labour's big test. They said they could be judged on performance on waiting lists. I have not suggested this, this is what you asked to be judged on. You are now half way through your administration in the UK context and you have singularly failed to deliver on waiting lists. We have a truncated debate unfortunately so I will draw my remarks to a close. However, I will ponder that the lyric 'things can only get better' has a somewhat Orwellian ring about it now.

The Presiding Officer: We have a truncated debate for reasons beyond my control. However, I would like to point out that I have six more speakers. You know that in minority

ei haraith bydd morâl y gweithlu yn yr NHS yn parhau i fod yn isel iawn; gyda thoriad yn niferoedd meddygon a nyrsys ar ôl yr ehangu mawr a ddigwyddodd yn ystod blynyddoedd y bu'r Blaid Geidwadol mewn grym.

Dyma'r gwasanaeth iechyd gwladol newydd dan Lafur: toriad anferth yn y rhaglen gyfalaf i adeiladu ysbytai; bygythiad i'r ysbytai presennol; y dewis o leihau niferoedd meddygon a nyrsys.

Yn fy sylwadau agoriadol dywedais y cafwyd dau addewid mawr, ac yn awr deuaif at yr ail, sef torri rhestrau aros. Trodd hyn yn drychineb ac yn embaras i Lafur. Yng Nghymru, codi wnaeth rhestrau aros, nid cwmpo. Mae'r nifer sydd yn aros ers dros 18 mis wedi dyblu. Nid dyna'r rhestrau aros hwyaf, mae'r nifer wedi dyblu ers ichi ddod i rym. Mae'r nifer sydd yn aros am apwyntiad cyntaf claf allanol wedi cynyddu dan Lafur o 100,000 i 152,000. Mae'r nifer sydd yn aros ers dros chwe mis am apwyntiad cyntaf claf allanol i fyny o 6,000 pan ddechreuodd Llafur lywodraethu i bron 26,000 heddiw. Dyna gynnydd o 330 y cant. Arfer meddygol gwael yw hynny. Yr ydych yn amddifadu pobl o gael diagnosis cadarn drwy oedi'r apwyntiad cyntaf. Mae'n drychineb i'r rhai sydd yn aros ac yn dioddef, yn ymdopi ag ansicrwydd cyflwr cyn iddo gael ei ddadansoddi'n llawn ac i driniaeth gael ei phennu.

Cofiwch mai hwn oedd prawf mawr Llafur. Dywedasant y gellid eu barnu ar sail perfformiad ar restrau aros. Nid fi sydd wedi awgrymu hyn, dyma y gofynasoch chi am gael eich barnu arno. Yr ydych erbyn hyn hanner ffordd drwy eich gweinyddiad yng nghyd-destun y DU ac yr ydych wedi methu yn hynod â chyflawni'ch gair ar restrau aros. Mae ein dadl wedi'i chwtoegi ysywaeth, felly caeaf ben y mwdwl ar fy sylwadau. Fodd bynnag fe wnaif dybio fod tinc Orwellaidd braidd erbyn hyn i'r geiriau 'things can only get better'.

Y Llywydd: Mae ein dadl wedi'i chwtoegi am resymau y tu hwnt i'm rheolaeth i. Fodd bynnag, hoffwn nodi fod gennyf chwech o siaradwyr eto. Gwyddoch y byddaf mewn

debates I defer in favour of the party that has the debate. I also try to call all parties. Will you please ensure that I can call the Secretary for Health and Social Services at 5:20 p.m. or thereabouts.

David Lloyd: As you all know I am a GP in Swansea and my practice was one of the first which the new Secretary for Health and Social Services visited on her appointment in June. I was then still practising as a full time GP. This is about patients, illness and suffering. I do not want to see the NHS becoming a political football and that is what appears to be happening this afternoon. The people of Wales do not want to be lectured by Members of the Conservative Party about the NHS, thank you very much David.

We have a truly disastrous legacy, but I shall confine my comments to what the motion is about. We will support this Conservative motion because there is a funding crisis. There is no escaping from the fact that health spending per head in the UK is less than comparable Western democracies. Health statistics in the UK are also among the worst in Europe and health statistics in Wales are the worst in the UK. Therefore, we are the sickest bit of the sick man in Europe and we try to cure it by spending the least amount of money. However, the budget allocated to this Assembly is beyond our control. Again, we must confine our talk to what we can achieve with the £2.5 or £2.6 billion, whatever we have to spend in Wales.

It is too simplistic to suggest that we should close a few hospitals to save money. We need a more wide ranging, mature debate, far away from a political slanging match, which I do not intend to enter into today. Tomorrow, we will be discussing the budget in the Health and Social Services Committee. We will press for action and mature, wide ranging debate on such things as reducing the drugs bill; what can be done about structures and streamlining administration; the spiralling costs of litigation; the private

dadleuon lleiafrifol yn ildio o blaid y plaid sydd yn cynnal y ddadl. Byddaf hefyd yn ceisio galw ar bob plaid. Os gwelwch yn dda a wnewch chi sicrhau y gallaf alw'r Ysgrifennydd dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am neu oddeutu 5.20 p.m.

David Lloyd: Fel y gwyddoch i gyd, yr wyf i'n feddyg teulu yn Abertawe, a'm practis i oedd un o'r rhai cyntaf i gael ymweliad gan yr Ysgrifennydd newydd dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ei phenodiad ym Mehefin. Yr oeddwn i bryd hynny yn dal i ymarfer fel meddyg amser llawn. Dadl yw hon am gleifion, salwch a dioddefaint. Nid oes arnaf eisiau gweld troi'r NHS yn bêl droed wleidyddol a dyna sydd i'w weld yn digwydd y prynhawn yma. Nid oes ar bobl Cymru eisiau pregeth gan Aelodau'r Blaid Geidwadol ar yr NHS, diolch yn fawr iawn David.

Mae gennym etifeddiaeth wirioneddol drychinebus, ond fe gyfyngaf fy sylwadau i destun y cynnig. Fe wnawn gefnogi'r cynnig hwn gan y Ceidwadwyr oherwydd y mae yna argyfwng ariannu. Nid oes dianc oddi wrth y ffaith fod gwariant y pen ar iechyd yn y DU yn llai nag mewn democratiaethau cymharol yn y Gorllewin. Mae ystadegau iechyd yn y DU ymhlith y gwaethaf yn Ewrop hefyd ac ystadegau iechyd Cymru yw'r gwaethaf yn y DU. Felly, ni yw'r rhan waelaf o'r dyn claf yn Ewrop, a cheisiwn wella hynny drwy wario'r swm lleiaf o arian. Fodd bynnag, mae'r gyllideb a ddyrannwyd i'r Cynulliad hwn y tu hwnt i'n rheolaeth. Eto, rhaid inni gyfyngu'n siarad i'r hyn y gallwn ei gyflawni gyda'r £2.5 neu £2.6 biliwn, beth bynnag sydd gennym i'w wario yng Nghymru.

Mae'n rhy simplistig awgrymu y dylem gau ychydig o ysbytai er mwyn arbed arian. Mae arnom angen dadl ehangach, fwy aeddfed, ymhell o fod yn ffraeo gwleidyddol, nad wyf i'n barod i gymryd rhan ynddo heddiw. Yfory, byddwn yn trafod y gyllideb yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Byddwn yn pwysu am weithredu a dadl aeddfed, eang ar bethau fel lleihau'r bil cyffuriau; beth y gellir ei wneud ynghylch strwythurau a sicrhau gweinyddu mwy effeithlon; costau cynyddol mynd i

finance initiative, which will cost and is costing the NHS a tremendous amount of money that is unsustainable in the long term. That is what we should be debating within the confines of a limited NHS budget. We must address patient demand, which is increasingly becoming consumerism. We must also address the general underfunding, the morale and the recruitment and retention crisis in the medical, nursing and midwifery fraternity and every other sector in the health service. Plaid Cymru will not be lectured by a Conservative on what doctors and nurses think.

Ninety per cent of patient contacts in this country occur now in the community. That is why Jon Owen Jones's proposal to centralise everything in distant city areas is as ludicrous as it is to base a policy solely on the training ideals of the Royal College of Surgeons.

We support the motion. We are particularly keen to have the debate on not closing hospitals because, as GP's, we have faced declining numbers of hospital beds every day. Under both the Conservative and the Labour Parties, the number of hospital beds is reducing year on year. Here in south Wales, the beds crisis makes it virtually impossible to admit somebody to hospital in an emergency, without having them winging up and down the M4 corridor. That started under David's Government.

While we support the meaning of Jane Hutt's amendment, we oppose it because it seeks to replace the second bullet point about rejecting the call for hospital closure. If Jane Hutt was willing to put her amendment:

'Notes with dismay that this crisis is largely the legacy of decades of underfunding and marketisation of the NHS Wales by previous Tory administrators.'

as a third bullet point we would accept it. However, we do not accept it as a

gyfraith; y fenter cyllid preifat, a fydd ac sydd yn costio swm anferth o arian i'r NHS nad yw'n gynaliadwy yn y tymor hir. Dyna beth y dylem fod yn ei drafod o fewn terfynau cyllideb gyfyngedig yr NHS. Rhaid inni ymateb i alw'r cleifion, sydd fwyfwy'n troi'n brynwriaeth. Rhaid inni hefyd fynd i'r afael â'r tanariannu cyffredinol, y morâl yn gyffredinol a'r argyfwng o ran recriwtio a chadw staff ym myd meddygaeth, nyrsio a bydweigiaeth a phob sector arall yn y gwasanaeth iechyd. Ni wnaiff Plaid Cymru dderbyn darlith gan Geidwadwr ar yr hyn y mae meddygon a nyrsys yn ei feddwl.

Mae naw deg y cant o gysylltiadau â chleifion yn y wlad hon yn digwydd yn y gymuned erbyn hyn. Dyna pam y mae cynnig Jon Owen Jones i ganoli popeth mewn ardaloedd dinesig pell yr un mor chwerthinllyd ag ydyw seilio polisi yn gyfan gwbl ar ddelfrydau hyfforddi Coleg Brenhinol y Llawfeddygon.

Yr ydym yn cefnogi'r cynnig. Yr ydym yn arbennig o awyddus i gael y ddaid ar beidio â chau ysbytai oherwydd, fel meddygon teulu, yr ydym wedi wynebu gostyngiadau dyddiol yn niferoedd gwelyau ysbyty. Dan y Pleidiau Ceidwadol a Llafur fel ei gilydd, mae nifer y gwelyau ysbyty ar i lawr flwyddyn ar ôl blwyddyn. Yma yn y de, mae'r argyfwng gwelyau yn golygu ei bod i bob pwrpas yn amhosibl derbyn rhywun i'r ysbyty mewn argyfwng, heb wibio i fyny ac i lawr coridor yr M4 gyda nhw. Dechreuodd hynny o dan Lywodraeth David.

Tra ein bod yn cefnogi ystyr gwelliant Jane Hutt, yr ydym yn ei wrthwynebu am ei fod yn ceisio cymryd lle'r ail bwynt bwled ynghylch gwrthod yr alwad am gau ysbytai. Pe bai Jane Hutt yn fodlon rhoi'r canlynol yn ei gwelliant:

'Yn nodi â siom fod yr argyfwng hwn i raddau helaeth yn waddol degawdau o danariannu a marchnateiddio'r NHS yng Nghymru gan weinyddwyr Toriaidd yn y gorffennol.'

fel trydydd pwynt bwled byddem yn ei dderbyn. Fodd bynnag, nid ydym yn ei

replacement of the second bullet point. We must have a debate on the future funding of the NHS and not on historical facts, true though they may be.

5:09 p.m.

Kirsty Williams: When I became interested in politics I had a particular interest in various subjects and I admit that the health service was not one of them. I do not approach the health service from a professional capacity or expertise such as my Plaid Cymru colleague or from a management capacity like some of the Conservatives. However, I developed an interest in the health service as a resident of Builth Wells whose hospital was threatened with closure and who wanted to know that if I was ill that there was a hospital there for me.

The Conservatives are right to describe the situation in Wales as a crisis. That word is sometimes overused and can be melodramatic but I agree with you David that we face a crisis. The £72 million deficit which the health authorities will have accumulated by the end of this financial year is frightening. £72 million trips easily off the tongue and rolls nicely. However, behind every pound and pence of that £72 million there is a human story of misery, pain and suffering. Behind every pound and pence there is the person who cannot get paediatric heart surgery because it is not available in Wales. People in the Bro Taf Health Authority have to wait six years for a hip replacement operation. I also commend you David for referring to the NHS stocktake. I remind you that the stocktake emphasised the disastrous nature of the Conservative Party's policy on the internal market.

David Melding: It is indulgent of me to intervene as I have just given a speech. The new system will have as many financial difficulties and managerial challenges as the old one. It is neutral on that subject.

Kirsty Williams: I am pleased that you recognised that the new system could be as

dderbyn os yw'n cymryd lle'r ail bwynt bwled. Rhaid inni gael dadl ar ariannu'r NHS yn y dyfodol ac nid ar ffeithiau hanesyddol, er mor wir y bônt.

Kirsty Williams: Pan ddechreuais ymddiddori mewn gwleidyddiaeth yr oedd gennyf ddiddordeb arbennig mewn rhai pynciau ac yr wyf yn cyfaddef nad oedd y gwasanaeth iechyd yn un ohonynt. Nid wyf yn edrych ar y gwasanaeth iechyd o safbwynt nac arbenigedd proffesiynol fel fy nghyfaill o Blaid Cymru nac o safbwynt rheoli fel rhai o'r Ceidwadwyr. Fodd bynnag, fe ddatblygais ddiddordeb yn y gwasanaeth iechyd fel un o drigolion Llanfair-ym-Muallt pan fygythwyd cau'r ysbyty yno a minnau eisiau gwybod y byddai yno ysbyty imi pe bawn i'n sâl.

Mae'r Ceidwadwyr yn iawn pan ddisgrifiant y sefyllfa yng Nghymru fel argyfwng. Weithiau fe orddefnyddir y gair hwnnw a gall fod yn felodramatig, ond cytunaf gyda chi David ein bod yn wynebu argyfwng. Mae'r £72 miliwn o ddiffyg a fydd wedi cronni gan yr awdurdodau iechyd erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon yn frawychus. Mae £72 miliwn yn llithro'n hawdd dros y tafod ac yn llifo'n dda. Fodd bynnag, y tu ôl i bob punt a cheiniog o'r £72 miliwn hynny mae stori ddynol am drallod, poen a dioddefaint. Y tu ôl i bob punt a cheiniog mae rhywun sydd yn methu cael llawdriniaeth bediatrig ar y galon am nad ydyw ar gael yng Nghymru. Rhaid i bobl yn Awdurdod Iechyd Bro Taf aros chwe blynedd am lawdriniaeth i gael clun newydd. Yr wyf yn eich cymeradwyo hefyd David am gyfeirio at yr arolwg o sefyllfa'r NHS. Fe'ch atgoffaf y bu i'r arolwg bwysleisio natur drychinebus polisi'r Blaid Geidwadol ar y farchnad fewnol.

David Melding: Hunanfaldod ar fy rhan yw ymyrryd gan fy mod newydd roi araith. Bydd gan y system newydd gymaint o anawsterau ariannol a heriau rheolaethol â'r hen un. Mae'n niwtral ar y mater hwnnw.

Kirsty Williams: Yr wyf yn falch eich bod wedi cydnabod y gallai'r system newydd fod

bad as the old. The NHS stocktake clearly states that the internal market and the culture it created within the health service where people were forced to compete against each other for patients and money has been a disastrous one. Dai mentioned beds and perhaps I can put facts behind his words. In 1980 there were some 8.4 beds per 1,000 of the population. By 1996, when we were coming to the end of the Conservative Government in London that figure had dropped to 5.5 beds. Dai is correct to point out that the bed numbers have dropped and have continued to do so under this administration.

Although the Conservatives are not free of blame for the situation we now face it does not help the people of Wales to dwell on the past. We must look to the future but it does not seem promising under the current Labour administration's policies for the health service. David has already referred to the creative accounting in the health-spending budget. He has also pointed out the increase not only in waiting lists but also the massive increase in waiting times. If I were a patient it would not matter how many people were in front of me on the list but how long I would have to put up with my condition before I was treated. Waiting times rather than waiting lists must be the true reflection of how we deal with things in the health service. The Labour Party is not delivering to the people of Wales on this issue.

Hospital closures is a subject close to my heart after spending 18 months of my political life fighting against closures in my constituency. It is ironic that the man in charge of running the health service in Wales suddenly presents plans for the health service that bear no resemblance to his actions up until 1 July. The Assembly seems keen to wash its hands of these plans. There is no sense of ownership. It is also ironic that the civil servants who helped Jon Owen Jones to draft them are the same people serving the First Secretary in the Assembly.

cyn waethed â'r hen un. Mae arolwg yr NHS yn datgan yn glir y bu'r farchnad fewnol a'r diwylliant a greodd o fewn y gwasanaeth iechyd lle gorfodid pobl i gystadlu yn erbyn ei gilydd am gleifion ac arian yn system drychinebus. Soniodd Dai am welyau ac efallai y gallaf gefnogi ei eiriau â ffeithiau. Ym 1980 yr oedd rhyw 8.4 o welyau am bob 1,000 o boblogaeth. Erbyn 1996, pan oeddem yn dod at ddiwedd y Llywodraeth Geidwadol yn Llundain, yr oedd y ffigur hwnnw wedi cwmpo i 5.5 o welyau. Mae Dai'n gywir pan ddywed fod niferoedd y gwelyau wedi cwmpo ac wedi parhau i wneud hynny dan y weinyddiaeth bresennol.

Er bod bai ar y Ceidwadwyr am y sefyllfa a wynebwn yn awr, nid yw edrych yn ôl yn mynd i helpu pobl Cymru. Rhaid inni edrych i'r dyfodol, ond nid yw'n ymddangos yn addawol dan bolisiau'r weinyddiaeth Lafur bresennol ar gyfer y gwasanaeth iechyd. Mae David eisoes wedi cyfeirio at y gyfrifyddiaeth greadigol yng nghyllideb gwariant iechyd. Mae hefyd wedi tynnu sylw at y cynnydd nid yn unig mewn rhestrau aros ond hefyd y cynnydd enfawr mewn amserau aros. Pe bawn i'n glaf ni fyddai ots faint o bobl fyddai o'm blaen i ar y rhestr, ond yn hytrach am ba hyd y byddai'n rhaid imi ddioddef gyda'm cyflwr cyn cael triniaeth. Rhaid i amserau aros yn hytrach na rhestrau aros fod yn wir adlewyrchiad o'r modd y deliwn â phethau yn y gwasanaeth iechyd yn hytrach na rhestrau aros. Nid yw'r Blaid Lafur yn rhoi gwasanaeth priodol i bobl Cymru ar y mater hwn.

Y mae cau ysbytai'n bwnc sydd yn agos at fy nghalon ar ôl treulio 18 mis o'm bywyd gwleidyddol yn ymladd yn erbyn cau ysbytai yn fy etholaeth. Mae'n eironig fod y dyn sydd yn gyfrifol am redeg y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn sydyn yn cyflwyno cynlluniau ar gyfer y gwasanaeth iechyd sydd heb unrhyw debygrwydd i'w weithredoedd hyd at 1 Gorffennaf. Mae'r Cynulliad fel pe bai'n awyddus i olchi'i ddwylo o'r cynlluniau hyn. Nid oes unrhyw synnwyr perchnogaeth. Y mae'n eironig hefyd mai'r gweision sifil a helpodd Jon Owen Jones i'w drafftio yw'r union bobl sydd yn gwasanaethu'r Prif Ysgrifennydd yn y

Cynulliad.

What status do those plans have? I wrote to Jane Hutt on 31 August enquiring whether she would take these plans forward or shelve them. I am still waiting for a reply.

The health service cannot continue like this. The all-party Westminster Committee that reported on the state of the health service maintained that there was very little we could do for the health service in Wales without more resources being made available centrally. To take things forward, we must have an open and honest debate. Sitting on reports with or without credence is not the way to conduct a debate. I would like Jane to give me the status of Jon Owen Jones's report. Does it bear any credence or is it the precursor of Bob Hudson's corporate strategy? On 21 July, Jane promised the Health and Social Services Committee that there would be no hit list of hospitals. Does that promise still stand?

David Davies: Dai Lloyd used his time to give us a history lesson. If the last 18 years are relevant to this debate, what about the years before that? What about the time of the last Labour Government when things were so bad, bodies were piling up in the street. If the last 18 years are relevant, the preceding years are equally relevant.

However, I am concerned about hospital closures because a year ago, many of us in north Monmouthshire opposed the merger of the trusts into one giant super trust. This happened all over Wales. We were concerned because we felt that the merger would result in the closure of hospitals like Nevill Hall in Abergavenny. We made these points over and over again and were told over and over again that merging the trusts would not mean closing down the accident and emergency unit or downgrading the hospital. In fact, just as they were making these promises, that is exactly what they considered doing. The people of north Monmouthshire must have been disappointed

Pa statws sydd gan y cynlluniau hyn? Ysgrifennais at Jane Hutt ar 31 Awst yn holi a fyddai hi'n mynd â'r cynlluniau hyn yn eu blaenau ynteu'n eu gadael ar y silff. Yr wyf yn dal i aros am ateb.

Ni all y gwasanaeth iechyd fynd yn ei flaen fel hyn. Haerodd y Pwyllgor oll-bleidiol yn San Steffan a adroddodd ar gyflwr y gwasanaeth iechyd nad oedd fawr ddim y gallem ei wneud dros y gwasanaeth iechyd yng Nghymru heb i fwy o adnoddau gael eu darparu'n ganolog. I symud pethau yn eu blaenau, rhaid inni gael dadl agored a gonest. Nid eistedd ar adroddiadau yn fwiadol neu fel arall yw'r ffordd i gynnal dadl. Hoffwn i Jane roi statws adroddiad Jon Owen Jones imi. A oes unrhyw goel arno ynteu ai rhagflaenydd strategaeth gorfforaethol Bob Hudson ydyw? Ar 21 Gorffennaf, addawodd Jane i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol na fyddai unrhyw restr o ysbytai i'w cau. A ydyw'r addewid hwnnw'n dal i sefyll?

David Davies: Defnyddiodd Dai Lloyd ei amser i roi gwrs hanes inni. Os yw'r 18 mlynedd diwethaf yn berthnasol i'r ddadl hon, beth am y blynyddoedd cyn hynny? Beth am adeg y Llywodraeth Lafur ddiwethaf pan oedd pethau gynddrwg fel bod cyrff yn pentyrru ar y stryd? Os yw'r 18 mlynedd diwethaf yn berthnasol, mae'r blynyddoedd cyn hynny yr un mor berthnasol.

Fodd bynnag, yr wyf yn poeni ynghylch cau ysbytai oherwydd flwyddyn yn ôl, bu llawer ohonom yng ngogledd sir Fynwy yn gwrthwynebu cyfuno'r ymddiriedolaethau a chreu un ymddiriedolaeth enfawr. Digwyddodd hyn ledled Cymru. Yr oeddem yn bryderus oherwydd ein bod yn teimlo y byddai'r uno'n arwain at gau ysbytai fel Nevill Hall yn y Fenni. Gwnaethom y pwyntiau hyn dro ar ôl tro a dywedwyd wrthym dro ar ôl tro na fyddai uno'r ymddiriedolaethau'n golygu cau'r uned ddamwain ac argyfwng nac israddio'r ysbyty. Mewn gwirionedd, wrth iddynt wneud y penderfyniadau hyn, dyna'n union yr oeddent yn ystyried ei wneud. Mae'n rhaid bod pobl

to read Jon Owen Jones's comments.

gogledd sir Fynwy'n siomedig pan ddarllenasant sylwadau Jon Owen Jones.

However, I do not want to be too parochial about this issue, I know my time is brief—*[Laughter.]* If NHS management is improved, it might not be so brief.

Fodd bynnag, nid oes arnaf eisiau bod yn rhy blwyfol ynghylch y mater hwn, gwn fod fy amser yn fyr—*[Chwerthin.]* Pe bai gwelliant yn rheolaeth yr NHS, efallai na fyddai mor fyr.

This debate affects people from all over Wales, not just rural areas and, Rhodri Glyn Thomas without the benefit of notes, I would like to say:

Mae'r ddadl hon yn effeithio ar bobl o bob man yng Nghymru, nid dim ond ardaloedd gwledig, a, Rhodri Glyn Thomas, heb fanteisio ar nodiadau, hoffwn ddweud:

Mae gan bobl sydd yn byw mewn cymunedau cefn gwlad yr hawl i gael ysbytai lleol.

People who live in rural communities have the right to local hospitals.

Nick Bourne: I find it quite extraordinary that, having said he would not make a political speech on the health service, Dai Lloyd used his time for an onslaught on the Conservative Party's record in Government. He also apologised to his former coalition partners for the breakdown of the coalition, as an explanation for why his party cannot support the amendment. I heard Brian Gibbons behind me say it looked as though the coalition had ended. I doubt it has, at least for the purposes of this important debate on the future of the national health service.

Nick Bourne: Mae'n rhyfeddol imi fod Dai Lloyd, ar ôl dweud na fyddai'n gwneud araith wleidyddol ar y gwasanaeth iechyd, wedi defnyddio'i amser i ymosod ar record y Blaid Geidwadol mewn Llywodraeth. Ymddiheurodd hefyd i'w gyn bartneriaid clymbleidiol am fethiant y glymblaid, fel eglurhad dros pam na all ei blaid ef gefnogi'r gwelliant. Clywais Brian Gibbons y tu ôl imi yn dweud ei bod yn ymddangos fod y glymblaid ar ben. Yr wyf yn amau hynny, o leiaf i ddibenion y ddadl bwysig hon ar ddyfodol y gwasanaeth iechyd gwladol.

5:19 p.m.

In cynical mode, I was very suspicious of a speech and an article by the former Health Minister for Wales. The man who had been in charge of the health service until 1 July made a speech and released an article in August. Surely he was flying a kite and acting as a stalking horse for the present person in charge of the health service in Wales, Jane Hutt. I cannot believe that he did not speak to her about his proposals. Surely there must be a Hutt hit list and if not, the Secretary for Health and Social Services had the opportunity during David Melding's speech to get up and deny the existence of such a hit list and the intention to cut back hospital services. I trust that she will have a second opportunity to speak shortly and that she will tell us that she has no intention to

A bod yn sinigaidd, yr oeddwn yn amheus iawn o araith ac erthygl gan y cyn Weinidog Iechyd dros Gymru. Bu i'r dyn a fu'n gyfrifol am y gwasanaeth iechyd tan 1 Gorffennaf wneud araith a rhyddhau erthygl ym mis Awst. Bid siwr yr oedd yn hedfan barcud ac yn gweithredu fel ceffyl tywyll ar ran y sawl sydd ar hyn o bryd yn gyfrifol am y gwasanaeth iechyd yng Nghymru, sef Jane Hutt. Ni allaf gredu na siaradodd ef â hi ynglyn â'i gynigion. Mae'n rhaid fod yna restr gau gan Hutt ac os nad oes, cafodd yr Ysgrifennydd dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyfle yn ystod araith David Melding i godi a gwadu bodolaeth rhestr o'r fath a'r bwriad i gwtogi gwasanaethau ysbyty. Hyderaf y bydd ganddi ail gyfle i siarad ymhen ychydig ac y dywed wrthym

close or downgrade hospitals or cut back on hospital services. I hope she will commit herself to the matter of blocking the appointment of a fourth consultant at the Prince Philip Hospital, Llanelli which I know Helen Mary Jones is keen to see.

There are more ways of killing hospitals than announcing closure. I hope Jane Hutt will tell us why the waiting lists are going up and up and up after being told things could only get better under this Labour Government in terms of waiting lists. This was one of their five early pledges. Two and a half years later, what constitutes 'early' in the Labour dictionary because waiting lists have doubled in Wales? I would like to hear why waiting lists are longer and why people are having more serious treatment when they are admitted because of the disaster we have.

I would also like a reassurance on something that was raised in the Health and Social Services Committee about the costs of moving the staff from Crickhowell House. This was shown as a debit on the health service budget. Why should that be taken out of the health service budget? On behalf of patients in Wales I would like a reassurance that there will be no cutbacks in Welsh hospitals, there will be no closures and that the deficit will be made good without cutting back on services. We already know from the written answers that there will be cutbacks on the staff that was built up during Conservative years, just as the Llanelli hospital that was built and opened under the Conservative Government faces problems.

The Secretary for Health and Social Services (Jane Hutt): I propose the following amendment. Replace the second bullet point with

notes with dismay that the crisis is largely the legacy of decades of under-funding and marketisation of the NHS Wales by previous Tory administrators.

I did not respond to the jibes during the last

nad oes ganddi unrhyw fwrriad i gau nac israddio ysbytai na chwrtogi gwasanaethau ysbyty. Yr wyf yn gobeithio y gwnaiff hi ymrwymo i wrthwynebu penodi pedwerydd ymgynghorydd yn Ysbyty'r Tywysog Philip, Llanelli, a fyddai wrth fodd Helen Mary Jones, mi wn.

Mae mwy o ffyrdd o ladd ysbytai na chyhoeddi eu cau. Gobeithio y dywed Jane Hutt wrthym pam y mae'r rhestrau aros yn codi a chodi a chodi ar ôl inni glywed na allai pethau ond gwella dan y Llywodraeth Lafur hon o safbwynt rhestrau aros. Dyma un o'u pum addewid cynnar. Ddwy flynedd a hanner yn ddiweddarach, beth yw ystyr 'cynnar' yng ngeiriadur Llafur, oherwydd mae rhestrau aros wedi dyblu yng Nghymru. Hoffwn glywed pam y mae rhestrau aros yn hwy a pham y mae pobl yn cael triniaeth fwy difrifol pan gânt eu derbyn oherwydd y trychineb sydd gennym.

Hoffwn gael sicrwydd hefyd ar rywbeth a godwyd yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch costau symud y staff o Dy Crugywel. Dangoswyd hyn fel debyd ar gyllideb y gwasanaeth iechyd. Pam ddylai hynny gael ei gymryd allan o gyllideb y gwasanaeth iechyd? Ar ran cleifion yng Nghymru hoffwn gael sicrwydd na fydd dim cwtogi ar ysbytai yng Nghymru, na fydd cau ysbytai ac y gwneir iawn am y diffyg heb dorri gwasanaethau. Gwyddom eisoes o'r atebion ysgrifenedig y bydd yna doriadau yn y staff a gynyddwyd yn ystod blynyddoedd y Ceidwadwyr, yn yr un modd ag y mae'r ysbyty yn Llanelli a adeiladwyd ac a agorwyd dan y Llywodraeth Geidwadol yn wynebu problemau.

Yr Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt): Cynigiaf y gwelliant canlynol. Yn lle'r ail bwynt bwled rhodder

yn nodi â siom fod yr argyfwng hwn i raddau helaeth yn waddol degawdau o danariannu a marchnateiddio'r NHS yng Nghymru gan weinyddwyr Toriaidd yn y gorffennol.

Nid ymatebais i'r herian yn ystod yr ychydig

few minutes as I would rather give my response in this speech. It is interesting that we have lost the snarling gentleman from the seat over there, but now the snarls seem to be coming from the rest of the gentlemen and farmers on our left. People watching this debate from outside or from the back of the Chamber would be excused for wondering whether we were in Westminster or the Assembly. I hope that we will be able to have a mature debate on the health service because the things said today add to the fears that people have in Wales. I have spent the last four months going around to reassure people in Dyfed Powys, in Llanelli and Carmarthen. Yesterday I met people in Monmouthshire and reassured them about Nevill Hall Hospital. I do the same in Blaenau Gwent and north Wales. Those in the Chamber and the public know what I have done in the last four months.

Over the past few days we have had a serious and important debate on the state of our nation and our people; our farming families, our miners and children. These debates touch on the health and wellbeing of the people of Wales. When I came into office in May I was clear about my objectives, responsibilities and challenges. We have unacceptable levels of chronic ill health which blight our communities. This is what we should be debating today. Despite recent improvements in health, the harsh reality is that a substantial proportion of the population remains deeply disadvantaged in health and life expectancy. People in Wales die younger. We have a life expectancy amongst the lowest in Europe and the highest rate of cancer registrations in the European Union. Our Welsh health survey, which I published today, provides a stark picture of the pockets of chronic and extreme ill health in our communities. There are health inequalities which divide Wales into the 'haves' and the 'have nots', such as the fact that the lung cancer death rate for men under 75 years old in Blaenau Gwent is around twice the figure for Powys. The Cabinet's goal is to turn this around, and the major debate is how we can

funudau diwethaf gan fod yn well gennyf roi fy ymateb yn yr araith hon. Mae'n ddiddorol ein bod wedi colli'r gwr bonheddig ysgyrnygus o'r sedd draw fan acw, ond yn awr mae'r ysgyrnygu fel pe bai'n dod o enau'r gweddill o'r gwyr bonheddig a'r ffermwyr ar y chwith inni. Gellid maddau i bobl a wyliai'r ddadl hon o'r tu allan neu o gefn y Siambr am fethu gwybod ai yn San Steffan ynteu'r Cynulliad yr oeddem ni. Yr wyf yn gobeithio y byddwn yn gallu cael dadl aeddfed ar y gwasanaeth iechyd oherwydd y mae'r pethau a ddywedwyd heddiw yn ychwanegu at yr ofnau sydd gan bobl yng Nghymru. Yr wyf wedi treulio'r pedwar mis diwethaf yn mynd o gwmpas i dawelu meddyliau pobl yn Nyfed Powys, yn Llanelli a Chaerfyrddin. Ddoe fe gyfarfûm â phobl yn sir Fynwy a thawelais eu hofnau am Ysbyty Nevill Hall. Byddaf yn gwneud yr un peth ym Mlaenau Gwent a gogledd Cymru. Mae'r bobl yn y Siambr a'r cyhoedd yn gwybod beth y bûm yn ei wneud yn y pedwar mis diwethaf.

Dros yr ychydig ddyddiau diwethaf yr ydym wedi cael dadl ddifrifol a phwysig ar gyflwr ein cenedl a'n pobl; ein teuluoedd ffermio, ein glowyr a'n plant. Mae'r dadleuon hyn yn cyffwrdd ag iechyd a lles pobl Cymru. Pan ddeuthum i'm swydd ym mis Mai yr oeddwn yn glir ynghylch fy amcanion, fy nghyfrifoldebau a'r her a wynebwn. Mae gennym lefelau annerbyniol o afiechyd cronig sydd yn falltodd ar ein cymunedau. Dyma'r hyn y dylem fod yn ei drafod heddiw. Er gwaethaf gwelliannau diweddar mewn iechyd, y gwir creulon yw bod cyfran sylweddol o'r boblogaeth yn dal dan anfantais ddifrifol o safbwynt iechyd a disgwyliad oes. Mae pobl yng Nghymru yn marw'n iau. Mae gennym ddisgwyliad oes ymhlith yr isaf yn Ewrop a'r gyfradd uchaf o gofrestradau canser yn yr Undeb Ewropeaidd. Mae ein harolwg o iechyd Cymru, a gyhoeddais heddiw, yn rhoi darlun llwm o'r pocedi o afiechyd cronig ac eithafol yn ein cymunedau. Y mae anghydraddoldebau iechyd sydd yn rhannu Cymru yn 'gyfoethogion' a 'thlodion', fel y ffaith fod y gyfradd farwolaethau o ganser yr ysgyfaint i ddynion dan 75 oed ym Mlaenau Gwent tua dwy waith y ffigur ar gyfer

do this. As a result of the creation of a new Government for Wales, we have the opportunity to tackle the root causes of ill health. This will be done through the policies that we have discussed and laid down in the 'Better Health, Better Wales' Green Paper. The main aim is to bring the health of the poorest people in Wales up to the same level as those with the best health. It is a clear objective which guides me in my thinking.

I am not claiming that the financial position of the NHS in Wales is anything but serious. We are determined to tackle the problems in an open, constructive and mature way taking realistic and proper account of the difficulties the NHS faces. You are creating fear by addressing the debate in this way. Alun Michael as Secretary of State commissioned the stocktake on the finances of the NHS in February and we discussed those finances maturely and constructively in the Health and Social Services Committee in July. The stocktake report gave us many important messages to be taken to heart. Health bodies must live within their means in an all-Wales context. Using the rest of the NHS in Wales to bail out bodies that fail to live within their budgets entrenches inequalities, contrary to the principles of sound financial management of public money. Ultimately it is inequitable as it reduces the money available to be spent on service improvements, capital investments and the broader agenda of promoting better health across Wales.

None of this is secret or hidden in reports in Westminster. It is here in Wales, has been in the Committee and you know about it. We have a chance—

Nick Bourne: I do not want to be accused of contributing to a climate of fear and I am grateful to Jane for giving way. You have been given several opportunities to denounce and disassociate yourself from Jon Owen Jones's statements on hospital and services closure programmes. That would do far more

Powys. Nod y Cabinet yw gwrthdroi hyn, a'r brif ddadl yw sut y gallwn wneud hyn. Yn sgîl creu Llywodraeth newydd i Gymru, cawn y cyfle i daro at wreiddiau afiechyd. Gwneir hyn drwy'r polisiau a drafodwyd gennym ac amlinellwyd yn y Papur Gwyrdd 'Iechyd Gwell, Cymru Well'. Y prif nod yw codi iechyd y bobl dlotaf yng Nghymru i fyny i'r un lefel â'r rheini sydd â'r iechyd gorau. Mae'n amcan clir sydd yn rhoi arweiniad imi yn fy syniadau.

Nid wyf yn honni bod sefyllfa ariannol yr NHS yng Nghymru yn unrhyw beth ond difrifol. Yr ydym yn benderfynol o ddelio â'r problemau mewn ffordd agored, adeiladol ac aeddfed gan roi ystyriaeth realistig a phriodol i'r anawsterau y mae'r NHS yn eu hwynebu. Yr ydych yn creu ofn drwy gyfrannu at y ddadl yn y modd yma. Fe gomisiynodd Alun Michael fel Ysgrifennydd Gwladol yr arolwg o gyllid yr NHS ym mis Chwefror ac fe drafodwyd y materion ariannol hynny yn aeddfed ac adeiladol yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Gorffennaf. Rhoddodd adroddiad yr arolwg lawer o negeseuon pwysig inni eu dwyn i galon. Rhaid i gyrff iechyd fyw o fewn eu modd yng nghyd-destun Cymru gyfan. Mae defnyddio gweddill yr NHS yng Nghymru i dalu dyledion cyrff sydd yn methu byw o fewn eu cyllidebau yn cadarnhau anghydraddoldeb, yn groes i egwyddorion rheolaeth ariannol gadarn ar arian cyhoeddus. Yn y pen draw mae'n annheg gan ei fod yn lleihau'r arian sydd ar gael i'w wario ar welliannau i'r gwasanaeth, buddsoddi cyfalaf a'r agenda ehangach o hybu iechyd gwell ledled Cymru.

Nid oes dim o hyn yn gyfrinachol nac ynghudd mewn adroddiadau yn San Steffan. Y mae yma yng Nghymru, mae wedi bod gerbron Pwyllgor ac yn hysbys ichi. Y mae gennym gyfle—

Nick Bourne: Nid oes arnaf awydd cael fy nghyhuddo o gyfrannu at hinsawdd o ofn ac yr wyf yn ddiolchgar i Jane am ildio. Rhoddwyd sawl cyfle ichi wadu a datgysylltu eich hun oddi wrth ddatganiadau Jon Owen Jones ar raglenni cau ysbytai a gwasanaethau. Byddai hynny'n gwneud

to dispel fear than anything anybody else could say in this Chamber today and I would be most grateful if you did so.

Jane Hutt: I do not wish to accept the second bullet point in the motion which is about comments made by Jon Owen Jones on hospital closures. Jon Owen Jones is not the Health Minister. I was appointed as the Secretary for Health and Social Services by the Government of Wales. I have received advice from a range of people, including Jon Owen Jones, about how I should tackle the health problems in Wales. I have given my reassurances throughout Wales as you can testify in this Chamber. For the rest of the speech I will be addressing the issues.

Although we can not solve the problems overnight, we have made a good start with the stocktake. In the comprehensive spending review and Labour's manifesto for the Assembly elections we pledged to devote £1 billion of resources over the next three years. You know that perfectly well as you must have read the manifesto. *[Interruption.]*

The Presiding Officer: Order.

Jane Hutt: That is £1 billion over the three-year period in comparison with 8.5 per cent average growth in real terms during the last three years of the Conservative Government. My statistics do not show that you spent £100 million a year on capital: they show that you spent £48 million in 1996-1997, £77 million in 1997-1998 and £75 million in 1998-1999. At the time of the comprehensive spending review announcement, William Hague and Francis Maude described Labour's extra spending on health as reckless. This scarcely squares with the motion that you brought before us. Alun Michael's decision on this year's cash allocation to health authorities brought unprecedented levels of increase, an overall 10.5 per cent increase in their discretionary allocations. We have also scrapped the central requirement for cash releasing efficiency savings as a condition on health

llawer mwy i ddileu ofn nag unrhyw beth y gallai neb arall ei ddweud yn y Siambr hon heddiw a byddwn yn dra ddiolchgar pe baech yn gwneud hynny.

Jane Hutt: Nid wyf yn dymuno derbyn yr ail bwynt bwled yn y cynnig sydd yn ymdrin â sylwadau a wnaed gan Jon Owen Jones ar gau ysbytai. Nid Jon Owen Jones yw'r Gweinidog Iechyd. Fe'm penodwyd i yn Ysgrifennydd dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gan Lywodraeth Cymru. Yr wyf wedi derbyn cyngor gan lawer o bobl, yn cynnwys Jon Owen Jones, ynghylch sut y dylwn ddelio â'r problemau iechyd yng Nghymru. Yr wyf wedi rhoi sicrwydd ledled Cymru fel y gallwch dystio yn y Siambr hon. Am weddill yr araith byddaf yn ymdrin â'r materion dan sylw.

Er na allwn ddatrys y problemau dros nos, yr ydym wedi dechrau'n dda gyda'r arolwg. Yn yr adolygiad cynhwysfawr o wariant a maniffesto Llafur ar gyfer etholiadau'r Cynulliad fe addawsom i ymrwymo £1 biliwn o adnoddau dros y tair blynedd nesaf. Gwyddoch hynny'n iawn, gan fod yn rhaid eich bod wedi darllen y maniffesto. *[Torrwyd ar draws.]*

Y Llywydd: Trefn.

Jane Hutt: Dyna £1 biliwn dros y cyfnod tair blynedd o gymharu â chyfartaledd twf o 8.5 y cant mewn termau gwirioneddol yn ystod tair blynedd olaf y Llywodraeth Geidwadol. Nid yw fy ystadegau i'n dangos ichi wario £100 miliwn y flwyddyn ar gyfalaf: dangosant ichi wario £48 miliwn yn 1996-1997, £77 miliwn yn 1997-1998 a £75 miliwn yn 1998-1999. Pan gyhoeddwyd yr adolygiad gwariant cyfansawdd, disgrifiwyd gwariant ychwanegol Llafur ar iechyd gan William Hague a Francis Maude fel byrbwylltra. Go brin fod hyn yn gyson â'r cynnig y daethoch chi ag ef ger ein bron. Rhoddodd penderfyniad Alun Michael ar ddyraniad ariannol eleni i awdurdodau iechyd lefelau o gynnydd nas gwelwyd o'r blaen, sef cynnydd cyffredinol o 10.5 y cant yn eu dyraniadau dewisol. Yr ydym hefyd wedi diddymu'r gofyniad canolog am arbedion effeithlonrwydd sydd yn rhyddhau

bodies, and provided an extra £19 million to health authorities for tackling waiting lists on a recurrent basis so that they can ensure better planning. These decisions were not taken without cost and we have had to forego some important developments, such as the all-Wales capital programme, which is of concern to us. We must seek its re-establishment because it was decimated as far as the Conservatives were concerned.

5:29 p.m.

Tackling the financial problems of the health service is not just a question of money. There are ever-increasing numbers of people being treated by the NHS in Wales. Demands and expectations will increase. I want to move this debate towards a whole changing culture and away from the invidious, divisive, wasteful internal market. You are wrong David because the stocktake does criticise the internal market.

Y Llywydd: Pwynt o drefn. Yr wyf yn dymuno terfynu'r ddadl.

Jane Hutt: We have talked for two days about the crisis in agriculture and the NHS deserves more than the brief consideration it has been given this afternoon. I must refute the statistics that have been given because it has been estimated that, following the introduction of the internal market into the NHS, there was a national increase of 20,000 senior managers and a reduction of 50,000 nurses. An estimate for Wales shows that between 1989 and 1995, the number of nurses increased by 50 per cent, while the number of senior managers increased by over 500 per cent. We have to put the record straight on the allegations that you are making about nurses and doctors. What about the managers that came into being in the internal market that dominated the last 20 years?

I want to ensure that we have a new system to deal with the national health service's problems. You are not helping us with your resolution and motion today. We have to move forward with a mature debate that

arian fel amod ar gyrff iechyd, ac wedi darparu £19 miliwn yn ychwanegol i awdurdodau iechyd i ddelio â rhestrau aros yn rheolaidd fel y gallant sicrhau gwell cynllunio. Ni wnaed y penderfyniadau hyn heb gost ac yr ydym wedi gorfod mynd heb rai datblygiadau pwysig, fel y rhaglen gyfalaf i Gymru gyfan, sydd yn fater pryder inni. Rhaid inni geisio ei ail-sefydlu oherwydd cafodd ei hanrheithio yn achos y Ceidwadwyr.

Nid cwestiwn o arian yn unig yw delio â phroblemau ariannol y gwasanaeth iechyd. Y mae niferoedd cynyddol o bobl yn cael eu trin gan yr NHS yng Nghymru o hyd. Bydd galwadau a disgwyliadau'n codi. Yr wyf eisiau symud y ddadl hon tuag at newid diwylliant cyfan ac i ffwrdd oddi wrth y farchnad fewnol annheg, rhwygol a gwastraffus. Yr ydych yn anghywir, David, oherwydd y mae'r arolwg yn beirniadu'r farchnad fewnol.

The Presiding Officer: Point of order. I wish to bring the debate to a close.

Jane Hutt: Yr ydym wedi siarad am ddeuddydd am yr argyfwng mewn amaethyddiaeth ac mae'r NHS yn haeddu mwy na'r ystyriaeth fer a roddwyd iddo'r prynhawn yma. Rhaid imi wrthbrofi'r ystadegau a roddwyd oherwydd fe amcangyfrifwyd, yn dilyn cyflwyno'r farchnad fewnol i'r NHS, y bu cynnydd cenedlaethol o 20,000 o uwch reolwyr a lleihad o 50,000 o nyrsys. Dengys amcangyfrif ar gyfer Cymru y cynyddodd nifer y nyrsys 50 y cant rhwng 1989 a 1995, tra bod nifer yr uwch reolwyr wedi cynyddu dros 500 y cant. Rhaid inni gywiro'r honiadau a wnaethoch ynglyn â nyrsys a meddygon. Beth am y rheolwyr a ddaeth i fodolaeth yn y farchnad fewnol a draarglwyddiaethodd dros yr 20 mlynedd diwethaf?

Mae arnaf eisiau sicrhau fod gennym system newydd i ddelio â phroblemau'r gwasanaeth iechyd gwladol. Nid ydych yn ein helpu gyda'ch penderfyniad a'ch cynnig heddiw. Rhaid inni symud yn ein blaenau trwy gynnal

involves everybody. I have spoken to NHS staff all around Wales. The nurses, clinicians, community health councils, local authorities and the health bodies are the people who are concerned with the future of the NHS and are asking how can they influence the situation. Over the past few months, and in Powys yesterday, we had a constructive discussion on how to progress. This is something that Assembly Members from that area have been proud to be a part of. There have been no hospital closures, and I remind the Conservatives that 72 hospitals in Wales were closed during their 18 years of rule.

The internal market turned people against each other and drove hospital against hospital. It was empire building and not driven by the health and social needs of the population. We need to turn the spirit of the NHS around by going back 51 years to the launch of Aneurin Bevan's NHS, and ask how we can renew the health and social services that people in Wales love and need? They need to be rebuilt in a way that ensures accessible, equitable services rather than turning the situation into another political football, which is destructive, causes fear and does not take us forward in any positive way.

Tomorrow we will be discussing the budget in Committee. I hope that we can have a mature debate, which will then be shared with the Chamber. The health and well-being of our nation is in our hands and it is not helpful to have resolutions like this which breed more fear. They do not lead to constructive debate and do not enable other people in this Chamber to express their views on how we are trying to move things forward.

The Presiding Officer: We will now vote on the amendment.

A vote was held by show of hands. Amendment rejected.

dadl aeddfed sydd yn cynnwys pawb. Yr wyf wedi siarad â staff yr NHS drwy Gymru gyfan. Y nyrsys, clinigwyr, cyngorau iechyd cymuned, awdurdodau lleol a chyrff iechyd yw'r bobl sydd â chonsŷrn am ddyfodol yr NHS ac sydd yn gofyn sut y gallant hwy ddylanwadu ar y sefyllfa. Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, ac ym Mhowys ddoe, cawsom drafodaeth adeiladol ar sut i symud ymlaen. Y mae hyn yn rhywbeth y mae Aelodau'r Cynulliad o'r ardal honno wedi bod yn falch i fod yn rhan ohono. Ni fu unrhyw gau ysbytai, a charwn atgoffa'r Ceidwadwyr y caewyd 72 o ysbytai yng Nghymru yn ystod eu 18 mlynedd o lywodraeth.

Troi pobl yn erbyn ei gilydd a gyrru ysbytai benben â'i gilydd a wnaeth y farchnad fewnol. Adeiladu ymerodraethau oedd y nod ac nid ateb anghenion iechyd a chymdeithasol y boblogaeth. Mae angen inni mynd i'r ysbryd yr NHS o gwmpas drwy fynd yn ôl 51 o flynyddoedd at lansio'r NHS gan Aneurin Bevan, a gofyn sut y gallwn ni adnewyddu'r gwasanaethau iechyd a chymdeithasol y mae pobl yng Nghymru'n eu caru a'u hangen? Mae angen eu hailadeiladu mewn modd sydd yn sicrhau gwasanaethau hygrych, teg yn hytrach na throi'r sefyllfa yn bêl droed wleidyddol arall, sydd yn ddinistriol, yn peri ofn ac yn ein rhwystro rhag symud ymlaen mewn unrhyw ffordd gadarnhaol.

Yfory byddwn yn trafod y gyllideb mewn Pwyllgor. Gobeithio y gallwn gael dadl aeddfed, a gaiff ei rhannu wedyn â'r Siambr. Mae iechyd a lles ein cenedl yn ein dwylo ni ac nid yw o gymorth cael penderfyniadau fel hyn sydd yn magu mwy o ofn. Nid ydynt yn arwain at ddadl adeiladol ac nid ydynt yn galluogi pobl eraill yn y Siambr hon i fynegi eu barn ar y modd yr ydym yn ceisio symud pethau yn eu blaenau.

Y Llywydd: Fe bleidleisiwn yn awr ar y gwelliant.

Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo. Gwrthodwyd y gwelliant.

We will now vote on the motion.

Fe bleidleisiwn yn awr ar y cynnig.

*A vote was held by show of hands.
Motion adopted.*

*Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.
Derbyniwyd y cynnig.*

Dyna ddiwedd y sesiwn cynhyrfus hwn o'r
Cynulliad.

That is the end of this exciting Assembly
session.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5:36 p.m.
The session ended at 5:36 p.m.*